

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

70/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

8/11/2022

Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn Effeithio ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol

Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn
Effeithio ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol

Dr. Rhys ap Gwilym, Prifysgol Bangor
Dr. Sara Closs-Davies, Prifysgol Bangor
Dr. Edward Jones, Prifysgol Bangor
Dr. Helen Rogers, Prifysgol Bangor



Adroddiad Ymchwil Llawn: ap Gwilym, Closs-Davies, Jones a Rogers
(2022). *Dadansoddiad Cymharol o'r Systemau Trethiant sydd yn Effeithio
ar yr Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol*. Caerdydd: Llywodraeth
Cymru. [https://llyw.cymru/dadansoddiad-cymharol-or-systemau-trethiant-
sydd-yn-ffeithio-ar-yr-economi-ymwelwyr-mewn](https://llyw.cymru/dadansoddiad-cymharol-or-systemau-trethiant-sydd-yn-ffeithio-ar-yr-economi-ymwelwyr-mewn)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm yr Ardoll Ymwelwyr
Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0253471

E-bost: ArdollYmwelwyr@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	8
	Cefndir.....	8
	Amcanion	8
	Dull cyffredinol a throsolwg.....	8
2.	Nodi economïau ymwelwyr cymharol.....	10
	Trosolwg o'r data.....	10
	Trosolwg o'r fethodoleg	12
	Canlyniad y dadansoddiad clwstwr rhaniadol lefel genedlaethol.....	13
	Canlyniad y dadansoddiad clwstwr hierarchaidd lefel genedlaethol.....	13
	Canlyniad dadansoddiad clwstwr rhaniadol lefel NUTS3	14
	Dewis o economïau ymwelwyr cymharol.....	17
	Data sy'n sail i'r dadansoddiadau clwstwr	18
3.	Trosolwg eang o systemau treth yn y ddeg economi gymharol.....	23
	Cymhariaeth gyffredinol o'r ddeg system	23
	Prif gyfraddau treth ym mhob gwlad.....	26
4.	Manylion y systemau treth yn y pum cymharydd agos.....	50
	Strwythur treth yn ôl lefel y llywodraeth	51
	Strwythur treth manwl yn ôl y math o dreth	52
	Strwythur treth manwl yn ôl sylfaen.....	53
	Denmarc – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau.....	55
	Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Nenmarc	56
	Ffrainc – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau	57
	Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Ffrainc.....	60
	Yr Iseldiroedd – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau	63
	Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr Iseldiroedd	64
	Norwy – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau	66

Trethi cysylltiedig â thwristiaeth yn Norwy	67
Sweden – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau	68
Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Sweden.....	70
Cymru – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau.....	71
Trethi cysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru.....	72
5. Amcangyfrif o letemau treth ar gyfer cyflenwyr enghreifftiol gwasanaethau twristiaeth yng Nghymru a'r pum cymharydd agos	73
Enghraifft 1: Perchennog-reolwr microfenter	75
Enghraifft 2: Busnes corfforedig bach i ganolig	78
Enghraifft 3: Busnes mawr	81
6. Casgliadau	82
Cyfeiriadau.....	87
Atodiad A – Methodoleg dadansoddi clwstwr	89
Modd K (Clystyru Ymrannol)	90
Dewis nifer optimaidd k	90
Clystyru Pentyrrol (Clystyru Hierarchaidd)	91
Atodiad B - Ffynonellau data ac adeiladu newidynnau ar gyfer dadansoddiadau clwstwr (Adran 2)	93
Dwysedd Poblogaeth	93
Data Meteorolegol	93
Cyfraniad uniongyrchol twristiaeth at CDG.....	93
Cyfraniad uniongyrchol twristiaeth at gyflogaeth	94
Natur dymhorol a thymor mwyaf poblogaidd	94
Tarddiad Ymwelwyr.....	94
Gwelyau	94
Cyfran o lety twristiaeth gan deipoleg ddaearyddol:	95
Atyniadau twristiaeth OpenStreetMap:	95
Atodiad C - Ffynonellau data ar gyfer dadansoddi treth (Adrannau 3, 4 a 5)	96

Atodiad D - Tybiaethau a wnaed mewn perthynas â threth incwm personol a chyfraniadau nawdd cymdeithasol.....	98
Atodiad E – Lefelau isafswm cyflog a chyflog cyfartalog ar gyfer pob un o'r deg gwlad a ddewiswyd.....	99
Atodiad F - Cyfrifiadau ar gyfer enghraifft 1	100
Atodiad G - Cyfrifiadau ar gyfer enghraifft 2.....	105
Atodiad H – Cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.....	108

Rhestr o dablau

Tabl 1: Gwledydd a nifer y rhanbarthau NUTS3 sydd wedi'u cynnwys yn y paneli	11
Tabl 2: Newidynnau dadansoddiad clwstwr	12
Tabl 3: Clystyrau o ddadansoddiad rhaniadol lefel genedlaethol:	13
Tabl 4: Dyraniad rhanbarthau Cymru i glystyrau NUTS3	14
Tabl 5: Crynodeb o'r Clystyrau Cymreig	16
Tabl 6: Cyfundrefnau cymharol ar gyfer dadansoddi treth	18
Tabl 7: Crynodeb o'r trethi	27
Tabl 8: Prif gyfraddau treth incwm personol yn 2019	30
Tabl 9: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr	34
Tabl 10: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr	36
Tabl 11: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol yr hunangyflogedig	38
Tabl 12: Prif gyfraddau treth incwm corfforaethol yn 2019	40
Tabl 13: Cyfraddau TAW safonol, cyfraddau ar lety gwesty, a throthwyon cofrestru yn 2019	42
Tabl 14: Trethi tir ac eiddo safonol busnesau ar gyfer 2022	44
Tabl 15: Cyfraddau treth ymadael teithwyr awyr yn 2022	48
Tabl 16: Cyfraddau <i>taxe de séjour au réel</i> ym Mharis, Haf 2022	62
Tabl 17: Enghraifft 1 - Perchennog-reolwr microfenter	76
Tabl 18: Enghraifft 2 - Busnes corfforedig bach i ganolig.....	79
Tabl 19: Enghraifft 3 - Busnes mawr.....	81

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Dendogram Lefel Genedlaethol:	14
Ffigur 2: Cystyrau NUTS3	15
Ffigur 3: Plotiau blwch o newidynnau cenedlaethol	18
Ffigur 4: Cyfanswm gwelyau y pen ar lefel genedlaethol	19
Ffigur 5: Plotiau Blwch o Newidynnau NUTS-3.....	20
Ffigur 6: Cyfanswm refeniwiau treth.....	24
Ffigur 7: Strwythur treth yn ôl math	25
Ffigur 8: Strwythur treth yn ôl swyddogaeth economaidd	26
Ffigur 9: Strwythur treth yn ôl lefel y llywodraeth.....	52
Ffigur 10: Strwythur treth manwl yn ôl y math o dreth.....	53
Ffigur 11: Strwythur treth manwl yn ôl sylfaen drethu	54

Geirfa

Acronym/Geiriau allweddol	Diffiniad
Ardrethi Annomestig	Elwir hefyd yn ardrethi busnes: Treth a godir gan lywodraethau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y sylfaen drethiannol yw gwerth ardrethol eiddo sy'n cynnwys tir, adeiladau, a pheiriannau nad ydynt wedi'u dosbarthu fel eiddo domestig.
CDG	Cynnyrch Domestig Gros.
CIT	Treth Incwm Corfforaethol (Corporate Income Tax): Treth a godir ar elw corfforaeth.
EFTA	Y Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd (European Free Trade Association).
Lletem dreth	Lletem dreth yw'r gwahaniaeth rhwng y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu a'r gwerth y mae cynhyrchwyr yn ei gael (yn glir o dreth) o drafodiad. Mae'r dreth i bob pwrpas yn gyrru "lletem" rhwng y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu a'r pris y mae cynhyrchwyr yn ei dderbyn am gynnyrch neu wasanaeth.
NUTS	Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (Nomenclature des unités territoriales statistiques): System hierarchaidd ar gyfer rhannu tiriogaeth economaidd yr UE, EFTA a'r DG at ddiben casglu a dadansoddi data ystadegol.
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Office for National Statistics): Swyddfa weithredol Awdurdod Ystadegau'r DU.
PIT	Treth Incwm Personol (Personal Income Tax): Treth a godir ar incwm net (incwm gros llai rhyddhad treth a ganiateir) unigolion.
SSC	Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Social Security Contributions): Taliadau gorfodol a delir i'r llywodraeth sy'n rhoi'r hawl i gael budd-dal cymdeithasol yn y dyfodol.
TAW	Treth ar Werth.

Toll Teithwyr Awyr	Toll ecseis a godir ar gludo teithwyr ar gwmnïau hedfan sy'n gadael meysydd awyr yn y DG. Mae trethi tebyg yn bodoli mewn gwledydd eraill.
Treth anuniongyrchol	Treth a godir ar nwyddau a gwasanaethau yn hytrach nag ar incwm neu elw.
Treth cyfalaf	Treth a godir ar enillion cyfalaf, gan gynnwys trethi ar elw a difidendau.
Treth Gwerth Tir	Treth a godir ar werth tir.
Treth llafur	Math o dreth uniongyrchol, a godir ar incwm llafur.
Treth raddoledig / wrth-raddoledig / safonol	Treth raddoledig yw un lle mae'r baich treth cyfartalog yn cynyddu gydag incwm neu gyfoeth. Treth wrth-raddoledig yw un lle mae'r baich treth cyfartalog yn lleihau gydag incwm neu gyfoeth. Treth safonol yw un lle mae'r baich treth cyfartalog yn aros yn gyson waeth beth fo'r incwm neu gyfoeth.
Treth treuliant	Math o dreth anuniongyrchol a godir ar ddefnyddwyr pan fyddant yn prynu nwyddau neu wasanaethau.
Treth uniongyrchol	Treth a godir ar incwm neu elw'r person sy'n ei thalu, yn hytrach nag ar nwyddau neu wasanaethau.
Trosiant	Defnyddir y termau trosiant ac enillion gros yn gyfnewidiol yn yr adroddiad hwn.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod yr ymchwil hwn yw meithrin dealltwriaeth o'r systemau treth sy'n wynebu'r economi ymwelwyr yn gyffredinol, a'r sector llety yn benodol, yng Nghymru ac economïau ymwelwyr tebyg (a allai fod yn gystadleuwyr).

Cefndir

- 1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021a), a'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (Llywodraeth Cymru 2021b), ill dau yn cynnwys ymrwymïadau i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.
- 1.3 Ar 13 Medi 2022, lansiodd y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr lleol (Nation.Cymru 2022).
- 1.4 Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu tystiolaeth wrthrychol ar y systemau treth presennol yng Nghymru ac economïau twristiaeth tebyg eraill a allai helpu i hysbysu unrhyw bartïon â diddordeb, gan gynnwys y rhai sydd am gyfrannu at y broses ymgynghori.

Amcanion¹

- 1.5 Gellir crynhoi prif amcanion yr adroddiad hwn fel a ganlyn:
- Nodi economïau twristiaeth priodol sy'n gymharol â Chymru;
 - Casglu ac adrodd ar fanylion y prif drethi sy'n effeithio ar y sectorau twristiaeth yng Nghymru a'r economïau cymharol;
 - Cyfrifo rhai lletyau treth enghreifftiol ar gyfer amrywiol gyflenwyr gwasanaethau twristiaeth, er mwyn amlygu'r gwahaniaethau amlycaf rhwng y cyfundrefnau treth yng Nghymru a'r cymaryddion.

Dull cyffredinol a throsolwg

- 1.6 Mae'r adroddiad yn cynnwys chwe adran.
- 1.7 Mae Adran 1 yn cyflwyno'r adroddiad.

¹ Mae'r canlynol y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn: asesiadau o'r arferion sy'n ymwneud â chyflwyno a gweinyddu trethi twristiaeth; asesiad o effeithiau trethi amrywiol; argymhellion ar ddyluniad neu weithrediad ardoll/treth; argymhellion ar y gymysgedd briodol o drethi.

- 1.8 Yn Adran 2, cyflwynir tri dadansoddiad clwstwr gwahanol, yn seiliedig ar ystod eang o ddata sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth (gan gynnwys mesurau daearyddol a mesurau seiliedig ar y farchnad), i nodi economïau twristiaeth cymaradwy priodol i Gymru.
- 1.9 Mae Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden wedi'u nodi fel cymaryddion agos i sector twristiaeth Cymru, a Lloegr, Estonia, Iwerddon, Latfia, Lwcsembwrg a'r Alban fel cymaryddion mwy anghysbell.
- 1.10 Yn Adran 3, rhoddir trosolwg eang o'r systemau treth yn yr economïau cymharol hyn.
- 1.11 Mae Adran 4 yn rhoi ystyriaeth fanylach i'r systemau treth yn y pum cymharydd agos, ac yng Nghymru.
- 1.12 Mae adran 5 yn defnyddio'r wybodaeth a nodir yn yr adran flaenorol i gyfrifo lletemau treth yn y sectorau twristiaeth yng Nghymru a'r pum economi sy'n cymharu'n agos, yn seiliedig ar dri phatrwm gwahanol o gyflenwyr.
- 1.13 Mae adran 6 yn cloi drwy dynnu sylw at rai o nodweddion amlycaf cyfundrefn drethi Cymru o gymharu â'r rhai yn yr economïau cymharol.

2. Nodi economïau ymwelwyr cymharol

- 2.1 Er mwyn nodi economïau ymwelwyr cymaradwy priodol i Gymru, cwblhawyd dadansoddiadau clwstr ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol NUTS3.²
- 2.2 Mae dadansoddiad clwstr yn golygu rhannu arsylwadau yn grwpiau ystyrlon yn seiliedig ar nodweddion a rennir. Yn yr achos hwn, roedd y fethodoleg yn dyrannu economïau twristiaeth i glystyrau yn seiliedig ar ddata yn ymwneud â'r nodweddion canlynol:
- (a) Gweithgarwch twristiaeth cyffredinol.
 - (b) Nodweddion y galw am dwristiaeth.
 - (c) Nodweddion diwydiant.
 - (d) Nodweddion cyrchfan.

Trosolwg o'r Adran

- 2.3 Mae'r adran hon yn dechrau drwy roi trosolwg o'r dull methodolegol cyffredinol a fabwysiadwyd a'r data y seiliwyd y gwaith arno. Mae'r fethodoleg a'r data wedi'u nodi mewn atodiadau ar ddiwedd yr adroddiad. Mae'r adran yn mynd ymlaen i gyflwyno canlyniadau'r tri dadansoddiad clwstr a gynhaliwyd cyn egluro'r dewis o economïau twristiaeth cymharol. Mae'r adran yn cloi drwy nodi rhai o nodweddion allweddol sector twristiaeth Cymru a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i weithredu'r dadansoddiadau clwstr.

Trosolwg o'r data

- 2.4 Pennwyd y dewis data yn bennaf gan berthnasedd i'r sector twristiaeth, ac argaeledd a chyflawnrwydd y data sydd ar gael o ffynonellau dibynadwy a chyson. Roedd diffyg cyfresi data rhyngwladol cyson a chyflawn yn un o'r prif ffactorau a arweiniodd at gyfyngu'r dadansoddiad i wledydd Ewropeidd.³

² System hierarchaidd ar gyfer rhannu tiriogaeth economaidd yr UE a'r DG at ddiben casglu a dadansoddi data ystadegol yw system enwau'r Comisiwn Ewropeidd o unedau tiriogaethol ar gyfer ystadegau (NUTS). Mae NUTS3 yn cynrychioli'r lefel isaf o ddadgyfuno o fewn yr hierarchaeth. Mae Cymru yn cynnwys deuddeg rhanbarth NUTS3 yn nosbarthiad presennol 2021, yn seiliedig ar awdurdodau lleol unigol, neu grwpiau o'r rheini.

³ Mae Chen et al (2021) yn cynnal dadansoddiad clwstr tebyg i'n un ni, er mwyn nodi cymaryddion â sector twristiaeth yr Alban. Roeddent yn cynnwys pellter o Gaeredin fel newidyn yn eu dadansoddiad. Roedd hyn i bob pwrpas yn eithrio gwledydd nad ydynt yn Ewropeidd o'r clwstr Albanaidd. Mae'r penderfyniad i gyfyngu'r dadansoddiad i wledydd Ewropeidd yn cael effaith debyg.

- 2.5 Roedd y panel o genhedloedd yn cynnwys cyfanswm o 34 endid - cenhedloedd y DG, yr UE ac EFTA, fel y rhestrir yn Nhabl 1.
- 2.6 Roedd y panel o ranbarthau yn cynnwys 1,343 o ardaloedd NUTS-3, wedi'u dosbarthu ar draws gwledydd Ewropeaidd fel y dangosir yn Nhabl 1. Roedd data coll yn atal rhanbarthau NUTS-3 o'r pedair gwlad EFTA rhag cael eu cynnwys yn y clystyrau.

Tabl 1: Gwledydd a nifer y rhanbarthau NUTS3 sydd wedi'u cynnwys yn y paneli

Cymru (CM)	12	Gwlad Groeg (EL)	52	Latfia (LV)	6
Yr Alban (AB)	23	Lloegr (EN)	133	Malta (MT)	2
Awstria (AT)	35	Sbaen (ES)	59	Yr Iseldiroedd (NL)	40
Gwlad Belg (BE)	44	Y Ffindir (FI)	19	Norwy (NO) ³	0
Bwlgaria (BG)	28	Ffrainc (FR) ²	96	Gwlad Pwyl (PL)	73
Y Swistir (CH) ³	0	Croatia (HR)	21	Portiwgal (PT)	25
Cyprus (CY)	1	Hwngari (HU)	20	Rwmania (RO)	42
Tsiecia (CZ)	14	Gwlad yr Iâ (IS) ³	0	Sweden (SE)	21
Yr Almaen (DE)	401	Yr Eidal (IT)	110	Slofenia (SI)	12
Denmarc (DK)	11	Liechtenstein (LI) ³	0	Slovacia (SK)	8
Estonia (EE)	5	Lithwania (LT)	10		
Iwerddon (EI) ¹	19	Lwcsembwrg (LU)	1	CYFANSWM	1343

Nodiadau: ¹ Gweriniaeth a Gogledd gyda'i gilydd. Wyth rhanbarth NUTS3 yn y Weriniaeth ynghyd ag 11 yn y Gogledd.

² Departements et régions d'outre-mer Ffrengig wedi'u heithrio.

³ Dim digon o ddata ar gyfer dadansoddiad NUTS3.

- 2.7 Roedd y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn cynnwys Eurostat, SYG, Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd / Cyngor Teithio a Thwristiaeth y Byd, Storfa Data Hinsawdd Copernicus, Batista e Silva (2018) a Batista e Silva (2021). Darperir manylion llawn y ffynonellau yn Atodiad B.
- 2.8 Mae Tabl 2 yn rhestru'r newidynnau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiadau clwstwr, o dan y pedwar categori bras a restrir ym mharagraff 2.2.
- 2.9 Mewn nifer o achosion, roedd yn rhaid llunio data drwy gyfuno gwahanol ffynonellau neu drwy gydgrynhoi neu ddadgyfuno. Roedd hyn yn fwyaf cyffredin wrth orfod llunio data Cymru, yr Alban, Iwerddon a Lloegr a oedd yn gyson â setiau data rhyngwladol. Esbonir adeiladwaith y newidynnau yn llawn yn Atodiad B.

Tabl 2: Newidynnau dadansoddiad clwstwr

Dadansoddiad cenedlaethol	Dadansoddiad NUTS-3
Gweithgarwch twristiaeth cyffredinol	
Cyfanswm y gwelyau y pen	Cyfanswm y gwelyau y pen
Atyniadau Twristiaeth OpenStreetMap	Atyniadau Twristiaeth OpenStreetMap
Cyfraniad uniongyrchol twristiaeth i CDG	
Cyfraniad twristiaeth at gyflogaeth	
Nodweddion y galw am dwristiaeth	
Natur dymhorol	Natur dymhorol
Canran cyraeddiadau o Ewrop	Y tymor mwyaf poblogaidd
Canran cyraeddiadau o America	
Nodweddion diwydiant	
Canran gwelyau mewn gwestai	Canran gwelyau mewn gwestai
Canran gwelyau gwersylla/carafanau	Canran gwelyau gwersylla/carafanau
	Canran llety mewn ardaloedd dinesig
	Canran llety mewn ardaloedd arfordirol
	Canran llety mewn ardal mynyddig/naturiol
	Canran llety mewn ardaloedd gwledig
Nodweddion cyrchfan	
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd poblogaeth
Tymheredd cyfartalog y gaeaf	Tymheredd cyfartalog y gaeaf
Tymheredd cyfartalog yr haf	Tymheredd cyfartalog yr haf
Dyddodiad cyfartalog blynyddol	Dyddodiad cyfartalog blynyddol

Trosolwg o'r fethodoleg

- 2.10 Cymhwyswyd y fethodoleg clystyru ymrannol modd k at y data cenedlaethol a data rhanbarthol NUTS3. Mae hwn ymhlith yr algorithm clystyru mwyaf adnabyddus ac mae'n golygu neilltuo arsylwadau i glystyrau er mwyn lleihau'r amrywiad o fewn pob clwstwr (Wu, 2012). Mae clystyru modd k yn rhannu arsylwadau yn grwpiau nad ydynt yn gorgyffwrdd. Hynny yw, ni all unrhyw arsylwadau fod yn aelod o fwy nag un clwstwr, a rhaid i bob clwstwr gael o leiaf un arsylwad. Penderfynwyd ar y nifer optimaidd o glystyrau drwy ystyried y gyfradd y gostyngodd swm y gwallau sgwâr (SSE) wrth i nifer y clystyrau gynyddu. Esbonnir y dull clystyru rhaniadol hwn yn fanylach yn Atodiad A.

- 2.11 Cymhwyswyd y fethodoleg clystyru pentyrrol, math o glystyru hierarchaidd, i'r data cenedlaethol. Mae'r dull o'r gwaelod i fyny hwn yn adeiladu clystyrau drwy drin pob arsylwad (cenedl) fel ei chlwtwr ei hun i ddechrau. Yna mae'r algorithm yn mynd rhagddo trwy gyfuno'r arsylwadau â'r pellter byrraf rhyngddynt i ffurfio clwtwr mwy. Mae'r broses hon yn cael ei hailadrodd nes bod yr holl arsylwadau wedi'u cyfuno'n un clwtwr. Cyfrifir swm y gwallau sgwâr (SSE) ar bob iteriad a'i ddefnyddio i bennu strwythur hierarchaidd y gellir ei ddarlunio ar ffurf dendrogram. Mae'r fethodoleg hon yn amhriodol ar gyfer grwpio nifer fawr o arsylwadau, ac felly ni chafodd ei chymhwyso i ddata NUTS3. Esbonnir y dull clystyru hierarchaidd hwn yn fanylach yn Atodiad A.

Canlyniad y dadansoddiad clwtwr rhaniadol lefel genedlaethol

- 2.12 Darganfuwyd mai naw clwtwr oedd y nifer optimaidd. Dangosir cynnwys y clystyrau hyn yn Nhabl 3 isod. Dyrennir Cymru i glwtwr sydd hefyd yn cynnwys Denmarc, Norwy, a Sweden.

Tabl 3: Clystyrau o ddadansoddiad rhaniadol lefel genedlaethol:


CLYSTYRAU								
0	1	2	3	4	5	6	7	8
MT	CH	CM	BE	EL	AB	AT	BG	CY
	EI	DK	CZ	HR	IS	FI	EE	ES
	FR	NO	DE			SI	HU	IT
	LI	SE	EN			SK	LT	PT
			LU				LV	
			NL				PL	
							RO	

- 2.13 Datgelodd dadansoddiad sensitifrwydd, wrth amrywio nifer y clystyrau (k) uwchben ac o dan naw, mai Denmarc oedd cyd-aelod mwyaf cyffredin clwtwr Cymru, ac yna Ffrainc, yna Norwy a Sweden. Roedd Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd yn gyd-aelodau achlysurol.

Canlyniad y dadansoddiad clwtwr hierarchaidd lefel genedlaethol

- 2.14 Mae'r dendrogram lefel genedlaethol (Ffigur 1) yn crynhoi'r berthynas hierarchaidd rhwng cenhedloedd yn y dadansoddiad clwtwr. Mae hyn yn ein helpu i ddeall y ffordd y caiff cenhedloedd eu dyrannu i glystyrau am amryw niferoedd o glystyrau.

Ffigur 1: Dendogram Lefel Genedlaethol:



Canlyniad dadansoddiad clwstwr rhaniadol lefel NUTS3


- 2.15 Canfuwyd mai saith oedd y nifer optimaidd o glystyrau. Dyrannwyd rhanbarthau NUTS3 Cymru i dri o'r clystyrau hyn, fel y dangosir yn Nhabl 4. Roedd y pedwar clwstwr arall yn cynnwys rhanbarthau o'r tu allan i Gymru yn unig. Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn awgrymu bod y clystyrau hyn yn weddol sefydlog, yn yr ystyr nad yw cyfansoddiad y clystyrau'n amrywio'n fawr wrth i niferoedd y clystyrau newid.

Tabl 4: Dyraniad rhanbarthau Cymru i glystyrau NUTS3

CLYSTYRAU N=7		
4	6	0
Cymoedd Canolog	Ynys Môn	Caerdydd a Bro Morgannwg
Cymoedd Gwent	Gwynedd	
	Conwy a Sir Ddinbych	
	De-orllewin Cymru	
	Pen-y-bont a Chastell-nedd Port Talbot	
	Abertawe	
	Sir Fynwy a Chasnewydd	
	Sir y Fflint a Wrecsam	
	Powys	

2.16 Yng ngweddill yr adroddiad hwn, cyfeirir at glwstwr 0 fel 'Clwstwr Caerdydd', clwstwr 4 fel 'Clwstwr y Cymoedd' a chlwstwr 6 fel 'Clwstwr Gweddill Cymru'. Cyfeirir at y grŵp o'r tri chlwstwr hyn fel y 'Clystyrau Cymreig'. Mae Ffigur 2 yn dangos dosbarthiad y rhanbarthau NUTS3 yn ôl y clystyrau hyn.

Ffigur 2: Clystyrau NUTS3
Clystyrau NUTS3



Ffynhonell: cyfrifon yr awduron

Tabl 5: Crynodeb o'r Clystyrau Cymreig

	Cyfanswm	Clystyrau Cymru		Cl. Caerdydd		Cl. Cymoedd		Cl. Gweddill	
	NUTS3	#	%	#	%	#	%	#	%
Cymru	12	12	100%	1	8%	2	17%	9	75%
Alban	23	22	96%	4	17%	2	9%	16	70%
Awstria	35	13	37%	3	9%	10	29%	0	0%
Gwlad Belg	44	21	48%	7	16%	12	27%	2	5%
Bwlgaria	28	15	54%	9	32%	6	21%	0	0%
Cyprus	1	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
Tsiecia	14	3	21%	1	7%	2	14%	0	0%
Almaen	401	162	40%	80	20%	60	15%	22	5%
Denmarc	11	11	100%	2	18%	0	0%	9	82%
Estonia	5	3	60%	1	20%	0	0%	2	40%
Iwerddon	19	17	89%	4	21%	6	32%	7	37%
Groeg	52	11	21%	4	8%	7	13%	0	0%
Lloegr	133	116	87%	55	41%	35	26%	26	20%
Sbaen	59	25	42%	8	14%	12	20%	5	8%
Ffindir	19	14	74%	1	5%	8	42%	5	26%
Ffrainc	96	71	74%	8	8%	42	44%	21	22%
Croatia	21	6	29%	1	5%	5	24%	0	0%
Hwngari	20	8	40%	1	5%	7	35%	0	0%
Yr Eidal	110	40	36%	6	5%	25	23%	9	8%
Lithwania	10	7	70%	3	30%	3	30%	1	10%
Lwcsembwrg	1	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
Latfia	6	6	100%	1	17%	3	50%	2	33%
Malta	2	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
Iseldiroedd	40	35	88%	3	8%	14	35%	18	45%
Gwlad Pwyl	73	45	62%	13	18%	28	38%	4	5%
Portiwgal	25	20	80%	2	8%	14	56%	4	16%
Rwmania	42	24	57%	10	24%	14	33%	0	0%
Sweden	21	19	90%	1	5%	5	24%	13	62%
Slofenia	12	4	33%	1	8%	2	17%	1	8%
Slofacia	8	2	25%	1	13%	1	13%	0	0%
CYFANSWM	1343	732		231		325		176	

2.17 Mae Tabl 5 yn crynhoi aelodaeth y tri chlwstwr hyn. O'r 1,343 o ranbarthau yn y sampl lawn, mae 732 wedi'u dyrannu i un o'r tri Chlwstwr Cymreig gyda'r 611 sy'n weddill wedi'u dyrannu i un o'r pedwar clwstwr arall. Mae hyn yn golygu bod 54% o ranbarthau y tu allan i Gymru mewn Clwstwr Cymreig.

- 2.18 Rhoddir sylw arbennig i gyfran y rhanbarthau NUTS-3 ym mhob gwlad sydd mewn Clwstwr Cymreig (colofn 4); a nifer (colofn 9) a chyfran (colofn 10) y rhanbarthau yng Nghlwtwr Gweddill Cymru, sy'n cynnwys naw o'r deuddeg rhanbarth NUTS-3 yng Nghymru.
- 2.19 Mae gwledydd gyda dros 90% o'u rhanbarthau mewn Clystyrau Cymreig wedi'u hamlygu mewn gwyrdd, tra bod y rhai sydd â rhwng 70% a 90% wedi'u hamlygu mewn melyn. Mae gwledydd sydd â dros 40% o'u rhanbarthau yng Nghlwtwr Gweddill Cymru wedi'u hamlygu mewn gwyrdd, tra bod y gwledydd sydd â rhwng 30% a 40%, neu ag o leiaf ddeg rhanbarth, wedi'u hamlygu mewn melyn.

Dewis o economïau ymwelwyr cymharol

- 2.20 Nodwyd Denmarc, Sweden, yr Iseldiroedd, Norwy a Ffrainc fel grŵp o gymaryddion agos i sector twristiaeth Cymru.
- 2.21 Mae'n amlwg mai Denmarc sydd gyfatebol agosaf at Gymru ar draws y tri dadansoddiad clwtwr. Mae Ffrainc yn cyfateb yn agos â Chymru ar lefel genedlaethol, a gosodwyd tri chwarter ei rhanbarthau NUTS3 mewn clystyrau Cymreig. Norwy a Sweden oedd y rhai cyfatebol agosaf i Gymru yn y dadansoddiad cenedlaethol. Dangosodd Sweden debygrwydd rhanbarthol sylweddol i Gymru. Roedd data coll yn golygu na chafodd rhanbarthau Norwy eu dyrannu i unrhyw glwtwr yn y dadansoddiad NUTS3. Gosodwyd 45% o ranbarthau NUTS3 yr Iseldiroedd yng Nghlwtwr Gweddill Cymru, gyda 43% arall yn y clystyrau Cymreig eraill. Roedd yr Iseldiroedd hefyd yn dangos rhywfaint o debygrwydd i Gymru ar lefel genedlaethol.
- 2.22 Nodwyd grŵp pellach o genhedloedd sy'n cynrychioli cymaryddion mwy anghysbell i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys Lwcsembwrg, Estonia, Latfia, yr Alban, Lloegr ac Iwerddon.
- 2.23 Dangosodd Lwcsembwrg beth tebygrwydd yn y dadansoddiadau clwtwr cenedlaethol ond nid yn y dadansoddiad NUTS3. Dangosodd gweddill y grŵp hwn rai tebygrwydd arwyddocaol yn y dadansoddiad rhanbarthol, ond i raddau llai yn y dadansoddiad cenedlaethol.

2.24 Mae Tabl 6, felly, yn dangos y systemau treth sydd i'w hystyried yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.


Tabl 6: Cyfundrefnau cymharol ar gyfer dadansoddi treth

DU	Cyfundrefn drethi Cymru a chymaryddion pell
Denmarc	Cymaryddion agos
Ffrainc	
Sweden	
Norwy	
Yr Iseldiroedd	
Lwcsembwrg	Cymaryddion pell
Estonia	
Gweriniaeth Iwerddon	
Latfia	

Data sy'n sail i'r dadansoddiadau clwstwr

2.25 Mae'r isadran hon yn amlinellu rhai o nodweddion allweddol sector twristiaeth Cymru o gymharu â'i gymheiriaid Ewropeaidd, fel y'u hamlygwyd gan y dadansoddiad, ac sy'n helpu i ddarparu dealltwriaeth o ganlyniadau'r dadansoddiadau clwstwr a gyflwynwyd yn flaenorol.


Ffigur 3: Plotiau blwch o newidynnau cenedlaethol



- 2.26 Mae Ffigur 3 yn dangos dosbarthiad y 13 newidyn a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad clwstwr lefel genedlaethol, ar ffurf plotiau blychau. Mae'r newidynnau wedi'u safoni'n sgoriau z i helpu'r dehongli.⁴
- 2.27 Dangosir Cymru fel croes goch ym mhob dosbarthiad. Dyma rai o nodweddion nodedig y data:
- (a) Mae Cymru yn allanolyn o ran gwelyau y pen (gweler ffigur 4), yn llawer uwch nag unrhyw wlad arall. Mae gan Gymru 157 o welyau fesul mil o drigolion o gymharu â chymedr ar draws y sampl gyfan o 59. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod sector twristiaeth Cymru yn gwneud cyfraniad at gyflogaeth yn agos iawn at y cymedr, a chyfraniad at gynnyrch domestic gros (CDG) yng nghanol yr ail chwarterl.

Ffigur 4: Cyfanswm gwelyau y pen ar lefel genedlaethol


Cyfanswm gwelyau y pen (%)
Lefel genedlaethol



⁴ Mae sgôr z yn disgrifio safle gwerth crai yn nhermau ei bellter o'r cymedr, pan gaiff ei fesur mewn unedau gwyriad safonol.

- (b) Cymru sydd â'r gyfran uchaf o welyau mewn meysydd gwersylla neu feysydd carafanau a'r gyfran isaf o welyau gwestai yn y sampl.
- (c) Mae gan Gymru gyfran gymharol uchel o 'ddyfodiaid rhyngwladol' o America (cyfandiroedd y gogledd a de), a chyfran gymharol isel o Ewrop o'u cymharu â'r cymaryddion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y mesurau hyn yn eithrio'r rhai sy'n cyrraedd o wledydd eraill yn y DG, gan wneud cymhariaeth â gwledydd eraill yn y sampl yn llai ystyrlon.
- (d) Adlewyrchir hinsawdd dymherus Cymru gan dymheredd y gaeaf a dyddodiad blynyddol ychydig yn uwch na'r chwarter uchaf, a thymheredd haf ychydig yn is na'r chwarter isaf.
- (e) Mae natur dymhorol twristiaeth Cymru yn agos iawn at ganolrif y sampl, yn sylweddol is na'r cymedr. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y mesur hwn o dymoroldeb (yn seiliedig ar fesur Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig, sydd ond yn ystyried twristiaeth 'ryngwladol') yn eithrio twristiaeth o darddiad y DG, yn wahanol i'r mesur o dymoroldeb a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad NUTS3.

Ffigur 5: Plotiau Blwch o Newidynnau NUTS-3



- 2.28 Mae Ffigur 5 yn dangos dosbarthiad 13 o'r 14 newidyn a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad clwstwr lefel NUTS3, ar ffurf plotiau blwch. Mae tri newidyn wedi cael eu trawsffurfio i'w logarithm naturiol er mwyn hwyluso pethau'n weledol, o ystyried natur ystumiedig iawn y newidynnau hynny. Yna mae'r holl newidynnau wedi'u safoni'n sgorau z i helpu'r dehongli.
- 2.29 Roedd y pedwerydd newidyn ar ddeg yn newidyn anrifiadol, y tymor mwyaf poblogaidd, na ellir ei ddangos yn y plot hwn. Haf yw'r tymor mwyaf poblogaidd ar gyfer dros 93% o'r sampl, gan gynnwys pob un o ddeuddeg rhanbarth NUTS-3 Cymru.
- 2.30 Dangosir rhanbarthau NUTS-2 Cymru (1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 2 ar gyfer Dwyrain Cymru) lle nad oes unrhyw amrywiad yn nata NUTS-3 o fewn y rhanbarthau hyn. Ar gyfer cyfran dinasoedd o lety twristiaeth, dangosir Caerdydd, Abertawe a Sir Fynwy/Casnewydd. Mae gan bob rhanbarth arall yng Nghymru NUTS-3 gyfran o ddim dinas, a gynrychiolir gan y groes goch. Ar gyfer yr holl newidynnau eraill, dangosir rhanbarthau NUTS-3 uchaf ac isaf Cymru, ynghyd â chroes goch yn cynrychioli cyfartaledd rhanbarthau eraill Cymru.
- 2.31 Mae'r data hwn yn cyd-fynd yn fras â'r nodweddion Cymru gyfan a nodir ym mharagraff 2.27 uchod. Rhai o nodweddion nodedig eraill y data hwn yw:
- (a) Mae sector twristiaeth Cymru wedi'i ddominyddu gan deipoleg arfordirol Batista e Silva (2021), er bod amrywiaeth sylweddol ar draws rhanbarthau Cymru.⁵
 - (b) Mae natur dymhorol yn sylweddol uwch yn y gorllewin nag yn nwyrain Cymru, ond nid yw'n eithafol yn y naill na'r llall.
 - (c) Mae lefelau eithriadol o uchel Cymru o welyau y pen yn cael eu gyrru gan Fôn, Gwynedd a Dyfed (566, 535 a 336 o welyau fesul 1,000 o drigolion).
 - (d) Mae gan Gymru gyfan heblaw'r de ddwyrain (Sir Fynwy/Casnewydd, Caerdydd/y Fro, Cymoedd Gwent, y Cymoedd Canolog) gyfrannau uchel o welyau gwersylla/carafanau.

⁵ Mae Batista e Silva et al (2021) yn cyfrifo cyfrannau llety twristiaid mewn ardaloedd arfordirol, dinasoedd, mynyddoedd a natur, ac ardaloedd gwledig ar gyfer pob rhanbarth NUTS3.

2.32 Yn olaf, nodir nad nodweddion y data sydd wedi eu hamlygu yma yn unig sy'n gyrru canlyniadau'r dadansoddiadau clwstwr. Er enghraifft, mae'r clystyru rhwng sectorau twristiaeth Cymru a Denmarc yn gymaint o ganlyniad i'w dwyseddau poblogaeth aneithriadol ag y mae i'r dwysedd o feysydd gwersylla a charafanau yn y ddwy wlad.

3. Trosolwg eang o systemau treth yn y ddeg economi gymharol

- 3.1 Mae twristiaeth yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, ac mae cystadleurwydd sector twristiaeth gwlad yn debygol o gael ei effeithio gan yr ystod lawn o drethi a godir .
- 3.2 Nod yr adran hon, felly, yw darparu cymhariaeth fras o'r systemau treth cyffredinol ym mhob un o'r deg cyfundrefn dreth a restrir yn Nhabl 6. Mae'r adran yn dechrau drwy ystyried cyfanswm maint y refeniw treth a'u cyfansoddiad cyffredinol. Yna mae'n rhoi crynodeb o'r prif gyfraddau treth sy'n ymwneud â phob un o'r prif gategoriâu treth yn y gwledydd hyn, gan gynnwys treth incwm personol, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, treth incwm corfforaethol, treth ar werth a threthi eiddo. Mae'n symud ymlaen i ystyried trethi penodol sy'n ymwneud â thwristiaeth, sy'n llai arwyddocaol o ran y derbyniadau treth cyffredinol ond sy'n cael effaith uniongyrchol ar y sector twristiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ardollau ymwelwyr, toll teithwyr awyr, trethi ymadael a threthi eraill sy'n ymwneud â thwristiaeth.
- 3.3 Defnyddir 2019 fel y flwyddyn sylfaen ar gyfer y dadansoddiad hwn. Bu nifer o newidiadau dros dro i systemau treth mewn ymateb i bandemig Covid. Un enghraifft oedd y toriad dros dro mewn TAW ar y sector lletygarwch yn y DG rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2022. Mae newidiadau ers 2019 yn cael eu trafod yn y nodiadau, gan nodi a ydym yn credu eu bod o natur dros dro. Mae cymariaethau ar draws gwledydd yn seiliedig ar ddata 2019 lle bo modd ac fe'i gwneir yn glir lle nad yw hyn yn wir.

Cymhariaeth gyffredinol o'r ddeg system


Cymarebau treth i CDG

- 3.4 Mae Ffigur 6 yn cymharu cyfanswm trethi (gan gynnwys cyfraniadau nawdd cymdeithasol gorfodol) fel canran (%) o CDG ar gyfer y deg gwlad a ddewiswyd yn 2019 (a blwyddyn gymharol 2018). Mae hefyd yn cynnwys y % cyfartalog o CDG ar gyfer yr UE-27. Mae gan Ddenmarc, Ffrainc a Sweden dderbyniadau treth uwch na chyfartaledd yr UE yn 2019 a 2018, tra bod y Deyrnas Gyfunol, Estonia, Latfia ac Iwerddon yn is na chyfartaledd yr UE. Mae Norwy, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd yn

agos at gyfartaledd yr UE. Denmarc sydd â'r baich treth uchaf o fewn y deg gwlad a ddewiswyd, tra bod gan Iwerddon y baich treth isaf yn 2019 a 2018.⁶

- 3.5 Cynyddodd baich treth Denmarc 2.4 pwynt canran rhwng 2018 a 2019, wedi'i ddilyn gan gynnydd Norwy o 0.7%, a'r Iseldiroedd ac Estonia 0.5% yr un. Gostyngodd y baich treth yn Ffrainc (o 1%), Sweden (o 0.9%), Iwerddon (o 0.5%) a Latfia (0.4%). Arhosodd y baich treth yn y Deyrnas Gyfunol a Lwcsembwrg yn gymharol sefydlog.

Ffigur 6: Cyfanswm refeniwiau treth



Strwythur treth macro: trethi anuniongyrchol yn erbyn trethi uniongyrchol yn erbyn nawdd cymdeithasol


- 3.6 Mae Ffigur 7 yn dangos strwythur treth fel % o CDG pob gwlad yn 2019, wedi'i ddadansoddi rhwng trethi uniongyrchol, trethi anuniongyrchol a chyfraniadau nawdd cymdeithasol. Mae trethi uniongyrchol yn cynnwys trethi incwm personol, trethi incwm corfforaethol a threthi uniongyrchol eraill. Mae trethi anuniongyrchol yn cynnwys Treth ar Werth (TAW), trethi a thollau ar fewnforion heb gynnwys TAW, trethi ar gynnyrch heb gynnwys TAW a thollau mewnforio, a threthi anuniongyrchol

⁶ Mae'n werth nodi bod CDG Gweriniaeth Iwerddon yn cael ei ystyried ar y cyfan i fod yn gorddatgan lefel y gweithgaredd economaidd o fewn y wlad, oherwydd y nifer uchel o gwmnïau rhyngwladol sydd â'u pencadlys yn Iwerddon, a chryfder Iwerddon yn y diwydiant pryddesu awyrennau. Ers 2017, mae Banc Canolog Iwerddon wedi ffafrio GNI metrig newydd, wedi'i Addasu yn Iwerddon (neu GNI*), fel mesur o faint economi Iwerddon. Roedd refeniw treth fel cyfran o GNI* yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2019 yn 36.5%.

eraill ar gynhyrchu. Mae cyfraniadau nawdd cymdeithasol yn cynnwys cyfraniadau cyflogwyr a chartrefi (unigolion).

- 3.7 Fel y gwelir yn Ffigur 7, mae Denmarc yn dibynnu mwy ar drethi uniongyrchol o gymharu â threthi anuniongyrchol.⁷ Mae Iwerddon, Lwcsembwrg, Norwy a'r Deyrnas Gyfunol hefyd yn derbyn mwy o refeniw treth o drethi uniongyrchol yn hytrach na threthi anuniongyrchol, er i raddau llai na Denmarc. Mae trethi anuniongyrchol yn gymharol bwysicach na threthi uniongyrchol neu nawdd cymdeithasol yn Estonia, Sweden, Latfia a Ffrainc.

Ffigur 7: Strwythur treth yn ôl math




Trethi yn ôl swyddogaeth economaidd: treuliant yn erbyn llafur yn erbyn cyfalaf

- 3.8 Mae Ffigur 8 yn dangos strwythur refeniw treth, yn 2019, fel % o CDG yn y gwledydd dethol yn seiliedig ar swyddogaeth economaidd: treuliant, llafur a chyfalaf. Mae pob gwlad yn deillio'r rhan fwyaf o'u refeniw treth o lafur. Sweden yw'r uchaf yn hyn o beth, gyda Ffrainc a Denmarc yn dilyn yn agos. Mewn cyferbyniad â Sweden, Ffrainc a Denmarc, nid oes gan y Deyrnas Gyfunol wahaniaeth mor sylweddol rhwng y tair swyddogaeth economaidd: mae 13% o CDG yn deillio o weithgareddau llafur, 11.1% o CDG o dreuliant a 9.7% o CDG o gyfalaf. Mae Latfia ac Estonia yn

⁷ Mae'n werth ailadrodd bod cyfraniad Denmarc sy'n cyfateb i gyfraniadau nawdd cymdeithasol yn cael ei drin fel rhan o dreth incwm personol, ac felly'n cael ei gategoreiddio fel rhan o drethi uniongyrchol yn Ffigur 7.

deillio'r rhan fwyaf o'u refeniw treth o lafur a threuliant a chryn dipyn yn llai o gyfalaf o gymharu â'r gwledydd eraill.

Ffigur 8: Strwythur treth yn ôl swyddogaeth economaidd



Prif gyfraddau treth ym mhob gwlad

3.9 Mae'r isadran hon yn rhoi trosolwg o'r prif gyfraddau treth statudol ym mhob un o'r deg gwlad a ddewiswyd. Mae'r data'n deillio o sawl ffynhonnell wahanol fel ffurf o driongiant. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys cyfraddau treth a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i drethi at ddibenion yr adroddiad hwn gan PWC, Deloitte, Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), y Comisiwn Ewropeaidd, ac EY. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffynonellau hyn yn Atodiad C.

3.10 Ystyrir y trethi canlynol ar gyfer pob gwlad gymharol, lle bo'n berthnasol:

- (a) Treth incwm personol (PIT);
- (b) Cyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC);
- (c) Treth incwm corfforaethol (CIT);
- (d) Treth ar werth (TAW);
- (e) Trethi eiddo;
- (f) Ardoll ymwelwyr;

- (g) Trethi eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth (gan gynnwys trethi ymadael teithwyr awyr).

3.11 Mae Tabl 7 yn rhoi crynodeb o brif nodweddion y trethi hyn.

Tabl 7: Crynodeb o'r trethi

Math o dreth/cyfraniad	Disgrifiad	Yn cael ei godi ar
Treth incwm personol (PIT)	Treth ar incwm personol, i gynnwys incwm cyflogaeth, masnach ac eiddo.	Unigolion, gan gynnwys gweithwyr cyflogedig, hunangyflogedig a phartneriaid busnes partneriaeth.
Cyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC)	Cyfraniadau sy'n rhoi'r hawl i unigolion gael budd-daliadau cymdeithasol yn y dyfodol (e.e. budd-daliadau diweithdra, salwch neu henaint, ac yswiriant iechyd).	Yr hunangyflogedig, gweithwyr a chyflogwyr.
Treth incwm corfforaethol (CIT)	Treth ar incwm corfforaethol, i gynnwys incwm masnach, enillion trethadwy, incwm o eiddo a llog benthyciad.	Endidau corfforedig (cwmnïau preifat a chyhoeddus).
Treth ar werth (TAW)	Treth ar y gwerth ychwanegol ar nwyddau a gwasanaethau ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi.	Yn cael ei godi gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ar nwyddau a gwasanaethau a werthir (h.y., yn rhan o'r pris gwerthu a delir gan y cwsmer). Mae busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW yn hawlio TAW yn ôl ar gostau a threuliau penodol. Mae hyn i bob pwrpas yn golygu bod TAW yn cael ei ysgwyddo yn y pen draw gan y defnyddiwr ar ddiwedd y gadwyn gyflenwi nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.
Treth eiddo	Fel arfer codir treth ar werth tir neu dir ac adeiladau. At ddibenion yr adroddiad hwn, dim ond trethi eiddo cylchol yr ydym yn eu	Preswylwyr domestig ac annomestig eiddo (at ddibenion yr adroddiad hwn, nid ydym yn ystyried trethi eiddo domestig [preswyl] oni bai bod rheswm penodol y gallent effeithio

Math o dreth/cyfraniad	Disgrifiad	Yn cael ei godi ar
	hystyried, sy'n cynrychioli cost weithredol barhaus i fusnesau. Nid ydym yn ystyried trethi eiddo achlysurol fel y rhai sy'n gysylltiedig â throsglwyddo perchnogaeth neu ddigwyddiadau anaml eraill.	ar gostau gweithredu cyflenwyr twristiaeth).
Ardoll ymwelwyr (Fe'i gelwir hefyd yn dreth feddiannaeth, treth llety, treth ystafell, treth gwesty, neu dreth dwristiaeth).	Mae hon yn dreth a osodir ar gost arosiadau dros dro mewn llety â thâl.	Mae'n ofynnol i westeion a rheolwyr eiddo gasglu trethi o'r fath gan westeion. Mae hyn yn golygu ei fod yn cael ei dalu fel arfer gan y cwsmer (ymwelydd), sut bynnag y caiff ei dalu i awdurdodau treth y wladwriaeth a/neu leol (yr olaf yw'r mwyaf cyffredin) gan y gwesteiwyr/rheolwyr eiddo.

- 3.12 Mae trethi yng Nghymru yn cael eu codi gan Lywodraeth y DG, Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol. Llywodraeth y DG sy'n pennu'r strwythurau ar gyfer PIT ond mae gan Lywodraeth Cymru rai pwerau cyfyngedig yn ymwneud â'r cyfraddau y caiff ei godi. Mae SSC, CIT a TAW yn fater a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl i Lywodraeth y DG. Mae trethi eiddo, ar ffurf y Dreth Gyngor ac ardrethi annomestig, wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, sydd yn ei dro yn datganoli cyfrifoldebau casglu ar gyfer y trethi hyn i awdurdodau lleol, ynghyd â rhywfaint o reolaeth dros bennu cyfraddau yn achos y Dreth Gyngor. Nid oes ardoll ymwelwyr yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr opsiwn o ganiatáu i awdurdodau lleol gyflwyno un, o fewn terfynau a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru yn ôl pob tebyg.
- 3.13 Er nad yw'r pum treth gyntaf yn y rhestr uchod yn drethi penodol i dwristiaeth, maent yn effeithio'n sylweddol ar y sector twristiaeth. Er enghraifft, gall CIT, PIT a TAW effeithio ar broffidioldeb, gweithgareddau a chystadleurwydd busnes cysylltiedig â thwristiaeth. Yn ogystal, mae PIT a SSC yn effeithio ar y cyflenwad

llafur (y nifer o weithwyr a gyflogir o fewn busnes) ac maent yn gost ychwanegol i fusnesau, yn ogystal â chyfllogeion.

3.14 Dylid nodi mai'r cyfraddau treth yn yr adroddiad hwn yw'r cyfraddau treth sylfaenol statudol. Er enghraifft, mae cyfraddau CIT a PIT yn dibynnu ar drothwyon, maint y sylfaen drethu (e.e., incwm neu elw) a lleoliad (llywodraeth ganolog neu leol). Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys y cyfraddau treth effeithiol, is neu uwch. Mewn achosion o'r fath lle mae cyfraddau treth gwahanol yn berthnasol a throthwyon, eithriadau, a chynlluniau ar gael, esbonnir hyn ar wahân lle bo'n berthnasol at ddibenion yr adroddiad hwn. Yn yr un modd, mae unrhyw lwfansau, eithriadau, cynlluniau a rhyddhadau twristiaeth-benodol perthnasol yn cael eu hesbonio ar wahân lle bo'n berthnasol ar gyfer pob gwlad.

3.15 Dylid nodi hefyd bod cyfraniadau cymdeithasol (SCC) yn cael eu cymhwyso a'u trin fel rhan o PIT mewn rhai gwledydd ac yn cael eu categoreiddio felly yn y data sydd ar gael. Dylid ystyried hyn felly wrth ddarllen a dadansoddi'r data.

Trethi incwm personol

3.16 Sylwch, mae'r cyfraddau treth incwm personol (PIT) a gynhwysir yn Nhabl 8 yn ymwneud â 2019. Ar gyfer pob un o'r deg gwlad a ddewiswyd, mae'r tabl yn cyflwyno'r trothwy lefel incwm isaf ar gyfer unigolion. Dyma lefel yr incwm y gall unigolyn ei gyrraedd cyn talu PIT. Mae hyn yn cynnwys y lwfans personol/sylfaenol (di-dreth) ac incwm sy'n dod o fewn braced treth o 0% lle bo'n berthnasol. Mae'r tabl hefyd yn cyflwyno'r ystod o gyfraddau PIT ymylol ar gyfer pob gwlad gan ddechrau o'r braced trethadwy cyntaf (h.y., y braced treth nesaf yn dilyn y braced treth o 0%, lle bo'n berthnasol), y gyfradd PIT ymylol ar gyfer enillydd incwm isafswm cyflog nodweddiadol ac enillydd incwm cyflog cyfartalog (gweler Atodiad E am fanylion y lefelau isafswm cyflog a chyflog cyfartalog ar gyfer pob gwlad). Nid yw trethi lleol ar incwm a enillir wedi'u cynnwys yn y tabl hwn (ac eithrio, lle bo'n berthnasol, yn y golofn 'Nodiadau'). Nid yw'r tabl yn ystyried credydau treth a didyniadau a all leihau atebolrwydd treth cyffredinol unigolyn (cyfradd treth PIT effeithiol).

3.17 Mae gan Gymru, a gweddill y DG, drothwy isafswm incwm cymharol uchel ar gyfer treth incwm o £12,500. Mae gan Norwy a Sweden drothwyon uwch na hyn ar gyfer

treth incwm genedlaethol, ond trothwyon is ar gyfer treth incwm leol, sy'n dreth sylweddol yn y ddwy wlad.

- 3.18 Mae Tabl 8 yn adrodd cyfraddau treth incwm cenedlaethol, ond mae gan Ddenmarc, Norwy a Sweden drethi incwm lleol sylweddol. Darperir crynodebau byr yn y nodiadau yn Nhabl 8, a cheir rhagor o fanylion yn y meysydd perthnasol yn Adran 4 yr adroddiad hwn. Nid oes gan Gymru dreth incwm leol.
- 3.19 Mae Denmarc, Iwerddon a'r Iseldiroedd yn enghreifftiau o gyfundrefnau treth sydd â throthwyon isafswm incwm llawer is ar gyfer treth incwm, ond lle gwneir iawn am hyn gyda chredydau treth cynhwysol. Nid oes gan Gymru unrhyw gredydau treth cynhwysol.
- 3.20 Mae gan Gymru a gwledydd eraill nifer o gredydau treth gyda rhagofynion hawl. Mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn Nhabl 8.
- 3.21 Mae gan Gymru dri band treth incwm, sef 20%, 40% a 45%. Dim ond un band sydd gan Estonia (20%) tra, ar y pegwn arall, mae gan Lwcsembwrg 23 (yn amrywio o 0% i 42%).

Tabl 8: Prif gyfraddau treth incwm personol yn 2019

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau PIT ymylol (%) 2019	Cyfradd PIT ymylol ar isafswm cyflog (%)	Cyfradd PIT ymylol ar cyflog cyfartalog (%)	Nodiadau
Denmarc	Dim	12.16-15.0	12.16	12.16	Mae unigolion sy'n gweithio hefyd yn talu Treth y Farchnad Lafur ar gyfradd o 8% o'u cyflog gros. Mae trethi lleol ar incwm trethadwy personol yn cael eu codi ar incwm ar gyfraddau gwahanol ar draws gwahanol fwrdeistrefi. Y gyfradd

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau PIT ymylol (%) 2019	Cyfradd PIT ymylol ar isafswm cyflog (%)	Cyfradd PIT ymylol ar cyflog cyfartalog (%)	Nodiadau
					dreth leol gyfartalog yw 24.93%, yn ôl yr OECD. Mae'r cyfraddau'n amrywio o 22.5% i 27.8%. Dim trothwy isafswm incwm, ond darperir credydau treth (gweler paragraff 4.13)
Estonia	€6,000	20.0	20.0	20.0	Cyfradd safonol yw'r gyfradd PIT
Ffrainc	€10,064	14.0-45.0	14.0	30.0	
Iwerddon	Dim	20.0-40.0	20.0	40.0	Nid oes trothwy isafswm incwm, ond darperir credyd treth o €1,650.
Latfia	€2,760	20.0-31.4	20.0	20.0	
Lwcsembwrg	€11,265	8.0-42.0	18.0	39.0	Mae incwm trethadwy hefyd yn amodol ar ardreth o 7%.
Yr Iseldiroedd	Dim	9.0-51.75	10.45	38.10	Dim trothwy isafswm incwm, ond darperir credydau treth (gweler paragraff 4.31)
Norwy	NOK 174,500	7.85-24.05	12.05	12.05	Mae unigolion yn talu treth gyffredinol ar incwm cyffredin ar gyfradd o 22% (ystyrir 14.15% o hyn yn dreth leol), ar ôl didynnu lwfans safonol o NOK 56,550. Mae'r gyfran dreth ganolog o 7.85%

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau PIT ymylol (%) 2019	Cyfradd PIT ymylol ar isafswm cyflog (%)	Cyfradd PIT ymylol ar cyflog cyfartalog (%)	Nodiadau
					o'r gyfradd dreth gyffredinol wedi'i chynnwys yn y gyfradd PIT.
Sweden	SEK 490,700	20.0-25.0	0.0	20.0	Mae treth incwm llywodraeth leol yn gymesur ac yn amrywio rhwng bwrdeistrefi. Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 29.18% a 35.15%. Yn ôl yr OECD, y gyfradd gyfartalog yw 32.19% yn 2019. Mae lwfans sylfaenol ar gyfer unigolion sy'n talu treth llywodraeth leol yn cael ei gymhwyso i incwm a enillir ac mae'n dibynnu ar lefel yr incwm. Mae'r lwfans sylfaenol wedi'i osod ar SEK 13,700.
Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	£12,500	20.0-45.0	20.0	20.0	Mae gan Lywodraeth Cymru rai pwerau cyfyngedig i amrywio cyfraddau treth incwm (er nid trothwyon na lwfansau) ond nid yw wedi arfer y rhain hyd yma.
Yr Alban	£12,500	19.0-46.0	20.0	21.0	

Cyfraniadau nawdd cymdeithasol

- 3.22 Mae Tabl 9 yn cyflwyno'r trothwy lefel incwm isaf ar gyfer unigolion sy'n talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC). Dyma lefel yr incwm y gall unigolyn ei gyrraedd cyn talu SSC. Mae hyn yn cynnwys y lwfans sylfaenol (di-dâl o SSC) ac incwm sy'n dod o fewn braced SSC o 0% lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r tabl hefyd yn cyflwyno'r ystod o gyfraddau SSC ymylol ar gyfer pob gwlad gan ddechrau o'r braced trethadwy SSC cyntaf (h.y., y braced SSC nesaf yn dilyn y braced 0%, lle bo hynny'n berthnasol). Mae systemau SSC rhai gwledydd, yn enwedig Ffrainc, yn gymhleth. Felly, mae cyfradd gyfartalog SSC yn cael ei hystyried at ddibenion yr adroddiad hwn.
- 3.23 Mae Tabl 10 yn cyflwyno'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer cyflogwyr, ac mae Tabl 11 yn cyflwyno'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer yr hunangyflogedig.
- 3.24 Nid oes unrhyw ddatganoli o gyfraniadau nawdd cymdeithasol yn y DG. Felly, Llywodraeth y DG sy'n pennu pob agwedd ar y gyfundrefn yng Nghymru ac maent yn gyffredin â Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
- 3.25 Yn yr un modd â PIT, mae gan Gymru drothwy isafswm incwm cymharol uchel ar gyfer cyfraniadau nawdd cymdeithasol.
- 3.26 Yn wahanol i PIT, nid yw SSCau yn gyffredinol raddoledig. Fel rheol, mae SSCau yn raddoledig yn Ffrainc, Iwerddon a Norwy. Mae gan Estonia a Latfia gyfraddau unffurf. Mae SSCau yn wrth-raddoledig yn Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Yng Nghymru, gweddill y DG a Sweden, mae SSCau yn raddoledig i ddechrau ond yn datblygu'n wrth-raddoledig ar lefelau incwm uwch.
- 3.27 Mae cyfraddau cyflogeion ar gyfer SSCau yng Nghymru yn agos at y cyfartaledd ar gyfer y gwledydd dan sylw, ond mae cyfraddau ar gyfer cyflogwyr a'r hunangyflogedig yn sylweddol is na'r cyfartaledd.

Tabl 9: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogaeion

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau SSC (%) 2019	Nodiadau
Denmarc	Dim	0.0	Ariennir system SSC Denmarc yn gyffredinol trwy refeniw treth arferol. O'r SSC cyfyngedig iawn sy'n bodoli ar gyfer gweithwyr, nid ydynt, yn anad dim, yn orfodol. Fodd bynnag, mae cyflogaeion yn agored i dalu traean cyfraniad tuag at y pensiwn atodol ('ATP') sef swm blynyddol sefydlog o 1,135.80 DKK (94.65 DKK y mis).
Estonia	Dim	1.6	
Ffrainc	Dim	11.45-17.16 9.2 0.5	Mae Ffrainc yn codi cyfraddau gwahanol o SSC, ar ystod o drothwyon ar gyfer sawl cynllun gwahanol. Mae Ffrainc hefyd yn codi cyfraniad cymdeithasol cyffredinol (CSG) ar enillion unigolyn. Mae Ffrainc hefyd yn codi cyfraniad at ad-dalu dyled gymdeithasol (CRDS) ar enillion unigolyn.
Iwerddon	€18,252	4.0 0.5-8.0	Mae unigolion hefyd yn talu Tâl Cymdeithasol Cynhwysol (USC) ar incwm gros, lle nad oes dosbarth o 0%.
Latfia	Dim	11.0	Caiff SSC ei gapio pan fydd yr incwm yn fwy na €62,800. Gosodir treth undod ar incwm sy'n fwy na €62,800. Y gyfradd treth undod yw 11.0% a delir gan gyflogaeion. Fodd bynnag, mae 10.5% o gyfradd y cyflogai yn rhan o gyfradd treth incwm personol cyflogai. Mewn geiriau eraill, mae 10.5% o gyfradd treth undod y cyflogai yn cael ei drawsnewid ac mae'n gyfran o'u cyfradd treth incwm personol o, er

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau SSC (%) 2019	Nodiadau
			enghraifft, 31.4% (gweler y tabl cyfraddau PIT uchod).
Lwcsembwrg	€6,213	11.05 1.4	Yr uchafswm ar gyfer cyfraniadau yw €124,266 enillion gros. Mae cyflogeion hefyd yn talu Yswiriant Dibyniaeth ar gyfradd unffurf o 1.4% ar incwm dros €6,213.
Yr Iseldiroedd	Dim	27.65	Yr uchafswm ar gyfer cyfraniadau yw €34,300 o enillion gros.
Norwy	NOK 54,650	8.2	
Sweden	SEK 19,670	7.0	Mae SSC cyflogeion a delir fel arfer yn gwbl ddidynadwy o dreth yn erbyn incwm trethadwy cyflogeion. Yr uchafswm ar gyfer cyfraniadau yw SEK 519,708 enillion gros.
Y Deyrnas Gyfunol	£8,632	12.0-2.0	Mae cyflogeion yn talu SSC ar gyfradd o 2% ar incwm sy'n fwy na £50,000 y flwyddyn.

Tabl 10: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau SSC (%)	Nodiadau
Denmarc	Dim	0.0	Ariennir system SSC Denmarc yn gyffredinol trwy refeniw treth arferol. Fodd bynnag, mae cyflogwyr yn atebol i dalu dwy ran o dair tuag at y pensiwn atodol ('ATP') sy'n swm blynyddol sefydlog o 2,272.20 DKK (189.35 DKK y mis). Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniadau tuag at AER, AES, cyfraniadau mamolaeth a chyllid, ac yn cymryd polisiau yswiriant ar gyfer damweiniau cyflogeion ac ati. Fodd bynnag, mae cyfraniadau tuag at y cynlluniau hyn yn dibynnu ar nifer y cyflogeion, oriau gwaith, math o ddiwydiant, ac ati. Yn ôl Deloitte (2019), mae costau cyflogwr ar gyfer y cyfraniadau hyn ac ystod yswiriant ar gyfartaledd rhwng 10,000 a 12,000 DKK y flwyddyn, fesul cyflogai.
Estonia	€6,000	33.8	Mae'r cyflogwr hefyd yn talu cyfandaliad o €1,980 y flwyddyn ar gyfer pob cyflogai.
Ffrainc	Dim	41.66-50.22	Mae Ffrainc yn codi cyfraddau gwahanol o SSC, ar ystod o drothwyon ar gyfer sawl cynllun gwahanol.
Iwerddon	Dim	10.95	Gostyngir cyfanswm cyfradd cyfraniadau cyflogwyr i 8.7% mewn perthynas â chyflogeion sy'n ennill llai na €20,072 y flwyddyn.
Latfia	Dim	24.09	Caiff SSC ei gapio pan fydd yr incwm yn fwy na €62,800. Gosodir treth undod ar incwm sy'n fwy na €62,800. Y gyfradd dreth undod yw 14.5% a delir gan gyflogwyr.

Gwlad	Trothwy isafswm incwm 2019	Ystod o gyfraddau SSC (%)	Nodiadau
			berthnasol. Uchafswm y gostyngiad yw SEK 15,000.
Y Deyrnas Gyfunol	£8,632	13.8	

Tabl 11: Cyfraniadau nawdd cymdeithasol yr hunangyflogedig

Gwlad	Trothwyon SSC (y flwyddyn)	Cyfraddau SSC (%)	Nodiadau
Denmarc			Cyfandaliad o DKK 2,272.
Estonia		33.0	Caiff SSC ei gapio pan fydd incwm busnes net blyneddol yn hafal i €64,800.
Ffrainc		22.0	I'r hunan-gyflogedig, mae'r cyfraddau yn Ffrainc yn dibynnu ar statws treth y busnes a'r math o fasnach. Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 12% a 23%. Mae busnes sy'n seiliedig ar wasanaeth, sy'n masnachu fel 'microfenter', yn talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol ar gyfradd o 22% o'r trosiant .
Iwerddon	€5,000	4.0 0.5-11	Mae unigolion hefyd yn talu Tâl Cymdeithasol Cynhwysol (USC) ar incwm gros, lle nad oes braced o 0%. Mae'r hunangyflogedig yn talu gordal ar gyfradd o 3% ar incwm sy'n fwy na €100,000 y flwyddyn.
Latfia	€5,160	32.15	Mae gan yr hunan-gyflogedig 'sylfaen isaf' o €5,160.

Gwlad	Trothwyon SSC (y flwyddyn)	Cyfraddau SSC (%)	Nodiadau
			Caiff SSC ei gapio pan fydd yr incwm yn fwy na €62,800. Telir treth undod uwchlaw'r trothwy hwn.
Lwcsembwrg		26.0	Mae'r hunan-gyflogedig yn talu SSC y cyflogai a'r cyflogwr gyda'i gilydd. Mae'r cyfraddau'n amrywio yn dibynnu ar lefelau incwm, rhwng 24-28%. 26% yw'r gyfradd gyfartalog.
Yr Iseldiroedd		27.65	Yr uchafswm ar gyfer cyfraniadau yw €34,300 o enillion gros.
Norwy	NOK 54,650	11.4	
Sweden	SEK 19,670	7.0	Y gyfradd gyfrannu yw 0% pan fydd incwm personol yn uwch na SEK 519,708.
Y Deyrnas Gyfunol	£8,632	2.0-9.0	

Trethi incwm corfforaethol

- 3.28 Mae Tabl 12 yn cyflwyno'r prif gyfraddau treth incwm corfforaethol (CIT) ar gyfer y panel o ddeg economi gymharol.
- 3.29 Cyfradd CIT Cymru yw 19%. Dyma'r gyfradd safonol isaf ar draws y panel o wledydd, ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon lle mae'r gyfradd pennawd yn 12.5%.⁸ Y gyfradd safonol gyfartalog ar draws y panel yw 22%.
- 3.30 Mae'r gyfradd CIT yng Nghymru i fod i godi i 25% ym mis Ebrill 2023, gyda chyfradd is o 19% ar gyfer cwmnïau ag elw o dan £50,000, er bod sylwadau gan Brif Weinidog newydd y DG yn awgrymu efallai na chaiff hyn ei weithredu.

⁸ Nodir bod gan sawl gwlad yn y sampl, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg, rai eithriadau o ran trethu elw cwmnïau rhwngwladol, sydd wedi denu rhywfaint o ddadlau (gweler, er enghraifft, Tørsløv et al 2020). Ni chaiff y materion hyn eu trafod yma gan eu bod y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Tabl 12: Prif gyfraddau treth incwm corfforaethol yn 2019

Gwlad	Prif gyfraddau CIT (%) 2019	Nodiadau
Denmarc	22.0	Heb ei newid yn 2022.
Estonia	20.0	Heb ei newid yn 2022. Mae trethiant incwm masnachu corfforaethol yn cael ei ohirio nes bod yr elw yn cael (ei ystyried wedi) ei ddosbarthu (mae elw wedi'i ail-fuddsoddi wedi'i eithrio), ac os felly cânt eu trethu yn gyffredinol ar 20%, h.y., eu trethu ar 20/80 o'r dosbarthiad (net) a dalwyd. Fe'i hystyrir yn CIT yn hytrach nag yn WHT oherwydd effeithiau unrhyw gytundebau treth dwbl cymwys. Sylwer, o 2018 ymlaen, mae cyfradd CIT is o 14% yn berthnasol i gwmnïau sy'n gwneud dosbarthiadau rheolaidd.
Ffrainc	28.0 (hyd at €500k) 31.0 (dros €500k)	Roedd cyfradd safonol sengl o 25% mewn grym yn 2022. Mae gordal cymdeithasol ychwanegol yn berthnasol i gwmnïau ar y rhan o'r CIT sy'n fwy na €763k, ar gyfradd o 3.3%.
Iwerddon	12.5	Heb ei newid yn 2022. Mae cwmnïau rhyngwladol tramor yn talu Cyfradd Treth Effeithiol (ETR) cyfanredol o 2.2-4.5% ar elw byd-eang "wedi'i symud" i Iwerddon, trwy rwydwaith byd-eang Iwerddon o gytundebau treth dwyochrog.
Latfia	20.0	Heb ei newid yn 2022. Gohirir trethiant incwm masnachu corfforaethol hyd nes y caiff yr elw ei ddosbarthu (mae elw wedi'i ail-fuddsoddi wedi'i eithrio), ac os felly cânt eu trethu'n gyffredinol ar 20% o swm y dosbarthiad gros. Fe'i hystyrir yn CIT yn hytrach nag yn WHT oherwydd effeithiau unrhyw gytundebau treth dwbl cymwys.
Lwcsembwrg	15.0 (hyd at €175k) 31.0 (€175k - €200k) 17.0 (dros €200k)	Heb ei newid yn 2022. Codir ardreth undod ar swm y dreth gorfforaethol ar gyfradd o 7% (er enghraifft, y gyfradd CIT gyfanredol ar gyfer cwmni ag incwm trethadwy o dros €200,001 fyddai 18.19% [PWC]). Yn ogystal, mae trethi lleol ar gyfraddau treth busnes trefol amrywiol yn

Gwlad	Prif gyfraddau CIT (%) 2019	Nodiadau
		berthnasol (er enghraifft, mae Dinas Lwcsembwrg yn codi 6.75%).
Yr Iseldiroedd	15.0 (hyd at €245k) 25.0 (dros €245k)	Yn 2022, roedd y trothwy wedi cynyddu i €395k, a chynyddodd y gyfradd uwch i 25.8%. Yn ôl memorandwm gwanwyn y wlad, cynigir gostwng y trothwy i € 200,000 o 1 Ionawr 2023.
Norwy	22.0	Heb ei newid yn 2022.
Sweden	21.4	20.6% yn 2022.
Y Deyrnas Gyfunol	19.0	Heb ei newid yn 2022. Disgwylir i'r gyfradd Treth Gorfforaeth newid o 1 Ebrill 2023. Bydd y brif gyfradd yn cynyddu i 25% yn berthnasol i elw dros £250,000. Bydd cyfradd elw bach (SPR) o 19% yn cael ei chyflwyno ar gyfer cwmnïau sydd ag elw o £50,000 neu lai. Bydd cwmnïau sydd ag elw rhwng £50,000 a £250,000 yn talu treth ar y brif gyfradd (25%) wedi'i gostwng gan ryddhad ymylol a bennir gan lefel yr elw.

Ffynonellau: Crynodebau Treth Byd-eang PWC, Deloitte ac OECD

TAW

- 3.31 Mae Tabl 13 yn cyflwyno'r gyfradd safonol o TAW ar gyfer y panel o ddeg economi gymharol, ynghyd â'r gyfradd sy'n berthnasol i lety gwesty a'r trothwy cofrestru, nad yw'n ofynnol i fusnesau gofrestru ar gyfer TAW yn is na hynny.
- 3.32 Y gyfradd TAW safonol yng Nghymru yw 20%. Y gyfradd ganolrif safonol ar draws y panel yw 21%, gyda'r isaf ar 17% yn Lwcsembwrg a'r uchaf ar 25% yn Nenmarc, Norwy a Sweden.
- 3.33 Mae pob gwlad yn gosod cyfraddau gostyngol ar gyfer categorïau amrywiol o nwyddau a gwasanaethau. Nid yw'r cyfraddau gostyngol o 5% a 0% yng Nghymru yn berthnasol yn gyffredinol i wasanaethau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Fodd bynnag, ar draws y panel cyfan, mae wyth o'r deg gwlad yn cymhwyso cyfradd TAW is i lety gwesty. Mae gwahanol wledydd yn cymhwyso cyfraddau gostyngol i

wasanaethau eraill sy'n ymwneud â thwristiaeth, a manylir ar y rhain ar gyfer y pum cymharydd agos yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

- 3.34 Mae Cymru, a gweddill y DG, yn allanolyn o ran y trothwy ar gyfer cofrestru ar gyfer TAW. Trothwy'r DG yw £85,000. Mae hyn yn fwy na dwywaith y trothwy cofrestru TAW ar gyfer darparwyr gwasanaeth mewn unrhyw wlad arall yn y panel. Mae pump o'r panel naill ai heb unrhyw drothwy neu â throthwy o dan tua £6,000.

Tabl 13: Cyfraddau TAW safonol, cyfraddau ar lety gwesty, a throthwyon cofrestru yn 2019

Gwlad	Cyfradd TAW safonol (%) 2019	Cyfradd TAW ar lety gwesty (%) 2019	Prif drothwy cofrestru TAW 2019	Nodiadau
Denmark	25.0	25.0	DKK 50,000 (tua. £5,800)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Estonia	20.0	9.0	€40,000 (tua £34,600)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Ffrainc	20.0	10.0	€82,800 am nwyddau €33,200 am wasanaethau (tua £71,600 a £28,700 yn eu tro)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Iwerddon	23.0	13.5	€75,000 am nwyddau €37,500 am wasanaethau (tua £64,800 a £32,400 yn eu tro)	Oherwydd Covid-19 newidiodd y gyfradd TAW ar gyfer gwestai a llety gwyliau o 13.5% i 9% ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2020 - 31 Awst 2022.
Latfia	21.0	12.0	€40,000 (tua £34,600)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Lwcsembwrg	17.0	3.0	Dim trothwy	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Yr Iseldiroedd	21.0	9.0	Dim trothwy	Cyfraddau heb eu newid yn 2022. Roedd y gyfradd

Gwlad	Cyfradd TAW safonol (%) 2019	Cyfradd TAW ar lety gwesty (%) 2019	Prif drothwy cofrestru TAW 2019	Nodiadau
				ostyngol yn 6% yn 2018 a blynyddoedd cynharach. Nid oes trothwy cofrestru TAW yn bodoli yn yr Iseldiroedd. Fodd bynnag, o 1 Ionawr 2020 nid oes rhaid i fusnesau sydd â throsiant byd-eang o dan €20000 roi cyfrif am TAW.
Norwy	25.0	12.0	NOK 50,000 (tua £4,300)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022. Roedd y gyfradd ostyngol yn 10% cyn 1 Ionawr 2018. Oherwydd Covid-19 gostyngwyd y gyfradd is o TAW dros dro o 12% i 6% ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill - 30 Medi 2021.
Sweden	25.0	12.0	SEK 30,000 (tua £2,400)	Cyfraddau heb eu newid yn 2022.
Y Deyrnas Gyfunol	20.0	20.0	£85,000	Cyfraddau heb eu newid yn 2022. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, gostyngwyd TAW ar gyfer gwestai a busnesau lletygarwch eraill i 5% ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf 2020 - 30 Medi 2021, ac yna 12.5% tan 31 Mawrth 2022.

Ffynonellau: EY (2019) ac EY (2022).

Trethi Eiddo

- 3.35 Mae Tabl 14 yn rhoi gwybodaeth am y sylfaen drethu, y gyfradd dreth (lluosydd neu ganran) a chrynodeb o sut mae trethi tir ac eiddo (L&P) yn gweithredu, ar gyfer pob gwlad.
- 3.36 Gan fod gan Gymru ei phwerau codi trethi ei hun ar gyfer trethi eiddo (a elwir yn Ardrethi Annomestig), mae gwybodaeth am Gymru yn hytrach na'r Deyrnas Gyfunol wedi'i chynnwys yn Nhabl 14.
- 3.37 Nid yw pob gwlad yn defnyddio gwerth y farchnad fel sylfaen drethu wrth gyfrifo trethi eiddo. Er enghraifft, mae Lwcsembwrg yn cyfeirio at werthoedd yn y flwyddyn 1941.
- 3.38 Fel y gwelir yn Nhabl 14, mae llawer o wledydd yn defnyddio ystod o luosyddion, sydd ar gyfer y rhan fwyaf o wledydd yn amrywio rhwng bwrdeistref/rhanbarth. Nid yw hyn yn wir am Gymru na Sweden sy'n cymhwyso'r un gyfradd ar draws y wlad.
- 3.39 Mae'r rhan fwyaf o wledydd, ac eithrio Estonia, yn trin treth eiddo fel traul didynnu treth, gan ganiatáu rhyddhad treth i fusnesau mewn perthynas â'r dreth eiddo a godir.

Tabl 14: Trethi tir ac eiddo safonol busnesau ar gyfer 2022

Gwlad	Sylfaen drethu	Lluosydd / Canran	Gweithrediad treth tir ac eiddo	Nodiadau
Denmarc	Tir: Prisiad cyhoeddus o'r tir	Rhwng 1.6% a 3.4%	Mae treth tir yn cael ei gosod gan y bwrdeistrefi y mae cyfraddau ar eu cyfer yn amrywio rhwng 1.6% a 3.4% yn seiliedig ar brisiad cyhoeddus y tir.	
	Eiddo: Prisiad cyhoeddus o'r eiddo	1%	Yn ogystal, codir treth eiddo genedlaethol ar 1% o werth yr eiddo llai gwerth y tir.	

Gwlad	Sylfaen drethu	Lluosydd / Canran	Gweithrediad treth tir ac eiddo	Nodiadau
Estonia	Gwerth tir wedi'i asesu.	Cyfraddau rhwng 0.1% a 2,5% yn ddibynnol ar y fwrdeistref.	Cyfrifir y dreth dir flynyddol ar werth asesedig y tir. Y mae cyfraddau treth yn amrywio rhwng 0.1% a 2.5% yn dibynnu ar y fwrdeistref.	Nid oes treth eiddo (ar werth yr adeiladau)
Ffrainc	Gwerth rhentu'r eiddo.	Mae terfyn uchaf CFE a threth arall, CVAE: Gyda'i gilydd ni allant fod yn fwy na 2% o werth ychwanegol ar gyfer y cwmni.	Mae CFE yn dreth flynyddol a delir gan fusnesau, yn seiliedig ar werth rhentu'r eiddo.	Mae llawer o eithriadau, gan gynnwys: eithriadau ar gyfer <i>chambres d'hotels</i> (Gwely a Brecwast); blwyddyn gyntaf perchnogaeth; a busnesau sydd â throsiant o dan €5,000.
Iwerddon	Prisiad eiddo masnachol a osodir gan y Comisiynydd Prisio.	Cyfradd prisio flynyddol a osodir gan y Cyngor Sir.	Mae'r cyfraddau'n seiliedig ar feddiannaeth yr eiddo masnachol.	
Latfia	Gwerth stentaidd eiddo.	1.5% yw'r gyfradd safonol ond gall amrywio mewn rhai bwrdeistrefi.	Y gyfradd safonol yw 1.5% ar werth yr eiddo, er y gall bwrdeistrefi bennu cyfradd wahanol.	
Lwcsembwrg	Amcangyfrif o werth yr	Mae'r gyfradd sylfaenol yn amrywio o	Mae bwrdeistrefi yn codi treth eiddo tirol flynyddol yn seiliedig	

Gwlad	Sylfaen drethu	Lluosydd / Canran	Gweithrediad treth tir ac eiddo	Nodiadau
	eiddo yn 1941	0.7% i 1%, wedi'i luosi â chyfernod a osodir yn lleol.	ar werth unedol yr eiddo. Mae'r gyfradd yn amrywio o 0.7% i 1% ac yn cael ei luosi â chyfernod a osodwyd gan y fwrdeistref (e.e., 750% yn ninas Lwcsembwrg).	
Yr Iseldiroedd	Gwerth eiddo swyddogol (WOZ)	Rhwng 0.1% a 0.3%	Yn gyffredinol, mae treth tir yn cael ei gosod gan fwrdeistrefi. Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 0.1% a 0.3% yn seiliedig ar werth eiddo swyddogol (WOZ).	
Norwy	Amcangyfrif o werth y farchnad (gyda rhai addasiadau).	Rhwng 0.1% a 0.7%	Nid yw pob bwrdeistref yn gosod treth eiddo. I'r rhai sy'n gwneud hynny, mae'r gyfradd berthnasol yn amrywio rhwng 0.1% a 0.7%. Y sylfaen dreth fel arfer yw amcangyfrif o werth y farchnad.	
Sweden	Gwerth asesiad treth eiddo.	1%	Codir treth eiddo tirol flynyddol ar gyfradd o 1% o werth asesiad treth eiddo.	
Cymru	Gwerth ardrethol Asiantaeth y	53.5% (ar gyfer 2022/23)*	Mae'r gwerth ardrethol yn cael ei osod gan y VOA ac	Mae nifer o ryddhadau, gan gynnwys

Gwlad	Sylfaen drethu	Lluosydd / Canran	Gweithrediad treth tir ac eiddo	Nodiadau
	Swyddfa Brisio (VOA).		yn cael ei luosi â lluosydd.	Rhyddhad Busnes Bach - rhyddhad o 100% ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol o dan £6,000.

* Y sylfaen dreth ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru yw gwerth ardrethol yr eiddo, y bwriedir iddo fod yn fras yn werth rhent blynyddol yr eiddo. Y sylfaen dreth ar gyfer pob un o'r gwledydd eraill yw gwerth cyfalaf yr eiddo. Felly, mae'r lluosydd (cyfradd dreth) yng Nghymru yn llawer uwch na'r gwledydd eraill, gan adlewyrchu'n bennaf y sylfaen drethu is. Anaml y bydd ailbrisiadau o werthoedd ardrethol yng Nghymru yn digwydd (mae gwerthoedd ardrethol cyfredol yn seiliedig ar werthoedd yn 2015) ac felly mae'r lluosydd yn cael ei uwchraddio'n flynyddol i roi cyfrif am y sylfaen dreth statig.

Ffynhonnell: Deloitte tax summaries

Ardollau ymwelwyr

- 3.40 Mae ardollau ymwelwyr yn daladwy ar arosiadau tymor byr mewn llety â thâl mewn llawer o wledydd ledled Ewrop.^{9,10} Fodd bynnag, o'r deg gwlad a ystyrir yn yr adroddiad hwn, dim ond yn Ffrainc a'r Iseldiroedd y cânt eu codi.
- 3.41 Mae taxe de séjour Ffrainc yn cael ei weinyddu'n lleol, gyda chyfraddau'n cael eu gosod gan communes, sy'n cyfateb i gynghorau cymuned neu dref Cymru. Mae'r cyfraddau fel arfer yn amrywio o €0.20 i €5.00 y person y noson, yn dibynnu ar y commune a natur y llety. Ceir rhagor o fanylion am y dreth hon yn Adran 4, paragraffau 4.1-4.6.
- 3.42 Mae toerstenbelasting yr Iseldiroedd hefyd yn cael ei weinyddu'n lleol, gyda chyfraddau'n cael eu gosod gan fwrdeistrefi. Mae'n berthnasol i ddarparu llety i westeion o'r tu allan i'r fwrdeistref. Mae cyfraddau'n amrywio ar draws bwrdeistrefi. Mewn rhai achosion, codir tâl arnynt fel cyfran o'r gyfradd llety, mewn achosion eraill fe'u codir fesul person y noson yn dibynnu ar y math o lety, ac mewn rhai

⁹ Cyfeirir at ardollau ymwelwyr yn y llenyddiaeth ac mewn deddfwriaeth yn amrywiol fel treth deiliadaeth, treth llety, treth ystafell, treth gwesty, neu dreth dwristiaeth.

¹⁰ Mae ardollau ymwelwyr yn bodoli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd mewn deunaw o wledydd yr UE-27.

achosion (er enghraifft, Amsterdam) maent yn gymysgedd o'r ddau. Yn 2021, roedd y cyfraddau'n amrywio rhwng €0.65 a €10.89 y pen y noson. Ceir rhagor o fanylion am y dreth hon yn Adran 4, paragraffau 4.37-4.43.

Trethi ymadael teithwyr awyr

- 3.43 Trethi sy'n cael eu talu i'r llywodraeth ar sail ymadawiadau teithwyr o feysydd awyr yw trethi ymadael teithwyr awyr. Maent yn wahanol i daliadau maes awyr gan nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau penodol a ddarperir (fel rheolaethau ffiniau neu ddiogelwch).
- 3.44 Cyflwynwyd toll teithwyr awyr yn y DG ym 1994 a chyflwynwyd y dreth hedfan sifil yn Ffrainc ym 1999. Mae Norwy, Sweden a'r Iseldiroedd wedi cyflwyno trethi tebyg o fewn y degawd diwethaf.
- 3.45 Nid oes unrhyw drethi ymadael teithwyr awyr yn Nenmarc, Estonia, Iwerddon, Latfia na Lwcsembwrg. Diddymwyd Treth Teithio Awyr Iwerddon ym mis Ebrill 2014. Mae Taliadau Teithwyr Awyr yn daladwy yn Lwcsembwrg a Latfia, ond nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn dreth gan eu bod yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir yn y maes awyr.
- 3.46 Oherwydd problemau dod o hyd i ddata ar gyfer 2019, mae'r cyfraddau treth a adroddir yn Nhabl 15 yn ymwneud â 2022.

Tabl 15: Cyfraddau treth ymadael teithwyr awyr yn 2022

Gwlad	Cyfradd dreth	Cyfwerth yn fras â GBP	Nodiadau
Ffrainc	€14.66 to €80.10 o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) / Y Swistir, €23.20 i €126.56 i fannau eraill	£12.67 i £69.22 £20.05 i £109.37	Mae'r cyfraddau a adroddir yn gyfuniad o Dreth Undod, Treth Eco, Treth Hedfan Sifil, Treth Maes Awyr a Threth Sŵn. Maent yn dibynnu ar gyrchfan, maes awyr ymadael, dosbarth teithio ac awyrennau.
Yr Iseldiroedd	€7.95	£6.87	Cyflwynwyd treth hedfan yn yr Iseldiroedd ar 1 Ionawr 2021. Mae'r gyfradd dreth gyfredol

Gwlad	Cyfradd dreth	Cyfwertth yn fras â GBP	Nodiadau
			fesul teithiwr y codir tâl amdano, waeth beth yw cyrchfan derfynol y teithiwr.
Norwy	NOK 80 o fewn Ewrop NOK 214 y tu hwnt i Ewrop	£6.93 £18.55	Wedi'i gyflwyno gyntaf ym mis Mehefin 2016, cafodd ei atal yn ystod y pandemig Covid ond fe'i hailgyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2022.
Sweden	SEK 64 o fewn Europe SEK 265 pellter hir SEK 424 pellter hir iawn	£5.16 £21.35 £34.16	Cyflwynwyd gyntaf ym mis Ebrill 2018.
Y Deyrnas Gyfunol	£13 i £554	£13 i £554	Yn dibynnu ar yr awyren a phellter hedfan. Datganolwyd Treth Ymadael Awyr i'r Alban yn 2017 ond bu oedi cyn gweithredu unrhyw newidiadau i Doll Teithwyr Awyr y DG. Mae'r gyfradd uchaf yn daladwy ar hediadau pellter hirach ar gyfer teithio mewn awyrennau o 20 tonnau neu fwy â chyfarpar i gludo llai na 19 o deithwyr.

Mae'r cyfraddau a adroddwyd yn gyfredol, oherwydd diffyg data yn ymwneud â 2019.

Ffynhonnell: FCC Aviation

Trethi eraill ar dwristiaeth

- 3.47 Mae PWC (2017) yn nodi y gellir codi trethi a weinyddir yn lleol yn Ffrainc ar refeniw gweithredwyr lifft sgïo, a bod treth yn cael ei chodi ar gyrchu *pistes ski du fond*.
- 3.48 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dreth arall sy'n targedu'r sector twristiaeth yn benodol mewn unrhyw un o'r deg gwlad a ystyrir yn yr adroddiad hwn.


4. Manylion y systemau treth yn y pum cymharydd agos

- 4.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y pum gwlad gymharol agos a ddewiswyd - Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden. Mae'r data a'r wybodaeth sydd yn yr adran hon wedi'u cymryd o sawl ffynhonnell wahanol. Roedd hyn yn caniatáu cwmmpas ehangach ac yn cynnig triongli'r data i sicrhau cywirdeb cymaint â phosibl. Roedd ffynonellau'n cynnwys yr OECD, PWC, KPMG, Deloitte, EY a'r Comisiwn Ewropeaidd. Ceir rhagor o fanylion am y ffynonellau hyn yn Atodiad C.
- 4.2 2019 yw'r flwyddyn sylfaen ar gyfer y dadansoddiad yn yr adran hon, o ystyried yr ymyriadau cyllidol dros dro niferus a ddaeth gyda'r pandemig Covid. Mae'n arferol i drothwyon a lwfansau y deddfir ar eu cyfer mewn termau enwol gael eu diweddarau'n flynyddol, yn rhannol i adlewyrchu chwyddiant. Ni adroddir ar newidiadau anarferol ond lle mae newidiadau yn arwyddocaol mewn termau enwol a real, nodir y rhain.
- 4.3 Wrth gasglu a chyflwyno'r data a'r wybodaeth a ddangosir yn yr adran hon, gwnaed nifer o ragdybiaethau oherwydd natur gymhleth treth incwm personol (PIT) a chyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC) ym mhob gwlad. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rhwymedigaethau PIT a SCC ym mhob gwlad yn aml yn cael eu pennu yn ôl statws priodasol trethdalwyr, oedran, strwythur y cartref, lefelau incwm a threuliau trethadwy yr eir iddynt, yn dibynnu ar y wlad a ddewiswyd. Mae rhestr o'r rhagdybiaethau i'w gweld yn Atodiad D.
- 4.4 Mae'r adran hon yn dechrau gyda throsolwg o strwythur treth y gwledydd cymharol agos a ddewiswyd. Mae'r data hwn yn dadansoddi strwythur treth pob gwlad yn ôl lefel y llywodraeth (llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, cronfeydd nawdd cymdeithasol a sefydliadau'r UE), fel canran o gyfanswm trethiant, yn 2019. Yna mae'n cyflwyno dadansoddiad o wybodaeth ynglŷn â threthi a thwristiaeth ar gyfer pob gwlad mewn adrannau ar wahân. Mae pob adran (penodol i'r wlad) yn dechrau gyda chyflwyniad data ystadegol manwl a thrafodaeth fer ar strwythur treth y wlad sy'n dangos y math o sylfaen drethu (e.e., TAW, treth incwm personol, treth incwm corfforaethol, cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr a chartrefi) sy'n sail i'w refeniw treth, fel canran o CDG, yn 2019. Yna ceir trafodaeth i ddisgrifio cyfraddau treth, eithriadau, rhyddhadau a threthi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth pob gwlad.

Strwythur treth yn ôl lefel y llywodraeth

- 4.5 Mae Ffigur 9 yn dangos y gyfran o gyfanswm y refeniw a gesglir gan wahanol lefelau o lywodraeth ym mhob un o'r gwledydd cymharol agos yn 2019, h.y., llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, cronfeydd nawdd cymdeithasol a sefydliadau'r UE. Yn 2019, gellir gweld bod y gyfran fwyaf wedi'i hawlio gan y llywodraeth ganolog, ac eithrio yn Ffrainc lle hawliodd y gronfa nawdd cymdeithasol fwy o'i refeniw treth. Hawliodd cronfa nawdd cymdeithasol yr Iseldiroedd fwy o refeniw treth o'i gymharu â'r gwledydd cymharol agos eraill, ac eithrio Ffrainc.
- 4.6 Sylwer, ers hynny mae pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar y gyfran o refeniw treth rhwng lefelau llywodraeth yn y rhan fwyaf o wledydd yr UE (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2022). Mae data 2020 yn dangos bod cyfraniadau nawdd cymdeithasol wedi cynyddu yn y flwyddyn honno, gan ei gwneud yn 'dreth' fwy gwydn o gymharu â threthi (an)uniongyrchol. Mae hyn yn golygu ei fod yn cael effaith ar y gyfran o refeniw a hawlir gan gronfeydd nawdd cymdeithasol yn 2020, a gynyddodd 0.9% ar gyfartaledd yng nghyfanswm refeniw treth yr UE.
- 4.7 Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth drin y data a ddangosir yn Ffigur 9. Er enghraifft, mae'r symiau a hawlir gan sefydliadau'r UE yn cael eu siapio gan leoliad daearyddol a seilwaith (e.e., porthladdoedd). Mae'r ffordd y trefnir systemau treth mewn gwahanol wledydd hefyd yn dylanwadu ar y gyfran o refeniw treth, e.e., mae Denmarc yn ariannu'r rhan fwyaf o'i nawdd cymdeithasol trwy drethiant cyffredinol, gan awgrymu bod trosglwyddiadau rhynglywodraethol o drethiant cyffredinol i gronfeydd nawdd cymdeithasol yn digwydd. Felly nid yw cyfran y refeniw treth yn fesur perffaith gan y gallai fod gan lywodraeth ganolog mewn rhai gwledydd rwymedigaethau i dalu neu hawliau i dderbyn trosglwyddiadau gan lywodraethau lefel is (e.e., llywodraeth leol).

Ffigur 9: Strwythur treth yn ôl lefel y llywodraeth




Nodiadau: Mae Eurostat a'r OECD yn categoreiddio Llywodraeth y DG a Chymru ill dwy fel llywodraeth ganolog. Mae SSCau yn Ffrainc, yr Iseldiroedd ac, i ryw raddau, yn Sweden yn ariannu cronfeydd yswiriant cymdeithasol penodol sydd yn eu tro yn talu am bensiynau a buddion eraill. Yn Norwy a'r DG, nid yw SSCau wedi'u neilltuo yn y modd hwn ac maent yn ychwanegu at refferiw o drethiant cyffredinol.

Strwythur treth manwl yn ôl y math o dreth

- 4.8 Nid yw cymysgedd y DG o drethi yn eithriadol o'i gymharu â'r cymaryddion agos, fel sy'n amlwg yn Ffigur 10.
- 4.9 Y nodwedd fwyaf nodedig yw bod 'trethi uniongyrchol eraill' yn uwch yn y DG nag yn unrhyw un o'r awdurdodaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys treth enillion cyfalaf, treth etifeddiant ac, yn fwyaf arwyddocaol, trethi eiddo rheolaidd. Roedd trethi eiddo rheolaidd yn y DG (Treth y Cyngor ac ardrethi annomestig) yn cyfrif am 3.1% o CDG yn 2019, o gymharu â 2.4% yn Ffrainc, 1.3% yn Nenmarc a llai nag 1% yn y tair gwlad arall (ffynhonnell: ystadegau refferiw OECD).
- 4.10 Mae trethi ar gynhyrchion, ac eithrio TAW a thollau mewnforio, hefyd yn gymharol uchel yn y DU.

4.11 Mae trethi incwm corfforaethol yn gymharol isel yn y DG o gymharu â'r gwledydd hyn.


Ffigur 10: Strwythur treth manwl yn ôl y math o dreth



Strwythur treth manwl yn ôl sylfaen

4.12 Nodwedd amlycaf sylfaen drethi'r DG, o gymharu â'r grŵp hwn o wledydd, yw'r ddibyniaeth gymharol isel ar drethi ar lafur. Mae trethi ar lafur yn cyfrif am rhwng 47% a 58% o refeniw yn y pum economi gymharol, ond dim ond 38% yn y DG, fel y gwelir yn Ffigur 11.

Ffigur 11: Strwythur treth manwl yn ôl sylfaen drethu



D.S. Mae cyfanswm trethi yn yr Iseldiroedd wedi'i orddatgan gan 0.3% o'r CDG gan fod "trethi ar gyfalaf – incwm aelwydydd" yn negyddol yn 2019 ac nid yw'n cael ei bortreadu yn y graff hwn.

Denmarc – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.13 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog :

Mae pob unigolyn sy'n gweithio yn talu Cyfraniad y Farchnad Lafur ar gyfradd o 8% ar eu cyflog gros o'r gwaith cyn tynnu unrhyw lwfansau.

Lefel incwm personol (DKK)	Cyfradd (%)
0-513,400	12.16
513,401+	15

4.14 Cyfraddau treth incwm lleol :

Mae trethi cyfradd unffurf lleol yn cael eu codi ar incwm trethadwy ar gyfraddau gwahanol ar draws gwahanol fwrdeistrefi. Y gyfradd dreth leol gyfartalog yn 2019 oedd 24.93%, yn ôl yr OECD. Roedd y cyfraddau'n amrywio o 22.5% i 27.8%.

4.15 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Mewn cyferbyniad â sawl gwlad Ewropeaidd mae system les Denmarc, gan gynnwys y system SSC, yn cael ei hariannu'n bennaf o drethi, a dim ond rhan fach sy'n dod o SSC. Cyflogwyr sy'n talu SSC yn bennaf, tra bod gweithwyr yn talu elfen fach yn unig. Newidiodd y systemau treth a thaliadau SSC yn sylweddol yn 2008, pan gafodd cyfraniad y farchnad lafur (a godwyd ar gyfradd o 8 y cant ar gyflog gros) ei ailddiffinio o fod yn SSC i fod yn dreth incwm (Tepperová, J., 2019). Ariennir system SSC yn Nenmarc yn gyffredinol drwy refeniw treth arferol.

O gymharu â rhai gwledydd Ewropeaidd eraill, cyfyngedig iawn yw'r SSC sydd gan Ddenmarc ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr. Mae cyflogeion a chyflogwyr fel ei gilydd yn atebol i dalu SSC tuag at bensiwn atodol ('ATP') sy'n swm blynyddol sefydlog o 3,408 DKK (284 DKK y mis). Telir traean o hwn gan y gweithiwr, 1,135.80 DKK (94.65 DKK y mis), a thelir y ddwy ran o dair arall gan y cyflogwr, 2,272.20 DKK (189.35 DKK y mis). Yn ogystal ag ATP, mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniadau tuag at AER, AES, cyfraniadau mamolaeth a chyllid, ac yn cymryd polisïau yswiriant ar gyfer yswiriant damweiniau gweithwyr ac ati. Fodd bynnag, mae cyfraniadau tuag at y cynlluniau hyn yn dibynnu ar nifer y gweithwyr, oriau gwaith, math o ddiwydiant, ac ati. Yn ôl Deloitte (2019), mae costau'r cyflogwr ar gyfer y cyfraniadau hyn ac ystod yswiriant ar gyfartaledd rhwng 10,000 a 12,000 DKK y flwyddyn, fesul cyflogai.

Mae cyflogeion yn gwneud cyfraniad blynyddol ar gyfer yswiriant diweithdra o DKK 11,899. Rhennir y cyfraniad yn ddwy ran: cyfraniad DKK 4,260 ar gyfer yswiriant

diweithdra a chyfraniad gwirfoddol DKK 6,096 i gynllun ymddeoliad cynnar. Yn ogystal, gosodir ffi weinyddol o DKK 1,543 hefyd. Nid yw cyfraniadau tuag at gronfeydd diweithdra yn orfodol.

4.16 Didyniadau / credydau / lwfansau treth:

Mae enillwyr cyflog yn cael rhyddhad treth ar gyfraniadau yswiriant diweithdra, wedi'u didynnu o incwm trethadwy.

Caniateir didyniadau treth ar gyfer taliadau pensiwn ar gyfradd o 12% ar gyfer unigolion sydd â mwy na 15 mlynedd o gyflogaeth nes iddynt gyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth a 32% os oes ganddynt 15 mlynedd neu lai (hyd at uchafswm didyniad o DKK 70,000).

Mae treuliau cysylltiedig â gwaith yn gwbl ddidynadwy (e.e., costau trafndiaeth, ffi aelodaeth undeb llafur).

Mae unigolion sy'n gweithio yn derbyn credyd treth o 10.1% o'r incwm a enillir hyd at uchafswm o DKK 37,200 wrth gyfrifo incwm trethadwy. Mae unigolion sy'n gweithio, sy'n ennill incwm o DKK 191,700 o leiaf, hefyd yn derbyn lwfans swydd ar gyfradd o 3.75% o incwm trethadwy (hyd at uchafswm lwfans o DKK 2,100).

4.17 Lwfans personol:

Mae unigolion yn cael lwfans personol, ond caiff hwn ei drin fel credyd treth y gellir ei wastraffu. Ar gyfer unigolion sy'n 18 oed neu'n hŷn, mae'r cyfraddau fel a ganlyn:

Treth incwm y llywodraeth ganolog	12.16% o DKK 46,200 (=DKK 5,620)
Treth incwm drefol	24.93% o DKK 46,200 (=DKK 11,520)

4.18 Newidiadau oherwydd Covid-19:

Rhoddodd Denmarc rai mesurau ar waith oherwydd pandemig Covid-19, roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â'r dull o nodi pwy sydd a phwy nad yw'n breswlydd treth yn Nenmarc, i sicrhau nad yw arosiadau estynedig yn Nenmarc neu'r tu allan iddi yn cael effaith sylweddol ar dreth. At ddibenion yr adroddiad hwn, rhagdybir bod unigolyn yn breswlydd treth ym mhob un o'r gwledydd a adolygwyd, ac felly nid yw'r newidiadau dros dro hyn ar gyfer Denmarc wedi'u hystyried.

Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Nenmarc

4.19 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

Mae Denmarc yn codi TAW ar gyfradd o 25% ar weithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac eithrio peth cludiant teithwyr, yn benodol tacsis, bysiau, trenau a chludiant awyr. Dim ond cludiant teithwyr ar fysiau twristiaeth sy'n destun TAW.

Ffrainc – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.20 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog:

Mae'r cyfraddau fel a ganlyn:

Lefel incwm (dosbarth treth) y flwyddyn (Ewros)	Cyfradd treth incwm (%)
0 – 10,064	0
10,065-27,794	14
27,795-74,517	30
74,518-157,806	41
157,807 +	45

Sylwer y rhoddir ad-daliad treth arbennig i unigolion sydd ag atebolrwydd treth isel ac fe'i cymhwysir i swm y dreth a gyfrifwyd, gan ddefnyddio'r cyfraddau yn y tabl uchod cyn unrhyw ostyngiadau a chredydau treth. Rhoddir hwn i aelwydydd y mae eu treth yn llai na €1,611 (aelwydydd sengl). Mae'r ad-daliad treth yn 75% o'r gwahaniaeth rhwng y trothwy o €1,611 a swm y dreth cyn i'r ad-daliad gael ei gymhwyso.

Yn ogystal, ar gyfer y flwyddyn 2019, mae gostyngiad treth arbennig yn cael ei gymhwyso i aelwydydd ag incwm o lai na €19,175. Mae'r gostyngiad treth arbennig yn seiliedig ar gyfradd o 20% o'r rhwymedigaeth dreth. Mae'n gostwng yn raddol i sero pan fydd incwm y cartref yn cyrraedd €21,247.

Codir cyfraniad ychwanegol ar enillwyr incwm uchel, fel a ganlyn :

Lefel incwm trethadwy y flwyddyn (Ewros)	Cyfradd (%)
250,000-500,000	3
500,001 +	4

4.21 Cyfraddau treth lleol:

Mae trethi lleol yn cael eu gosod ar aelwydydd sy'n gweithio. Maent yn cynnwys:

- treth preswyllo (taxe d'habitation) a godir gan awdurdodau lleol
- trethi eiddo ar dir

Mae'r cyfraddau a'r rheolau yn amrywio ar draws gwahanol fwrdeistrefi.

4.22 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Mae'r rheolau ar gyfer cyfraniadau nawdd cymdeithasol yn gymhleth yn Ffrainc.

Mae Ffrainc yn codi cyfraniad cymdeithasol cyffredinol (*contribution sociale généralisée* [CSG]), sy'n daladwy gan unigolion, ar gyfradd o 9.2%, yn seiliedig ar

enillion. Fel y nodir isod, mae CSG yn ddidynadwy yn erbyn incwm trethadwy ar gyfradd is o 6.8%.

Mae Ffrainc hefyd yn codi cyfraniad at ad-dalu dyled gymdeithasol (*contribution au remboursement de la dette sociale* [CRDS]), sy'n daladwy gan unigolion, ar gyfradd o 0.5%. Fel y nodir isod, nid yw'r cyfraniad hwn yn ddidynadwy o incwm trethadwy.

Mae Ffrainc hefyd yn codi cyfraniadau nawdd cymdeithasol gorfodol, fel a ganlyn (mae'r rhain yn annibynnol ar CSG a CRDS):

Math o gyfraniad	Dosbarth incwm y flwyddyn (Euros)	Cyfradd (%)
Cyfraniadau cyflogai:		
Pensiwn	0-40,524	6.9
	Cyfanswm enillion	0.4
Salwch, beichiogrwydd, anabledd, marwolaeth	Ar gyfanswm enillion	0
Pensiwn atodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn rheolwyr, a rheolwyr	0-40,524	3.15
	Rhwng un ac wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	8.64
Contribution d'Equilibre General (CEG) ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn rheolwyr, a rheolwyr	0-40,524	0.86
	Rhwng un ac wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	1.08
Contribution d'Equilibre Technique (CET) ar gyfer cyflogeion y mae eu henillion yn fwy na'r terfyn uchaf o €40,524 un waith	Ar gyfanswm enillion, hyd at wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	0.14
Cyfraniadau cyflogwr:		
Pensiynau	0-40,524	8.55
	Ar gyfanswm cyflog	1.90
Salwch, beichiogrwydd, anabledd, marwolaeth	Ar gyfanswm enillion	13
Contribution de Solidarité Autonomie (CSA)	Ar gyfanswm cyflog	0.3
Diweithdra	Hyd at bedair gwaith y terfyn uchaf o €40,524	4.05
Cronfa Gwarant Cyflog (AGS)	Hyd at bedair gwaith y terfyn uchaf o €40,524	0.15
Damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith	Mae'r cyfraddau'n amrywio yn dibynnu ar y math o fusnes.	2.22 (cyfradd gyfartalog, yn ôl OECD)

Lwfansau teulu	Ar gyfanswm cyflog	5.25
Pensiwn atodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn rheolwyr, a rheolwyr	0-40,524 Rhwyng un ac wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	4.72 12.95
Contribution d'Equilibre General (CEG) ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn rheolwyr, a rheolwyr	0-40,524 Rhwyng un ac wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	1.29 1.62
Contribution d'Equilibre Technique (CET) ar gyfer gweithwyr y mae eu henillion yn fwy na'r terfyn uchaf o €40,524 un waith	Ar gyfanswm enillion, hyd at wyth gwaith y terfyn uchaf o €40,524	0.21

Ers 1993, mae Ffrainc wedi gweithredu gostyngiad mewn cyfraniadau yswiriant cymdeithasol a delir gan gyflogwyr. Mae'n lleihau'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol a delir ar yr isafswm cyflog. Ers 1 Hydref 2019, y gostyngiad mwyaf yw 32.54% ar gyfer cwmnïau sydd â mwy nag 20 o weithwyr. Mae cwmnïau eraill yn mwynhau gostyngiad uchaf o 32.14% o 1 Hydref 2019.

Yn ogystal, mae Ffrainc wedi gweithredu gostyngiad cyfrannol ar gyfer rhai cyfraniadau cyflogwyr. Mae hyn yn cynnwys eithrio holl gyfraniadau cyflogwr ar yr isafswm cyflog (nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau diweithdra). Mae hyn hefyd yn caniatáu gostyngiad o 1.8 pwynt canran ar gyfraniadau cyflogwr ar gyfer lwfans teulu ar gyfer cyflog blynyddol gros o dan 3.5 gwaith yr isafswm cyflog blynyddol gros. Yr isafswm cyflog blynyddol gros (yn seiliedig ar 1,820 awr) yw €18,255 yn 2019, yn ôl OECD.

Ar gyfer yr hunan-gyflogedig, mae'r cyfraddau'n dibynnu ar statws treth y busnes a'r math o fasnach. Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 12% a 23%. Mae busnes sy'n seiliedig ar wasanaeth, sy'n masnachu fel 'microfenter', yn talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol ar gyfradd o 22% o'r trosiant (Expatica.com; Frenchproperty.com).

4.23 Didyniadau / credydau / lwfansau treth:

Gostyngir incwm trethadwy gan ddidyniadau gorfodol cyflogres y cyflogwr a'r cyflogai, ac eithrio gwerth 2.4% o *contribution sociale généralisée* (CSG) a *contribution pour le remboursement de la dette sociale* (CRDS) ar gyfradd o 0.5%. Nid yw'r rhain yn ddidynadwy o'r sylfaen treth incwm.

Ar gyfer yr hunan-gyflogedig, mae'r rhan fwyaf o SSCau yn ddidynadwy o'r sylfaen treth incwm (French-property.com 2022, Frenchentree.com 2022).

Caniateir didyniadau ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â gwaith (yn seiliedig ar gostau gwirioneddol neu lwfans o 10% o dâl net): lleiafswm o €441 ac uchafswm o €12,627.

Yn 2019, gall unigolyn sydd ag incwm aelwyd o lai na €19,175 hawlio gostyngiad treth arbennig ar gyfradd o 20% o'r rhwymedigaeth dreth. Mae'r gostyngiad treth yn gostwng yn raddol i sero pan fydd yr incwm aelwyd yn cyrraedd €21,247.

4.24 Lwfans personol:

Nid oes lwfans personol; yn hytrach darperir dosbarth treth o 0% (gweler cyfraddau treth incwm uchod).

4.25 Newidiadau oherwydd Covid-19:

Gweithredodd Ffrainc sawl newid i'r system dreth yn ystod y pandemig, gyda llawer o hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod clo (Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin 2020 ac eto ym mis Medi i fis Rhagfyr 2020). Er enghraifft, roedd gohiriad neu eithriad rhag talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwr ar gyfer rhai busnesau a diwydiannau penodol (gan gynnwys twristiaeth a lletygarwch); lwfansau ychwanegol i weithwyr ac eithriad rhag cyfraniadau nawdd cymdeithasol penodol a delir gan weithwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r cymorth hwn wedi dod i ben neu wedi lleihau'n sylweddol erbyn diwedd 2021. Gan mai mesurau dros dro yw'r rhain, nid ydynt wedi'u hystyried at ddibenion yr adroddiad hwn.

Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Ffrainc

4.26 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

Er bod Ffrainc yn codi cyfradd TAW safonol o 20%, mae'n gosod cyfraddau TAW gostyngol ar rai gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Yn benodol, codir cyfradd TAW o 10% ar gludiant teithwyr, llety gwesty (fel y nodir yn Nhabl 13) a gwasanaethau bwyta ac arlwy (er bod y gyfradd safonol yn berthnasol i ddiodydd alcoholig). Y gyfradd TAW ar fynediad i'r sinema yw 5.50%. Gosodwyd y gyfradd TAW ar gyfer mynediad i barciau difyrion ar 10% yn 2019 ond fe'i cynyddwyd i'r gyfradd safonol o 20% erbyn 2022.

4.27 Mae treth dwristiaeth Ffrainc, *taxe de séjour*, yn berthnasol i ddarparu llety dros nos. Mae cyfradd y dreth yn cael ei phennu gan, a'i gweinyddu gan, awdurdodau communes neu gyrff rhyng-gymunedol (mae'r rhain yn debyg i gynghorau plwyf yn Lloegr [Collard, 2020] ac felly, yng Nghymru, yn debyg i gynghorau cymuned a chynghorau tref). Dywedwyd, o 1 Ionawr 2021, bod treth dwristiaeth ar waith mewn 83% o gymunedau Ffrainc (Brent, 2022).

4.28 Mae'r dreth dwristiaeth fwyaf cyffredin, sef y *taxe au réel*, yn cael ei thalu gan bobl ar wyliau ac sy'n aros mewn tai llety, gwestai, meysydd gweryllia ac ati. Telir y ffi i'r

darparwr llety fel rhan eitemedig o fil y twristiaid, gyda'r arian wedyn yn cael ei drosglwyddo, ar ddyddiadau penodol, gan ddarparwyr llety i awdurdodau lleol. Mae'r dreth arall llai cyffredin, sef y *taxe au forfait*, yn cael ei thalu gan westeiwyr, perchnogion gwestai neu landlordiaid sy'n codi ffi am westeion yn aros yn eu llety yn uniongyrchol i awdurdodau lleol. Nid yw hyn yn gyffredin a dim ond mewn 3% o gymunedau y mae wedi'i sefydlu'n llawn (Brent, 2022). Mae *taxe de séjour, au réel* yn cael ei dalu gan bobl ar eu gwyliau os yw wedi'i weithredu yn y commune neu'r ardal lle maent yn aros. Mae'n berthnasol i arosiadau mewn amrywiaeth o gategoriâu llety: palasau; gwestai a lletyau rhent wedi'u dodrefnu; pentrefi gwyliau; gwely a brecwast, meysydd gwersylla; marinas a llety sy'n aros am ddosbarthiad (République Française). Cyfrifir y gyfradd fesul person, y noson (mae rhai eithriadau, a restrir isod), ac mae'n amrywio rhwng €0.20 a €5.00 y noson, y pen rhwng gwahanol fwrdeistrefi. Er enghraifft, mae'r dreth dwristiaeth ym Mharis yn amrywio o €0.25 i €5 y noson, fesul person, yn dibynnu ar y categori llety (gweler Tabl 16).

4.29 Nid yw'r *taxe de séjour au réel* yn berthnasol i:

- Plant (dan 18)
- Pobl mewn llety brys neu dai dros dro
- Pobl sy'n aros mewn llety lle mae'r gost yn llai na'r isafswm a bennir gan yr awdurdod lleol
- Gweithwyr tymhorol a gyflogir yn yr ardal

4.30 Yn unol â hynny, mae twristiaid yn Ffrainc yn agored i dreth dwristiaeth os ydynt yn aros mewn llety gwyliau. Rhaid i'r darparwr llety wneud swm y dreth dwristiaeth yn glir. Nid oes TAW ar *taxe de séjour* yn yr achos hwn gan ei fod yn cael ei drin fel rhan ar wahân o'r bil. Dylid nodi nad yw *taxe de séjour* yn cael ei gymhwyso trwy gydol y flwyddyn ym mhob cymuned. Mae hyn oherwydd y bydd yr awdurdod lleol yn pennu cyfnod o amser y mae ar waith. Mae gan dreth dwristiaeth Ffrainc nod penodol o helpu i ariannu costau awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys cynnal a chadw eiddo cyhoeddus, diogelu mannau gwyrdd a datblygu cynigion twristaidd.

- 4.31 Rhaid i berchnogion llety twristiaid ddatgan i awdurdodau lleol faint o lety sydd ar gael a'r dyddiadau y maent yn bwriadu bod ar agor o leiaf fis cyn dechrau'r cyfnod *taxe de séjour*. Gellir gwneud taliadau treth unwaith, neu sawl gwaith y flwyddyn, yn dibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol. Mae'r gwestai yn talu'r dreth a ddangosir ar y bil.

Tabl 16: Cyfraddau *taxe de séjour au réel* ym Mharis, Haf 2022

CATEGORïAU LLETY	CYFRADDAU NET Y PERSON, Y NOS
Palasau	€5
Gwestai ac apart-hotels, lletyau rhent wedi'u dodrefnu: 5 seren.	€3.75
Gwestai ac apart-hotels, lletyau rhent wedi'u dodrefnu: 4 seren.	€2.88
Gwestai ac apart-hotels, lletyau rhent wedi'u dodrefnu: 3 seren.	€1.88
Gwestai ac apart-hotels, lletyau rhent wedi'u dodrefnu: 2 seren. Pentrefi gwyliau: 4 a 5 seren.	€1.13
Gwestai ac apart-hotels, lletyau rhent wedi'u dodrefnu: 1 star. Pentrefi gwyliau: 1, 2 a 3 seren. Gwely a Brecwast. Hosteli ieuenctid.	€1
Meysydd gwersylla: 3, 4 a 5 seren. Llain ar feysydd gwersylla-cerbyd a mannau parcio i dwristiaid bob cyfnod o 24 awr.	€0.75
Meysydd gwersylla: 1 a 2 seren. Marinas.	€0.25
Llety sy'n aros am ddosbarthiad neu heb ddosbarthiad.	Trethiant cyfrannol 5% o gost y noson heb gynnwys treth gyda therfyn uchaf o 5 €.

Ffynhonnell: Paris Convention and Visitors' Bureau

- 4.32 Mae cyfradd dreth *au forfait* yn anghyffredin (mae'n cael ei godi gan lai na 2.5% o communes). Nid yw'n seiliedig ar faint o nosweithiau y mae gwesteion sy'n talu wedi aros yn y llety, yn hytrach mae ei gyfrifiad yn seiliedig ar gynhwysedd y llety (h.y., uchafswm nifer y bobl sy'n gallu aros ar un adeg) a'r cyfnod o amser y mae *ar gael* i bobl aros. Ni ddangosir y dreth ar y bil: telir y dreth gan y gweithredwr. (French property.com. 2016).

Yr Iseldiroedd – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.33 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog :

Mae cyfraddau treth personol ar incwm o waith fel a ganlyn :

Lefel incwm trethadwy (Ewros)	Cyfradd (%)
0-20,384	9.00
20,385-34,300	10.45
34,301-68,507	38.10
68,508+	51.75

Ers 2019, mae'r ddau fand isaf wedi'u huno yn un band gyda chyfradd o 9.45%.

4.34 Nid oes unrhyw drethi incwm lleol.

4.35 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Mae'r Iseldiroedd yn gosod cyfraniad nawdd cymdeithasol cyffredinol ar gyfradd o 27.65% ar incwm trethadwy rhwng €0 a €34,300 a delir gan gyfloggeion. Nid yw SSC cyffredinol yn ddidynadwy at ddibenion treth incwm.

Mae cyflogwyr yn talu cyfraniadau fel a ganlyn:

Math o gynllun	Enillion gros (Ewros)	Cyfradd (%)
Diweithdra	0-55,927	3.60
Cronfa taliadau diswyddo cymdeithas yswiriant diwydiannol	0-55,927	0.77
Anabledd	0-55,927	8.20
Gofal meddygol	0-55,927 (yn seiliedig ar enillion gros net o bremiymau pensiwn gweithwyr a chyfraniadau nawdd cymdeithasol diweithdra)	6.95

4.36 Didyniadau / credydau / lwfansau treth:

Rhoddir credyd treth cyffredinol (na ellir ei ad-dalu) o €2,477 i unigolion lle mae incwm trethadwy yn is neu'n hafal i €20,384. Mae hyn yn cael ei leihau'n raddol wrth i incwm gynyddu. Nid yw incwm dros €68,507 yn derbyn unrhyw gredyd treth cyffredinol.

Darperir credyd gwaith (na ellir ei ad-dalu) ac mae'n dibynnu ar lefel yr incwm a enillir o waith. Pennir credyd gwaith fel a ganlyn (cymhwysir y gyfradd i incwm trethadwy o waith):

Lefel yr incwm trethadwy o waith (Ewros)	Swm a Chyfradd
0-9,694	1.754%
9,695-20,940	€170 ynghyd â 28.712% ar incwm sy'n fwy na €9,694
20,941-34,060	Cyrhaeddir uchafswm o €3,399.

Pe bai incwm trethadwy yn fwy na €34,060, caiff y credyd gwaith ei ddileu'n raddol ar gyfradd o 6% fesul Ewro. Mae hyn yn golygu na dderbynnir credyd gwaith ar gyfer incwm dros €90,710.

4.37 Nid oes lwfans personol. Yn ei le, darperir credyd treth (gweler y manylion uchod).

4.38 Newidiadau oherwydd Covid-19:

Cyflwynodd yr Iseldiroedd fesurau yn ystod y pandemig ond heb newid sylweddol mewn trethiant llafur gweithwyr. Elwodd cyflogwyr a'r hunangyflogedig gan ohirio rhai taliadau treth. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn yn cael eu hystyried yn rhai dros dro. Felly, nid ydynt wedi cael eu hystyried yn bellach yn yr adroddiad hwn.

Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr Iseldiroedd

4.39 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

Er bod yr Iseldiroedd yn codi cyfradd TAW safonol o 21%, mae'n gosod cyfraddau TAW gostyngol ar rai gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Yn benodol, codir cyfradd TAW o 9% ar fynediad i sinema a pharc difyrion, llety gwesty (fel y nodir yn Nhabl 13) a gwasanaethau bwyta ac arlwygo (er bod y gyfradd safonol yn berthnasol i ddiodydd alcoholig). Mae'r gyfradd TAW ar gludiant teithwyr yn dibynnu ar y dull teithio. Er enghraifft, mae trafndiaeth awyr domestig, trafndiaeth rheilffyrdd a ffyrdd a thrafnidiaeth awyr rhyngwladol yn destun 21%, 9% a 0% TAW yn y drefn honno.

4.40 Mae treth dwristiaeth yr Iseldiroedd, *toeristenbelasting*, yn berthnasol i ddarparu llety i westeion o'r tu allan i'r fwrdeistref. Mae cyfradd y dreth yn cael ei phennu gan y bwrdeistrefi a'i gweinyddu ganddynt. (Does dim bwrdeistref Iseldiraidd y gellir ei chymharu'n uniongyrchol â llywodraeth leol Cymru, na llywodraeth leol y DG. Yn yr Iseldiroedd islaw'r llywodraeth ganolog mae 12 talaith ac yna 352 o fwrdeistrefi gyda

chyfrifoldebau a phwerau datganoledig). Adroddwyd yn 2021 bod 304 o'r 352 bwrdeistref wedi gweithredu treth dwristiaeth (NL Times, 2021).

- 4.41 Y prif fath o dreth dwristiaeth yw treth dwristiaeth tir yn seiliedig ar lety dros nos - mae treth dwristiaeth dŵr hefyd ar gyfer llety ar fwrdd cychod. (Business.gov.nl 2021). Mae'r ddwy dreth yn cael eu gosod gan yr awdurdod trefol, ac mae'r cyfraddau'n amrywio o un fwrdeistref i'r llall. Fel arfer cyfrifir treth twristiaeth tir fesul noson, tra bod treth dwristiaeth dŵr yn cael ei chyfrifo fesul cyfnod o 24 awr.
- 4.42 Mae'r dreth twristiaeth tir nid yn unig yn berthnasol i westai, fflatiau a gwersylloedd, ond hefyd i unigolion preifat sy'n defnyddio eu cartrefi ar gyfer rhentu gwyliau neu wely a brecwast. Mae'r cyfraddau'n amrywio yn dibynnu ar y math o lety.
- 4.43 Er enghraifft, yn Amsterdam y cyfraddau yw:
- gwestai: 7% o gost llety a €3 y person y noson
 - safleoedd gwersylla: 7% o gost llety a €1 y person y noson .
 - lletyau rhent gwyliau, gwely a brecwast a lletyau arhosiad byr: 10% o gost llety heb gynnwys TAW a threth twristiaid. (Amsterdam.org 2022)
- 4.44 Mae eithriadau yn amrywio fesul bwrdeistref. Mae enghreifftiau yn cynnwys :
- pobl sy'n byw mewn ysbyty neu gartref gofal
 - plant
 - Cymudwyr rheolaidd i'r gwaith
 - Mae cychod llai na 4 metr wedi'u heithrio rhag treth dwristiaeth dwr.
- (Business.gov.nl, 2021; VNG, 2022)
- 4.45 Yn unol â hynny, gall twristiaid yn yr Iseldiroedd fod yn agored i dreth dwristiaeth os ydynt yn aros mewn llety gwyliau neu'n mynd ar gwch i ynys ar yr arfordir. Mae'r dreth hon wedi'i chynnwys ym mhrys y llety, neu ym mhrys y tocyn ar gyfer y daith cwch. Mae'r penderfyniad i godi treth twristiaid yn cael ei wneud ar lefel fwrdeistrefol ac fe'i hystyrir yn gyfraniad ariannol tuag at gostau gwasanaethau bwrdeistrefol oherwydd bod twristiaid hefyd yn elwa arnynt, megis cynnal a chadw ffyrdd, parciau, sgwariau a thraethau.
- 4.46 Mae'n rhaid i weithredwyr llety twristiaid dalu'r dreth dwristiaeth i'r awdurdodau bwrdeistrefol. Rhaid i weithredwyr ddatgan y dreth dwristiaeth bob blwyddyn i'r

awdurdodau bwrdeistrefol, a gall fod yn ofynnol iddynt gyflwyno dogfennau ategol gyda'r ffurflen, fel y gofrestr ymwelwyr. (Business.gov.nl, 2022).

Norwy – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.47 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog:

Mae dwy sail i'r gyfundrefn treth incwm: incwm personol ac incwm cyffredin. Mae incwm personol yn cyfeirio at incwm o lafur a phensiynau. Mae incwm cyffredin yn cynnwys incwm o lafur, pensiynau, busnes a chyfalaf. Nid oes unrhyw ddiidyniadau ar gael wrth gyfrifo treth incwm ar incwm personol, ond mae rhai diidyniadau ar gael wrth gyfrifo incwm cyffredin (gweler ymhellach isod).

Mae treth incwm ar incwm personol (incwm o lafur a phensiynau) fel a ganlyn:

Lefel incwm trethadwy (NOK)	Cyfradd (%)
0-174,500	0
174,501-245,650	1.9
245,651-617,500	4.2
617,501-964,800	13.2
964,801+	16.2

Y gyfradd treth incwm gyffredinol ar incwm cyffredin yw 22%, ac mae 7.85% o hyn yn cael ei ystyried yn dreth incwm llywodraeth ganolog.

4.48 Cyfraddau treth incwm lleol (yn seiliedig ar drethu incwm cyffredin):

Mae treth incwm llywodraeth leol yn 14.15% o gyfanswm y dreth incwm ar incwm cyffredin.

Cyfrifir treth ar incwm cyffredin ar ôl didynnu lwfans safonol o NOK 56,550.

Mae pob unigolyn yn cael lwfans sylfaenol wrth gyfrifo incwm cyffredin. Y lwfans sylfaenol yw 45% o incwm personol (lleiafswm o NOK 4,000 ac uchafswm o NOK 100,800). Gall enillwyr cyflog ddewis lwfans ar wahân o NOK 31,800 yn lle hawlio'r lwfans sylfaenol (ni fyddai rhywun ond yn gwneud hyn pe bai'r lwfans sylfaenol yn is).

Mae'r lwfansau canlynol ar gael wrth gyfrifo incwm cyffredin :

- Costau teithio sy'n ymwneud â gwaith
- Cyfraniadau pensiwn galwedigaethol
- Taliadau llog

4.49 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Yn gyffredinol, mae Norwy yn gosod cyfradd o 8.2% ar gyflogeion fel cyfraniadau cyflogeion i'r Cynllun Yswiriant Gwladol. Cymhwysir hyn ar incwm cyflog personol.

Nid yw gweithwyr yn gwneud cyfraniad os yw eu hincwm cyflog personol yn is na NOK 54,650.

Mae'r Hunangyflogedig yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 11.4% o incwm personol sy'n ymwneud â llafur uwchlaw'r trothwy incwm o NOK 54,650.

Mae'r gyfradd ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio yn ôl pob bwrdeistref. Mae'r cyfraddau'n amrywio o 0% i 14.1%. Yn ôl yr OECD, y gyfradd gyfartalog wedi'i phwysoli yw 13%.

- 4.50 Didyniadau / credydau / lwfansau treth: Gweler uchod am fanylion lwfansau / didyniadau ar gyfrif incwm arferol.
- 4.51 Nid oes lwfans personol ar gael i unigolyn sy'n ennill cyflog cyfartalog .
- 4.52 Newidiadau oherwydd Covid-19: Cyflwynodd Norwy fesurau yn ystod y pandemig i gefnogi trethdalwyr yn ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio taliadau rhai trethi a rhoi cymhorthdal i gyfraniadau nawdd cymdeithasol i rai cyflogwyr mewn rhai bwrdeistrefi. Fodd bynnag, mae mesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn rhai dros dro. Felly, nid ydynt wedi cael eu hystyried at ddibenion yr adroddiad hwn.

Trethi cysylltiedig â thwristiaeth yn Norwy

- 4.53 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:
Er bod Norwy yn codi cyfradd TAW safonol o 25%, mae'n gosod cyfradd TAW is o 12% ar rai gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth: cludiant teithwyr, mynediad i'r sinema a pharc difyrion, a llety gwesty (fel y nodir yn Nhabl 13). Mae'n gosod cyfradd TAW o 15% ar wasanaethau bwyta ac arlwyio (er bod diodydd alcoholaidd yn ddarostyngedig i'r gyfradd safonol).

Sweden – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.54 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog:

Pennwyd treth incwm yn 2019 fel a ganlyn:

Lefel incwm trethadwy (SEK)	Cyfradd (%)
0-490,700	0
490,701-689,300	20
689,301+	25

Mae'r gyfradd uwch wedi dod i ben ers 2019.

4.55 Cyfraddau treth incwm lleol (yn seiliedig ar drethu incwm cyffredin):

Mae treth incwm llywodraeth leol yn gyfrannol ac yn amrywio rhwng bwrdeistrefi. Mae'r cyfraddau'n amrywio rhwng 29.18% a 35.15%. Yn ôl yr OECD, y gyfradd gyfartalog yw 32.19% yn 2019.

4.56 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Mae gweithwyr a'r hunangyflogedig yn talu cyfraniad pensiwn cyffredinol ar gyfradd o 7% o'u hincwm personol pan fo incwm yn hafal i neu'n fwy na 42.3% o'r swm sylfaenol. Mae'r swm sylfaenol wedi'i osod ar SEK 46,500 yn 2019. Felly, y trothwy yw SEK 19,670 ac ar ôl hynny mae cyflogai a'r hunangyflogedig yn talu cyfraniad pensiwn cyffredinol. Mae'r cyfraniad wedi'i gapio ar SEK 36,400 (oherwydd bod yr incwm personol wedi'i gapio ar SEK 519,708 wrth bennu swm y cyfraniad).

Pennir cyfraniad pensiwn cyffredinol y cyflogwr gan ganran o gyfanswm y cyflogau a buddion yn y flwyddyn. Ar gyfer busnesau hunangyflogedig caiff hyn ei bennu gan eu hincwm busnes net. Pennir y ganran fel a ganlyn:

Cynllun	Cyflogwr (%)	Hunan-gyflogedig (%)
Pensiwn ymddeol	10.21	10.21
Pensiwn goroeswr	0.60	0.60
Yswiriant rhieni	2.60	2.60
Yswiriant iechyd	3.55	3.64
Y farchnad lafur	2.64	0.10
Iechyd galwedigaethol	0.20	0.20
Treth cyflog cyffredinol	11.62	11.62
Cyfanswm	31.42	28.97

Gall unigolion hunangyflogedig, y mae eu hincwm yn fwy na SEK 40,000, elwa o ostyngiad mewn cyfraniadau nawdd cymdeithasol ar gyfradd o 7.5% o'r cyfraniad nawdd cymdeithasol sy'n berthnasol. Uchafswm y gostyngiad yw SEK 15,000.

4.57 Didyniadau / credydau / lwfansau treth:

Darperir credyd treth ar gyfradd o 100% ar gyfraniadau nawdd cymdeithasol gorfodol a delir gan gyflogeion.

Gall unigolion 65 oed neu iau gael Credyd Treth Incwm a Enillir (EITC) blynyddol (na ellir ei ad-dalu) sy'n berthnasol i incwm llafur (mae'n cael ei ddileu'n raddol i'r rhai sy'n ennill SEK 600,000 neu fwy). Mae EITC yn cael ei dynnu o drethi lleol (tra bod y credyd treth ar gyfer cyfraniadau nawdd cymdeithasol gorfodol - gweler uchod - yn cael ei ddidynnu o drethi eraill hefyd). Yn debyg i'r lwfans sylfaenol (gweler isod), mae EITC yn gysylltiedig â'r swm sylfaenol (sef SEK 46,500 yn 2019), y lwfans sylfaenol a lefel yr incwm a enillir. Felly, mae'n cael ei bennu gan fformiwla. Gall EITC fod yn werth hyd at SEK 30,400 ar gyfartaledd (yn ôl yr OECD). Rhoddir rhyddhad treth ar gyfer rhai treuliau cysylltiedig â gwaith sy'n fwy na SEK 5,000.

Rhoddir rhyddhad treth hefyd ar gostau byw uwch wrth weithio oddi cartref.

4.58 Lwfans personol:

Mae lwfans sylfaenol ar gyfer unigolion sy'n talu treth llywodraeth leol yn cael ei gymhwyso i incwm a enillir ac mae'n dibynnu ar lefel yr incwm. Gall amrywio o SEK 13,700 i SEK 35,900. Mae'r lwfans sylfaenol wedi'i osod ar SEK 13,700 ar gyfer unigolion sydd ar gyflog cyfartalog (yn ôl yr OECD). Cyfrifir y lwfans sylfaenol drwy ddefnyddio ffigur incwm sylfaenol (SEK 46,500 yn 2019), ac yna caiff y lwfans ei addasu yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng yr incwm a enillwyd wedi'i asesu, a'r swm sylfaenol.

4.59 Newidiadau oherwydd Covid-19:

Rhoddodd Sweden fesurau ar waith hefyd i gefnogi trethdalwyr yn ariannol yn ystod y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiadau dros dro yng nghyfraniadau nawdd cymdeithasol cyflogwyr a gohirio rhai taliadau treth. Mae rhai o'r mesurau hyn yn dal yn eu lle ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Er enghraifft, o 1 Ionawr 2021, darperir credyd treth cyffredinol (na ellir ei ad-dalu) i unigolion sydd ag incwm trethadwy sy'n fwy na SEK 40,000. Mae'n 0.75% o'r incwm dros y swm penodedig, ac mae wedi'i gapio ar SEK 1,500. Hefyd, rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2023, mae cyflogwyr yn mwynhau gostyngiad dros dro yng nghyfraniadau pensiwn cyffredinol cyflogwyr ar gyfer gweithwyr sydd rhwng 18 a 23 oed (ar ddechrau'r flwyddyn). Fodd bynnag, gan fod mesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn rhai dros dro, nid ydynt wedi'u hystyried at ddibenion yr adroddiad hwn.

Trethi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Sweden

4.60 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

Er bod Sweden yn codi cyfradd TAW safonol o 25%, mae'n gosod cyfraddau TAW gostyngol ar rai gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Yn benodol, codir cyfradd TAW o 12% ar lety gwesty (fel y nodir yn Nhabl 13) a gwasanaethau bwytai ac arlwy. Mae'r gyfradd TAW ar gludiant teithwyr yn dibynnu ar y dull teithio. Er enghraifft, mae trafndiaeth ryngwladol yn destun cyfradd TAW o 0% tra bod trafndiaeth ddomestig yn destun cyfradd TAW o 6%.

Cymru – cyfraddau treth manwl, trothwyon, lwfansau ac eithriadau

4.61 Cyfraddau treth incwm llywodraeth ganolog:

Lefel incwm trethadwy (GBP)	Cyfradd Llywodraeth y DG (%)	Cyfradd Llywodraeth Cymru (%)	Cyfanswm (%)
0-37,500	10	10	20
37,501-150,000	30	10	40
150,001+	35	10	45

4.62 Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol Gorfodol:

Telir yswiriant gwladol gan gyflogeion, cyflogwyr a phobl hunangyflogedig. Mae cyfraddau cyfraniadau yn dibynnu ar lefel yr incwm gros. Mae'r cyfraddau yswiriant gwladol fel a ganlyn:

Lefel yr incwm gros (GBP) yr wythnos	Cyfradd(%)
Cyfraniadau cyflogeion:	
0-166	0
167-962	12
963+	2
Cyfraniadau cyflogwr:	
0-166	0
167+	13.8
Cyfraniadau hunangyflogedig:	
0-166	0
167-962	9
933+	2

4.63 Didyniadau / credydau / lwfansau treth:

Yn wahanol i rai o'r gwledydd dethol eraill yn yr adroddiad hwn, nid yw'r DG yn caniatáu didyniadau treth ar gyfer cyfraniadau nawdd cymdeithasol a dalwyd. Mae lwfans cyfradd safonol yn cael ei gymhwyso i rai mathau o waith sydd angen dillad a/neu offer arbennig .

Mae rhyddhad treth yn cael ei gymhwyso i gyfraniadau a delir i bensiynau galwedigaethol a phreifat.

4.64 Lwfans personol:

Mae Llywodraeth y DG yn cymhwyso lwfans personol o £12,500 i bob unigolyn, a gaiff ei ostwng i sero ar sail raddedig pan fydd incwm trethadwy yn fwy na

£100,000. Mae hyn yn berthnasol i gyfraddau treth incwm Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru.

4.65 Newidiadau oherwydd Covid-19:

Cyflwynodd y DG sawl mesur i ddarparu cymorth ariannol i drethdalwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws sy'n rhoi grant o hyd at 80% o gyflog gweithwyr ar ffyrlo, a gohirio ffeilio ffurflenni treth a thalu trethi penodol. Ystyrir mesurau o'r fath yn rhai dros dro ac felly nid ydynt wedi'u hystyried at ddibenion yr adroddiad hwn.

Trethi cysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru

4.66 TAW ar weithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

Mae Llywodraeth y DG yn codi TAW ar gyfradd o 20% ar weithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac eithrio ar gyfer rhai cludiant teithwyr. Mae'r rhan fwyaf o gludiant teithwyr yn destun cyfradd TAW o 0%. Mae cyfradd TAW o 20% yn berthnasol i gludiant mewn cerbydau â llai na deg o bobl, a pheth cludiant pleser.

5. Amcangyfrif o letemau treth ar gyfer cyflenwyr enghreifftiol gwasanaethau twristiaeth yng Nghymru a'r pum cymharydd agos

- 5.1 Yn yr adran hon, cyflwynir amcangyfrifon o'r lletem dreth rhwng y pris y mae defnyddwyr yn ei dalu am wasanaethau twristiaeth a'r pris y mae cyflenwyr yn ei dderbyn. I'r pwrpas hwn ystyriwn dri chyflenwr enghreifftiol yng Nghymru a'r pum economi cymharol agos.
- 5.2 Mae Enghraifft 1 yn ystyried perchennog-reolwr microfenter. Y dull a ddefnyddir yw olrhain gwariant twristiaid ar y gwasanaethau a ddarperir gan y perchennog-reolwr, trwy'r system dreth, yr holl ffordd i incwm clir y perchennog-reolwr. Cyfrifir cyfanswm y lletem dreth fel y gwahaniaeth rhwng gwariant twristiaid ac incwm clir y perchennog-reolwr, a mynegir hyn fel cyfran o wariant twristiaid.
- 5.3 Mae Enghreifftiau 2 a 3 yn ystyried busnesau corfforedig bychan a mawr. Yn yr enghreifftiau hyn, dim ond cyn belled ag elw wedi treth y busnes y caiff gwariant twristiaid ei olrhain, nid yr holl ffordd i'r cyflenwyr cyfalaf neu lafur eithaf. Fel y cyfryw nid ydynt yn cynnwys y dreth bersonol sy'n daladwy gan y cyflenwyr cyfalaf neu lafur, ac felly gellir ystyried bod y lletemau treth a gyfrifwyd yn rhannol neu'n anghyflawn. Cymerir y dull hwn er mwyn osgoi gorfod gwneud rhagdybiaethau dadleuol ynghylch sut y caiff elw'r busnes ei ddosbarthu i berchnogion – drwy gyflogau, dididendau neu enillion cyfalaf.
- 5.4 Felly, ni ellir cymharu'r lletemau treth a gyfrifwyd yn enghraifft 1 yn uniongyrchol â'r rhai yn enghreifftiau 2 a 3.
- 5.5 Bwriad yr enghreifftiau hyn yw darlunio sut y gallai'r gwahanol gyfundrefnau treth a ystyriwyd effeithio ar fathau penodol o unigolion neu fentrau. Ni fwriedir iddynt fod yn gynrychioliadol nac yn gynhwysfawr. Y bwriad yw caniatáu inni dynnu sylw at rai o'r gwahaniaethau amlwg yn y cyfundrefnau treth sy'n cael eu hystyried, a chaniatáu inni ddod i rai casgliadau cyffredinol yn ymwneud â'r baich treth cyffredinol ar draws y gwledydd hyn.
- 5.6 Mae'r lletemau treth wedi'u cyfrifo ar sail y systemau treth ym mhob gwlad, fel y nodir yn Adrannau 3 a 4 o'r adroddiad hwn. Dylid nodi nad yw'r rhain yn gyfrifon cynhwysfawr o'r codau treth ym mhob gwlad. Er enghraifft, gall credydau treth

amrywio yn dibynnu ar statws teuluol unigolyn. Mae'r cyfrifiadau enghreifftiol hyn, yn ôl eu natur, yn fras ac yn lledgywir, ac ni allant ymwneud yn union ag amgylchiadau penodol y trethdalwr unigol.

- 5.7 Mae hefyd yn werth nodi bod trethi yn cael effeithiau mewndarddol o fewn yr economi. Er enghraifft, mae strwythurau treth yn effeithio ar y defnydd o lafur, buddsoddiad a chynhyrchiant. Mae'r rhain, yn eu tro, yn effeithio ar dwf economaidd a chyflogau. Am y rheswm hwn, efallai y bydd pryderon ynghylch dewis enghreifftiau sefydlog ar draws gwahanol gyfundrefnau treth. Fodd bynnag, mae'r pryderon hyn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Enghraifft 1: Perchennog-reolwr microfenter

- 5.8 Mae'r enghraifft gyntaf yn cynnwys perchennog-reolwr hunangyflogedig ag incwm blynyddol o £25,000 (neu gyfwerth arian lleol) a threuliau trethadwy o £30,000.
- 5.9 Tybir mai tŷ llety neu lety gwely a brecwast yw'r busnes dan sylw. Fodd bynnag, gyda newidiadau cymharol fach (heb gynnwys ardollau ymwelwyr ac, mewn rhai achosion, addasu TAW a/neu drethi eiddo) gallai'r enghraifft hon gynrychioli llawer o ficrofentrau eraill yn y sectorau lletygarwch neu weithgareddau, neu hyd yn oed ddarparwyr gweithgareddau llawrydd.
- 5.10 Ar gyfer yr enghraifft hon, gwneir y tybiaethau penodol canlynol yn ychwanegol at y tybiaethau cyffredinol a restrir yn Atodiad D:
- (a) Tybir bod y microfenter yn anghorfforedig, ac felly bod eu helw yn destun treth incwm personol yn hytrach na threth incwm corfforaethol.
 - (b) At ddiben cyfrifo trethi eiddo, rhagdybir bod y perchennog-reolwr yn berchen ar eiddo gwerth £100,000 (neu arian lleol cyfatebol) sy'n gysylltiedig â'r fenter a bod ei werth yn cael ei rannu 50:50 rhwng tir ac adeiladau.
 - (c) Tybir y gallai'r tŷ llety/Gwely a Brecwast letya 10 o westeion y noson pan fyddai'n llawn. Ar ddeiliadaeth gyfartalog o 50%, mae hyn yn cyfateb i 1,825 o nosweithiau gwadd y flwyddyn.¹¹
 - (d) At ddibenion cyfrifo TAW wrth brynu, rhagdybir bod traean o'r treuliau treth i'w didynnu wedi'u heithrio rhag TAW, codir TAW ar draean ar y gyfradd sy'n berthnasol i drydan domestig, a chodir TAW ar y traean olaf ar y gyfradd TAW lawn.
- 5.11 Yng Nghymru, byddai'r perchennog-reolwr microfenter hwn wedi'i eithrio rhag TAW, oherwydd trosiant o dan £85,000, ac ni fyddai'n debygol o dalu unrhyw ardrethi annomestig oherwydd y cynllun Gostyngiadau Treth Busnesau Bach.^{12,13} Felly, yr

¹¹ Mae Adroddiad Blynyddol Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru 2022) yn nodi defnydd gwelyau blynyddol cyfartalog o 50% ar gyfer tai llety yn 2021. Roedd hyn yn uwch na chyn Covid.

¹² Mae gan yr enghraifft hon drosiant at ddibenion TAW o £ 60,596. Mae hyn yn awgrymu referniw cyfartalog y pen y noson o £ 33.20, sy'n gyson â'r dystiolaeth sydd ar gael. Nid yw Adroddiad Blynyddol Arolwg Meddiannaeth Llety Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru 2022) yn adrodd ar referniw gwestai bach nac ar referniw y person, ond mae'n adrodd ar gyfradd ddyddiol ar gyfartaledd ar gyfer ystafelloedd gwestai o £ 66.23 yn 2021.

¹³ Amcangyfrifir bod 78% o westai yng Nghymru yn disgyn o dan y terfyn SBRR ar gyfer talu dim ardrethi annomestig, a bod 96% yn cael rhywfaint o ryddhad o dan y cynllun.

unig drethi sy'n daladwy gan yr unigolyn hwn fyddai treth incwm personol ac Yswiriant Gwladol. Byddai incwm busnes trethadwy o £30,596 yn arwain at rwymedigaeth treth incwm personol o £3,619 a chyfraniadau YG hunangyflogedig o £1,977, gan arwain at incwm clir o £25,000.

- 5.12 Yna mae'r lletem dreth wedi'i chyfrifo fel cyfran o wariant twristiaid y gellir ei ddosrannu'n uniongyrchol i'r perchennog-reolwr microfenter: $\frac{(\pounds 3,619 + \pounds 1,977)}{\pounds 30,596} = 18.3\%$.

Mae'r rhifiadur yn cynrychioli'r holl drethi a dalwyd ar y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i'r twristiaid gan reolwr perchennog y microfenter, tra bod yr enwadur yn cynrychioli'r gwariant twristiaid nad yw wedi'i ddargyfeirio i ddarparwyr gwasanaethau neu nwyddau eraill ar ffurf treuliau a ganiateir (a fydd yn debygol o fod yn atebol i drethi eraill).

- 5.13 Mae Tabl 17 yn nodi cyfanswm y lletem dreth ym mhob economi gymharol, a chyfraniad pob treth at hyn. Mae manylion y cyfrifiadau i'w gweld yn Atodiad F.

Tabl 17: Enghraifft 1 - Perchennog-reolwr microfenter

	Cymru	Denmarc	Ffrainc	Yr Iseldiroedd	Norwy	Sweden
SSC	6.5%	0.5%	19.5%	22.5%	9.3%	5.6%
PIT	11.8%	21.5%	7.1%	0.0%	16.0%	22.2%
CIT	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
Treth eiddo	0.0%	3.1%	0.0%	0.3%	0.5%	2.5%
TAW	0.0%	23.5%	9.6%	4.6%	7.9%	8.1%
Ardoll ymwelwyr	0.0%	0.0%	4.0%	4.3%	0.0%	0.0%
CYFANSWM lletem dreth	18.3%	48.6%	40.2%	31.7%	33.7%	38.3%

Nodiadau: Bwriad yr amcangyfrifon hyn yw dangos yr egwyddorion bras sy'n sail i'r systemau treth ym mhob gwlad ac nid cyfrifo'n ddiffiniol rwymedigaethau treth. Gweler paragraffau 5.5 i 5.7.

Nid yw'r amcangyfrifon yn yr enghraifft hon yn uniongyrchol gymaradwy â'r rhai yn enghreifftiau 2 a 3, nad ydynt yn cynnwys trethi personol. Gweler paragraffau 5.2 i 5.4.

- 5.14 Mae cyfanswm y lletem dreth yng Nghymru ar y perchennog-reolwr microfenter hwn yn llawer llai nag yn unrhyw un o'r pum gwlad gymharol. Mae'n llai na hanner y cyfanswm yn Nenmarc, Ffrainc neu Sweden.

- 5.15 Mae'r anghysondeb hwn yn ganlyniad pedair prif ffactor:

- (a) Mae'r trothwy TAW yng Nghymru yn llawer uwch nag yn unrhyw un o'r cyfundrefnau cymharu, gan gystal ag eithrio microfentrau fel hwn rhag treth ar eu gwerth ychwanegol. Bydd busnesau cyfatebol yn y gwledydd eraill i gyd yn wynebu baich TAW sylweddol.
 - (b) Mae treth incwm ac SSCau yng Nghymru yn raddoledig iawn ar ben isaf y sbectrwm incwm o ganlyniad i lwfansau di-dreth uchel o gymharu â'r gwledydd eraill a ystyriwyd.
 - (c) Mae'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn eithrio llawer o ficrofentrau fel hyn rhag trethiant eiddo yng Nghymru. Mae trethi o'r fath yn daladwy mewn pedair o'r pum cyfundrefn gymharu, ac yn Nenmarc a Sweden maent o faint sylweddol.
 - (d) Nid oes ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae ardollau o'r fath yn gyfran sylweddol o'r lletem dreth a brofir gan ficrofentrau yn y sector twristiaeth yn Ffrainc a'r Iseldiroedd.
- 5.16 Mae'n werth nodi bod yr enghraifft hon yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a symleiddio. Er enghraifft, mae ystyried credydau treth (nad ydynt yn gyffredinol) wedi'u targedu y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn bodoli yng Nghymru a llawer o'r cyfundrefnau cymharu a gallent effeithio ar y lletem dreth a wynebir gan unigolion penodol.

Enghraifft 2: Busnes corfforedig bach i ganolig

- 5.17 Mae'r ail enghraifft yn cynnwys busnes corfforedig sy'n cynhyrchu £200,000 (neu arian lleol cyfatebol) o elw cyfrifo cyn CIT, sydd â £400,000 o gostau staff a £400,000 o gostau nad ydynt yn gostau staff y gellir adennill TAW wrth brynu arnynt.¹⁴
- 5.18 Tybir mai gwesty 50 ystafell wely yw'r busnes dan sylw, gyda bar a chyfleusterau arlwy.
- 5.19 Mewn cyferbyniad ag enghraifft 1, dim ond lletem dreth rannol a gyfrifir - y lletem rhwng y twrist a'r cwmni, yn hytrach na'r cyflenwr cyfalaf neu lafur eithaf. Nid yw'r dreth ar ddosbarthu arian i gyfranddalwyr a gweithwyr yn cael ei hystyried. Felly, nid oes modd cymharu'r lletemau treth a gyfrifwyd ar draws enghreifftiau.
- 5.20 Ar gyfer yr enghraifft hon, gwneir y tybiaethau penodol canlynol yn ychwanegol at y tybiaethau cyffredinol a restrir yn Atodiad D:
- (a) Tybir bod y busnes wedi'i gorffori, ac felly bod eu helw yn destun treth incwm corfforaethol .
 - (b) Tybir bod y busnes yn berchen ar eiddo gwerth £1,000,000 (neu arian cyfatebol) sy'n ymwneud â'r fenter a bod ei werth yn cael ei rannu 50:50 rhwng tir ac adeiladau.
 - (c) Tybir y gallai'r gwesty letya 100 o westeion y noson pan fyddai'n llawn. Ar ddeiliadaeth gyfartalog o 50%, mae hyn yn cyfateb i 18,250 o nosweithiau gwadd y flwyddyn.¹⁵
 - (d) At ddibenion cyfrifo TAW wrth brynu, rhagdybir bod costau nad ydynt yn gostau staff y busnes yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng bwyd, trydan a nwyddau neu wasanaethau eraill. Mae'r dosbarthiadau hyn o nwyddau yn denu cyfraddau gwahanol o TAW mewn rhai o'r gwledydd dan sylw.
 - (e) At ddibenion cyfrifo SSCau cyflogwyr, rhagdybir bod yr holl staff yn weithwyr isafswm cyflog amser llawn, gyda chyflogau fel y nodir yn Atodiad E.

¹⁴ Yn yr enghraifft hon, mae elw cyfrifyddu ac incwm trethadwy yn union yr un fath .

¹⁵ Mae Adroddiad Blyneddol Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru 2022) yn nodi defnydd gwelyau blyneddol cyfartalog o 44% ar gyfer gwystai yn 2021 ond cyn Covid, rhwng 2017 a 2019, roedd yn gyson rhwng 49% a 51%.

- (f) At ddibenion cyfrifo trethi eiddo, rhagdybir bod gan y busnes eiddo gwerth £1,000,000 neu arian lleol cyfatebol, a bod y gwerth hwn yn cael ei rannu 50:50 rhwng tir ac adeiladau. Tybir mai £40,000 yw'r gwerth ardrethol ar gyfer ardrethi annomestig.

5.21 Mae Tabl 18 yn nodi'r lletem dreth ym mhob economi gymharol, a chyfraniad pob treth at hyn. Mae manylion y cyfrifiadau i'w gweld yn Atodiad G.

Tabl 18: Enghraifft 2 - Busnes corfforedig bach i ganolig

	Cymru	Denmarc	Ffrainc	Yr Iseldiroedd	Norwy	Sweden
CIT	3.1%	3.7%	4.4%	2.7%	4.0%	3.6%
Treth eiddo	1.7%	1.3%	1.2%	0.1%	0.2%	0.8%
SSC y Cyflogwr	2.4%	1.3%	13.1%	6.9%	4.7%	10.6%
TAW	14.2%	13.3%	6.0%	3.0%	4.2%	3.9%
Ardoll ymwelwyr	0.0%	0.0%	1.3%	1.4%	0.0%	0.0%
Lletem dreth	21.4%	19.5%	26.0%	14.1%	13.1%	19.0%

Nodiadau: Bwriad yr amcangyfrifon hyn yw dangos yr egwyddorion bras sy'n sail i'r systemau treth ym mhob gwlad ac nid cyfrifo'n ddifiniol rwymedigaethau treth. Gweler paragraffau 5.5 i 5.7.

Nid yw'r amcangyfrifon yn yr enghraifft hon yn uniongyrchol gymaradwy â'r rhai yn enghreifftiau 2 a 3, nad ydynt yn cynnwys trethi personol. Gweler paragraffau 5.2 i 5.4.

5.22 Mae'r lletem dreth yng Nghymru ar y busnes bach a chanolig corfforedig hwn yn ail i Ffrainc yn unig, ac yn sylweddol uwch na'r Iseldiroedd neu Norwy.

5.23 Y prif ffactorau i'w nodi o'r dadansoddiad o'r enghraifft hon yw:

- (a) Mae'r lletem TAW yng Nghymru yn uwch nag yn unrhyw un o'r cyfundrefnau cymharu. Dim ond Denmarc sy'n dod yn agos, tra bod gan Gymru fwy na phedair gwaith y lletem TAW yn yr Iseldiroedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfraddau TAW gostyngol ar westai yn Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden. Rhaid i westai yng Nghymru godi'r gyfradd TAW lawn ar eu cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn cael ei gymhlethu gan y ffordd y caiff nwyddau a gwasanaethau eraill eu trin â TAW. Yng Nghymru, codir cyfradd ostyngedig o TAW ar lawer o'r mewnbynnau ar gyfer gwestai (yn enwedig bwyd, trydan a thanwydd gwresogi), sy'n golygu bod gan westai yng Nghymru lai o TAW wrth brynu i'w osod yn erbyn eu TAW wrth werthu. Mae'r gostyngiadau TAW ar y nwyddau a'r gwasanaethau mewnbwn hyn yn tueddu i

fod yn llai hael yn y gwledydd cymharol. Er enghraifft, yn Nenmarc, mae bwyd, trydan a thanwydd gwresogi i gyd yn denu cyfradd lawn TAW.

- (b) Mae trethi eiddo yng Nghymru – ar ffurf ardrethi annomestig – yn uwch nag yn unrhyw un o'r cymaryddion, ac yn sylweddol uwch na'r Iseldiroedd a Norwy.
- (c) Mae treth incwm corfforaethol ychydig yn is yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o'r cymaryddion.
- (d) Mae SSCau cyflogwyr yng Nghymru yn is nag yn unrhyw un o'r cymaryddion ac eithrio Denmarc. Mae hyn oherwydd dau ffactor. Yn gyntaf, mae gan Yswiriant Gwladol y DG drothwy lleiafswm o £8,632 ac nid oes unrhyw gyfraniadau yn daladwy o dan y trothwy hwnnw. Nid oes gan yr un o'r cymaryddion isafswm trothwy o'r fath. Mae'r elfen raddoledig hon mewn SSCau yng Nghymru yn arbennig o arwyddocaol yn y sector twristiaeth oherwydd nifer yr achosion o weithwyr ar gyflog isel. Yn ail, mae'r brif gyfradd gyfraniadau yn y DG yn sylweddol is nag yn Ffrainc, Sweden ac, i raddau llai, yr Iseldiroedd.
- (e) Nid oes ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae ardollau o'r fath yn gyfran sylweddol o'r llettem dreth a brofir gan fentrau canolig eu maint yn y sector twristiaeth yn Ffrainc a'r Iseldiroedd.

Enghraifft 3: Busnes mawr

- 5.24 Mae'r trydydd enghraifft yn cynnwys busnes corfforedig sy'n cynnwys cadwyn o westai. Tybir bod y busnes dan sylw yn cynnwys deg gwesty o'r math a ystyrir yn enghraifft 2.
- 5.25 Mae'r driniaeth dreth ar gyfer busnesau mawr bron yn union yr un fath â'r driniaeth a roddir i'r busnesau bach a chanolig corfforedig a ystyriwyd yn enghraifft 2. Mae hyn yn deillio o'r diffyg cynnydd cyffredinol mewn trethi a anelir at fusnesau.
- 5.26 Mae'r unig eithriadau i'r rheol gyffredinol hon yn y garfan o wledydd dan ystyriaeth yn ymwneud â threth incwm corfforaethol yn Ffrainc a'r Iseldiroedd. Mae Enghraifft 2 yn amodol ar y gyfradd is o CIT yn Ffrainc (28% ar gyfer cwmnïau ag elw o dan €500,000), tra byddai busnes mawr yn destun y gyfradd uwch o 31%. Mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau yn fwy amlwg yn yr Iseldiroedd, lle mae enghraifft 2 yn destun cyfradd CIT o 15%, o'i gymharu â chyfradd o 25% ar gyfer cwmnïau ag elw dros €245,000.
- 5.27 Mae Tabl 19 yn nodi'r lletem dreth ar gyfer cadwyn gwestai mawr ym mhob economi gymharol, a chyfraniad pob treth at hyn. Fel yr eglurwyd, yr unig wahaniaeth o gymharu ag enghraifft 2 yw'r lletemau CIT mwy ar gyfer Ffrainc a'r Iseldiroedd.

Tabl 19: Enghraifft 3 - Busnes mawr

	Cymru	Denmarc	Ffrainc	Iseldiroedd	Norwy	Sweden
CIT	3.1%	3.7%	4.9%	4.4%	4.0%	3.6%
Treth eiddo	1.7%	1.3%	1.2%	0.1%	0.2%	0.8%
SSC y cyflogwr	2.4%	1.3%	13.1%	6.9%	4.7%	10.6%
TAW	14.2%	13.3%	6.0%	3.0%	4.2%	3.9%
Ardoll ymwelwyr	0.0%	0.0%	1.3%	1.4%	0.0%	0.0%
Lletem dreth	21.4%	19.5%	26.5%	15.8%	13.1%	19.0%

Nodiadau: Bwriad yr amcangyfrifon hyn yw dangos yr egwyddorion bras sy'n sail i'r systemau treth ym mhob gwlad ac nid cyfrifo'n ddiffiniol rwymedigaethau treth. Gweler paragraffau 5.5 i 5.7.
Nid yw'r amcangyfrifon yn yr enghraifft hon yn uniongyrchol gymaradwy â'r rhai yn enghreifftiau 2 a 3, nad ydynt yn cynnwys trethi personol. Gweler paragraffau 5.2 i 5.4.

6. Casgliadau

Cyd-destyn

- 6.1 Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru, gan gyfrannu 4.9% o CDG a 5.2% o gyflogaeth.¹⁶ Mae'r diwydiant yn cynnwys mentrau micro, bach a chanolig yn bennaf sy'n cael eu dosbarthu ar draws y rhan fwyaf o'r wlad.
- 6.2 O ystyried yr ystod eang o weithgareddau, busnesau a sefydliadau sy'n rhan o'r sector twristiaeth, mae bron pob treth yn effeithio ar rai rhannau o'r sector.
- 6.3 Mae gan drethiant y potensial i effeithio ar gystadleurwydd y sector twristiaeth drwy gynyddu costau cwmnïau yn y sector, a'r prisiau y mae twristiaid yn eu hwynebu.¹⁷
- 6.4 Ar y llaw arall, mae trethi yn ffynhonnell bwysig o refeniw llywodraeth sydd yn eu tro yn ariannu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a seilwaith y mae twristiaeth yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd a mathau eraill o seilwaith trafnidiaeth, cyfleusterau lleol megis toiledau cyhoeddus, atyniadau fel henebion hanesyddol a pharciau cenedlaethol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol fel iechyd a phlisma sydd yn aml o fudd i dwristiaid.
- 6.5 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mater 'gor-dwristiaeth' wedi dod yn bwnc trafod amlycach ar lefel ryngwladol (gweler, er enghraifft UNWTO 2018) ac yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2020). Os yw twristiaeth yn achosi costau allanol i eraill, naill ai twristiaid eraill neu'r gymuned breswyl, yna gallai hyn gyfiawnhau defnyddio polisi treth i helpu i liniaru'r costau hynny.
- 6.6 Nid yw'r adroddiad hwn yn dyfarnu a yw trethi yng Nghymru yn rhy uchel neu'n rhy isel. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad yw'r mwyafrif helaeth o drethi yng Nghymru, yn ogystal ag yn y mwyafrif o'r gwledydd cymharol, wedi'u targedu at ddiwydiannau penodol.¹⁸

¹⁶ Mae mesurau o gyfraniad economaidd twristiaeth yn ddadleuol oherwydd yr anhawster o ran ddiffinio gweithgaredd twristiaeth a gwahaniaethau barn ynghylch a ddylid cynnwys cyfraniadau anuniongyrchol. Mae'r mesurau yr adroddir arnynt yn yr adroddiad hwn wedi'u hegluro yn Atodiad B. Maent yn gyson â diffiniadau Banc y Byd o gyfraniad uniongyrchol at CDG a chyflogaeth.

¹⁷ Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod sensitifrwydd y galw am dwristiaeth i newidiadau mewn prisiau yn dibynnu'n fawr ar y cyd-destun (gweler er enghraifft Crouch, 1994, a Chen et al, 2021).

¹⁸ Mae ffactorau eraill megis rheoleiddio, mynediad at gyllid a mynediad at lafur â sgiliau addas hefyd yn cyfrannu at berfformiad yr economi ymwelwyr.

- 6.7 Mae'r systemau treth a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn hynod gymhleth. Mae effaith pob system dreth ar unigolion neu fentrau penodol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol. Dim ond agweddau cyffredinol ar y systemau treth hyn y gall yr adroddiad hwn roi sylw iddynt.

Strwythur Trethi Cyffredinol

- 6.8 Mae economi dwristiaeth Cymru yn rhannu'r mwyaf yn gyffredin â Denmarc, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden (y cyfeirir atynt fel cymaryddion agos yn yr adroddiad hwn). Mae hyn yn cael ei yrru gan debygrwydd o ran daearyddiaeth, hinsawdd a natur y diwydiannau twristiaeth yn y gwledydd hyn.
- 6.9 Mae'r rhain yn digwydd bod yn wledydd sydd â model llywodraethu mwy cymdeithasol ddemocrataidd na'r DG. Mae ganddynt refeniw treth cyffredinol llawer uwch fel cyfran o CDG. Mae hyn, wrth gwrs, yn cael ei adlewyrchu gan wariant llawer uwch y llywodraeth fel cyfran o CDG, er bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad presennol.
- 6.10 Mae tirwedd drethi Cymru yn debycach i'r cymaryddion pellaf a nodir yn Adran 2 – Lloegr, Estonia, Iwerddon, Latfia, Lwcsembwrg a'r Alban. Mae'r rhain i gyd yn wledydd y mae gan eu gwladwriaethau draddodiad o ddilyn model economaidd mwy *laissez-faire*, gyda threthi a gwarant llywodraeth cyffredinol is.
- 6.11 Mae'r dadansoddiad a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn caniatáu i nifer o sylwadau gael eu gwneud ynghylch nodweddion amlycaf trethi unigol o fewn systemau treth cyffredinol yr economïau cymharol.

Trethi Incwm a Chyfraniadau Nawdd Cymdeithasol

- 6.12 Mae treth incwm personol (PIT) yng Nghymru, ar y cyfan, yn fwy graddoledig ar waelod y dosbarthiad incwm nag yn yr economïau cymharol agos. Mae hyn yn codi'n bennaf o ganlyniad i'r lwfans personol cymharol hael yng Nghymru.

- 6.13 Mae cyfraniadau nawdd cymdeithasol (SSC) yng Nghymru yr un mor helaeth raddoledig ar ben isaf y dosbarthiad incwm.¹⁹ Unwaith eto, mae hyn oherwydd isafswm trothwy cymharol hael ar gyfer cyfraniadau.
- 6.14 Mae cyfraddau cyfraniadau nawdd cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol ar draws yr economïau cymharol. Mae'r cymysgedd rhwng PIT a SSC yn amrywio'n fawr. Mae hyn i'w weld yn glir yn Nhabl 17, sy'n dangos bod PIT yn dominyddu SSC yn Nenmarc yn enghraifft 1, tra bod y gwrthwyneb yn wir yn yr Iseldiroedd. Mae'n rhesymol felly ystyried y ddwy dreth hyn ar incwm llafur ar y cyd.
- 6.15 Pan fyddwn yn ystyried PIT a SSC gyda'i gilydd, y nodwedd amlycaf o drethi llafur yng Nghymru o gymharu â'r economïau cymharol sy'n aros yw eu graddoliad ar ben isaf y dosbarthiad incwm. Mae hyn yn arbennig o nodedig i'r sector twristiaeth, lle mae cyfran mor uchel o swyddi ar gyflog isel.²⁰
- 6.16 Mae cyfraddau treth incwm corfforaethol (CIT) yng Nghymru tua phen isaf y grŵp o gymaryddion agos, ond nid o fesur sylweddol.

TAW

- 6.17 Mae effaith treth ar werth (TAW) ar y sector twristiaeth yng Nghymru, o gymharu â'r economïau cymharol, yn fwy cynnil. Gellir gweld hyn drwy gyferbynnu'r lletemau treth o TAW a gyfrifwyd ar gyfer enghreifftiau 1 a 2 (gweler Tablau 17 ac 18).
- 6.18 Mae'r trothwy uchel ar gyfer cofrestru TAW yn y DG yn unigryw ymhlith y grŵp o gymaryddion agos. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw TAW yn daladwy ar werth ychwanegol nifer fawr o microfentrau yn sector twristiaeth Cymru.²¹
- 6.19 Ar y llaw arall, ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi'u cofrestru, mae cyfradd TAW ar lety yng Nghymru yn uwch nag yn unrhyw un o'r economïau cymharol ac eithrio

¹⁹ Mae'n werth nodi bod Yswiriant Gwladol y DG yn wrth-raddoledig ar ben uchaf y dosbarthiad incwm. Fodd bynnag, ychydig o berthnasedd sydd i'r nodwedd hon i'r sector twristiaeth, o ystyried nifer yr achosion o swyddi cyflog isel.

²⁰ Mae'r TUC (2019) yn honni bod rhwng 70% a 75% o weithwyr yn y sector llety yng Nghymru yn cael eu talu islaw'r Cyflog Byw go iawn.

²¹ Mae [data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#) yn dangos bod gan 5% o fusnesau yn y sectorau gwasanaethau llety a bwyd a diod yng Nghymru drosiant blynyddol o dan £50k yn 2021, ac roedd gan 27% arall drosiant rhwng £50k a £100k. Trothwy cofrestru TAW yw £85k. Felly, mae gan tua 20% i 25% o fusnesau twristiaeth drosiant islaw trothwy cofrestru TAW.

Denmarc. Ac eithrio Denmarc a'r DG, mae pob economi gymharol arall yn codi cyfradd ostyngol o TAW ar westy a mathau eraill o lety. Mae'r gostyngiad yn gyffredinol tua hanner cyfradd safonol TAW, ac o ganlyniad mae'r gyfradd TAW ar lety yn y DG a Denmarc tua dwbl yr hyn a geir yn yr economïau cymharol eraill.

- 6.20 Mae diffyg cyfradd TAW ostyngol ar gyfer y sectorau llety a gwasanaethau bwyd yng Nghymru yn cael ei waethygu gan bresenoldeb cyfradd TAW ostyngol ar gostau llawer o'r busnesau hyn. Mae llawer o'r costau ar gyfer busnesau o'r fath (yn enwedig bwyd, trydan a thanwydd gwresogi) yn cael eu codi ar gyfradd ostyngol o TAW yn y DG, sy'n golygu bod gan y busnesau hyn lai o TAW wrth brynu (TAW ar gostau) i'w wrthbwyso yn erbyn eu TAW wrth werthu (TAW ar drosiant), ac mae hyn yn cynyddu cyfradd effeithiol y dreth ar eu gwerth ychwanegol. Mae gostyngiadau TAW ar fwyd, trydan a thanwydd gwresogi yn tueddu i fod yn llai hael yn y gwledydd cymharol. Er enghraifft, yn Nenmarc, mae bwyd, trydan a thanwydd gwresogi i gyd yn denu cyfradd lawn TAW.

Trethi Eiddo

- 6.21 Mae effaith trethi eiddo ar y sector twristiaeth yng Nghymru, o gymharu â'r economïau cymharol, hefyd â haenau cynnil. Yn gyffredinol, mae gan y DG lefelau uwch o drethi eiddo na bron unrhyw le arall yn y byd, ac mae trethi eiddo ar fusnesau (ar ffurf ardrethi annomestig) yn arbennig o uchel o gymharu'n rhyngwladol (gweler ap Gwilym et al 2020).
- 6.22 Fodd bynnag, mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn eithrio llawer o ficrofusnesau o ardrethi annomestig ac yn lleihau'r ardrethi sy'n daladwy i lawer o rai eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y sector twristiaeth yng Nghymru lle, fel y nodwyd yn flaenorol, mae nifer helaeth o ficrofentrau. Er bod cynlluniau tebyg yn bodoli yng ngweddill y DG, nid ydynt yn bodoli yn unman arall yn yr economïau cymharol.²²

²² Mae gan Ffrainc rai eithriadau treth eiddo, fel y nodir yn Nhabl 14, ond mae'r rhain yn seiliedig yn bennaf ar y math o fusnes yn hytrach na maint.

Trethi Twristiaeth-benodol

- 6.23 Mae trethi a gyfeirir yn benodol at y sector twristiaeth yn brin yn y gwledydd cymaradwy a ystyrir yn yr adroddiad hwn.
- 6.24 Mae trethi ymadael teithwyr awyr bellach yn cael eu codi mewn pump o'r deg awdurdodaeth a ystyriwyd, sef Ffrainc, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden a'r DG. Mae'r Iseldiroedd, Norwy a Sweden wedi cyflwyno'r dreth ers 2016.
- 6.25 Dim ond mewn dwy o'r awdurdodaethau hyn y mae ardollau ymwelwyr yn bodoli, Ffrainc a'r Iseldiroedd.²³ Mae'r cyfraddau yn y ddwy wlad yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar leoliad a math o lety. Yn enghreifftiau 1 a 2, roedd yr adroddiad hwn yn rhagdybio cyfradd fesul person y noson o €1, sy'n agos at y cyfartaledd a godir yn y ddwy wlad. Ar y lefel hon, mae ardoll ymwelwyr yn cael effaith fwy cymedrol ar fusnesau na threthi incwm (personol neu gorfforaethol), SSC neu TAW. Fodd bynnag, nid yw'r effaith yn ansylweddol. Ym mhob un o'r enghreifftiau a ystyriwyd yn Adran 5, mae'r ardoll twristiaeth yn cyfrif am rhwng 5% a 12% o'r llettem dreth gyffredinol a nodwyd.
- 6.26 Mae'r systemau treth a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn hynod gymhleth. Er enghraifft, yn 2009, roedd cod treth y DG yn cynnwys 11,520 o dudalennau (Accountingweb 2009). O ganlyniad, mae gwneud cymariaethau rhwng codau treth gwahanol wledydd yn beryglus ac o reidrwydd yn anfanwl, ond mae'r adroddiad hwn wedi ceisio gwneud hynny mewn modd diduedd a gwrthrychol.

²³ Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ardollau ymwelwyr yn bodoli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd mewn deunaw o wledydd yr UE-27.

Cyfeiriadau

- Accountingweb (2009), *UK tax code is longest in the world*, [Accounting web](#)
- Amsterdam.org (2022), *Tourist tax Amsterdam*, [Amsterdam tax](#) accessed 16.08.2022
- Batista e Silva, Barranco, Proietti, Pigaiani and Lavallo (2021), *A new European regional tourism typology based on hotel location patterns and geographical criteria*, Annals of Tourism Research (89). [annals of tourism](#).
- Batista e Silva, Herrera, Rosina, Barranco, Freire and Schiavina (2018), *Analysing spatiotemporal patterns of tourism in Europe at high-resolution with conventional and big data sources*, Tourism Management (68). [Tourism Management](#).
- Brent T (2022), *What is France's taxe de séjour, who pays it and when?*, The connexion [Connexion France](#) accessed 16.08.2022
- Business.gov.nl (2021), *Tourist Tax*, [Business NL](#) wedi'i gyrchu 16.08.2022
- Chen, Li, Liu, and Morgan (2021), *Review of Evidence of Elasticities Relevant to Tourism in Scotland*, Scottish Government.
- Collard, S (2020), *How Brexit put an end to the election of Britons living in rural France*, theconversation.com wedi'i gyrchu ar 16.08.2022
- Crouch, G., 1994, *Price Elasticities in International Tourism*, Journal of Hospitality & Tourism Research, 17(3).
- Deloitte, 2019, *Working and living in Denmark: A brief introduction to tax, social security and immigration*. [Readkong](#) , wedi'i gyrchu, 24.09.2022
- European Commission (2022), *Taxation Trends in the European Union, 2022 edition*, Directorate-General for Taxation and Customs Union, European Commission, Publications Office of the European Union, Luxembourg, 2022.
- Frenchentree.com (2022), *What You Need to Know About French Social Charges*. [Frenchentree](#)
- French-property.com (2022), *Social Charges/Contributions in France* [French property & self-employed](#) wedi'i gyrchu 07.09.2022
- French property.com (2016), *Holiday Accommodation Tourist Tax*, [French property & taxe de séjour](#) wedi'i gyrchu 16.08.2022

- ap Gwilym, Jones and Rogers (2020), *A technical assessment of the potential for a local land value tax in Wales*, Cardiff: Welsh Government, GSR report number 17/2020. Available at: [Local land value tax technical assessment](#)
- Nation.Cymru (2022), *Achieving sustainable and fair tourism: Why we're launching a consultation on a visitor levy for Wales*. [Nation Cymru and visitor levy](#)
- Netherlands Central Government (2022), *Paying toeristenbelasting (tourist tax)*, Municipalities Government.nl wedi'i gyrchu 16.08.2022
- NL times (2021), *Tourist Tax up 6.6% this year Netherlands tourist tax up 6.6% this year*, NL Times accessed on 16.08.2022
- Paris Convention and Visitors' Bureau (2022), *Tourist tax in Paris* [Practical Paris](#) wedi'i gyrchu ar 16.08.2022
- PWC (2017), *The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism*, European Commission. [PWC and Impact Competitiveness](#)
- République Française (2020), *Qu'est-ce que la taxe de séjour Le site officiel de l'administration française*, [Service Public](#) wedi'i gyrchu 16.08.2022
- République Française (2020), *Taxe de séjour touristique quels sont les tarifs?* [entreprendre.service-public.fr](#) wedi'i gyrchu 16.08.2022
- Robert, C. (2014), *Machine Learning, a Probabilistic Perspective*, CHANCE, 27(2), 62–63. [Chance](#)
- Romesburg, H. C. (2019), *Use of cluster analysis in leisure research*, Journal of Leisure Research, 11(2), 144–153. [Leisure Research](#)
- Tepperová, J., 2019, *Personal Income Tax and Social Security Coordination in Cross-Border Employment—a Case Study of the Czech Republic and Denmark*, European Journal of Social Security, 21(1), pp.23-41.
- Tørsløv, Wier & Zucman (2020), *The missing profits of nations*, NBER Working Paper Series, 24701. [Nber](#)
- TUC (2019), *No stars: Low pay in the hotel and accommodation sector*, [TUC](#) VNG The Association of Dutch Municipalities (2022), *Commuter tax*, wedi'i gyrchu 16.08.2022
- Ward, J. H. (1963), *Hierarchical Grouping to Optimize an Objective Function*, Journal of the American Statistical Association, 58(301), 236–244. [American Statistical Association](#)
- Welsh Government (2021a), *Programme for Government - Update*, Welsh Government.

[Programme for government update](#)

Welsh Government (2021b), *The Co-operation Agreement*, Welsh Government.

[Cooperation agreement 2021](#)

Welsh Government (2022), & *Visit Wales Accommodation Occupancy Survey Annual Report 2021*, Welsh Government. [Occupancy survey 2021](#)

Pal, C. J. (2016), *Data Mining: Practical Machine Learning Tools and Techniques*. *Data Mining: Practical Machine Learning Tools and Techniques*. Elsevier Inc. [Data Mine](#)

Wu, J. (2012), *Cluster Analysis and K-means Clustering: An Introduction*. In *Advances in k-means Clustering* (pp. 1–16), Springer, Berlin, Heidelberg. [K cluster](#)

Atodiad A – Methodoleg dadansoddi clwstwr

Mae dadansoddi clystyrau, neu glystyru, yn broses ddysgu â pheiriant heb oruchwyliaeth sy'n cynnwys darganfod grwpio naturiol yn awtomatig yn y data (Romesburg, 2019). Mae dysgu heb oruchwyliaeth yn golygu nad oes angen hyfforddi model, ac nid oes angen newidyn "targed". Yn wahanol i ddysgu dan oruchwyliaeth (fel modelu rhagfynegol), mae dadansoddiad clwstwr yn dehongli'r data mewnbwn yn unig ac yn dod o hyd i grwpiau naturiol, neu glystyrau, yn y gofod nodwedd (Witten, Frank, Hall, & Pal, 2016).

Mae clwstwr yn aml yn ardal o ddwysedd yn y gofod nodwedd lle mae arsylwadau yn agosach at y clwstwr nag at unrhyw glystyrau eraill. Gall fod gan y clwstwr ganolbwynt (y craidd) sy'n sampl neu'n ofod nodwedd pwynt a gall fod ganddo ffin neu fesur (Witten et al., 2016). Er bod dadansoddi clystyrau yn weithgaredd defnyddiol i ddysgu mwy am grwpiau o arsylwadau, y broses darganfod patrymau fel y'i gelwir, mae'r gwerthusiad o glystyrau a nodwyd yn oddrychol (Robert, 2014).

Mae llawer o fathau o algorithmau a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi clwstwr. Mae llawer o algorithmau yn defnyddio mesurau tebygrwydd neu bellter rhwng arsylwadau yn y gofod nodwedd mewn ymdrech i ddarganfod rhanbarthau trwchus o arsylwadau. Mae rhai algorithmau clystyru yn ei gwneud yn ofynnol i nodi nifer y clystyrau ymlaen llaw, tra bod eraill yn mynnu pennu lleiafswm pellter rhwng arsylwadau lle gellir ystyried enghreifftiau yn "agos" neu'n "gysylltiedig". Dau o'r algorithmau mwyaf poblogaidd yw:

- Modd K
- Clystyru pentyrrol

Modd K (Clystyru Ymrannol)

Mae'n bosibl mai clystyru modd k, math o broses glystyru ymrannol, yw'r algorithm clystyru mwyaf adnabyddus ac mae'n golygu neilltuo arsylwadau i glystyrau mewn ymdrech i leihau'r amrywiant o fewn pob clwstwr (Wu, 2012). Mae clystyru modd k yn rhannu arsylwadau yn grwpiau nad ydynt yn gorgyffwrdd. Hynny yw, ni all unrhyw arsylwad fod yn aelod o fwy nag un clwstwr, a rhaid i bob clwstwr gael o leiaf un arsylwad.

Mae prosesau clystyru ymrannol yn gofyn am fanylion nifer y clystyrau, a nodir gan y newidyn k. Mae llawer o algorithmau clystyru ymrannol yn gweithio trwy broses ailadroddol i aseinio is-setiau o bwyntiau data i glystyrau k. Nid yw'r algorithmau hyn yn benderfyniaethol, sy'n golygu y gallent gynhyrchu canlyniadau gwahanol o ddau rediad ar wahân hyd yn oed pe bai'r rhediadau'n seiliedig ar yr un mewnbwn.

Dim ond ychydig o gamau sydd eu hangen ar fodd k i neilltuo arsylwadau i glystyrau. Y cam cyntaf yw dewis creiddiau k ar hap, lle mae k yn hafal i nifer y clystyrau a ddewiswyd. Mae creiddiau yn bwyntiau data sy'n cynrychioli canol clwstwr. Mae prif elfen yr algorithm yn gweithio trwy broses dau gam o'r enw eithafu disgwyliad. Mae'r cam disgwyliad yn aseinio pob arsylwad i'w graidd agosaf. Yna, mae'r cam eithafu yn cyfrifo cymedr yr holl bwyntiau ar gyfer pob clwstwr ac yn gosod y craidd newydd.

Pennir ansawdd yr aseiniadau clwstwr trwy gyfrifo Swm y Gwall Sgwâr (SSE). Diffinnir yr SSE fel swm pellteroedd Ewclidaidd sgwâr pob arsylwad i'w graidd agosaf. Gan mai mesur gwall yw hwn, amcan dadansoddiad clwstwr modd k yw ceisio lleihau'r gwerth hwn.

Rhoddir y fformiwla ar gyfer SSE fel:

$$SSE = \sum_{i=1}^n (x_i - \bar{x})^2$$

Cymhwyswyd y fethodoleg modd k i'r data cenedlaethol a data ardaloedd NUTS-3. Mae'r canlyniadau o'r ddwy set ddata yn cael eu cymharu i bennu'r gwledydd y dylid eu cynnwys yn y dadansoddiad cymharol o systemau treth economïau ymwelwyr.

Dewis nifer optimaidd k

Cynigiodd Yuan a Yang (2019) dull penelin ar gyfer pennu'r nifer optimaidd o glwstwr (k) ar gyfer dadansoddiad clwstwr modd k. Mae'r dull yn seiliedig ar gyfrifo'r Swm O Fewn Clwstwr o Wallau Sgwâr (WSS) ar gyfer gwahanol nifer o glystyrau (k) a dewis y k y mae newid yn WSS yn dechrau lleihau ar ei gyfer.

Y syniad y tu ôl i'r dull penelin yw bod yr amrywiad a eglurir yn newid yn gyflym ar gyfer nifer fach o glystyrau ac yna'n arafu gan arwain at ffurfio penelin yn y gromlin. Pwynt y penelin yw nifer y clystyrau y dylid eu defnyddio ar gyfer dadansoddiad clwstwr modd k.

Er enghraifft, mae'r dull penelin a gymhwysir i ddata ardal NUTS-3 yn cynhyrchu'r gromlin ganlynol a chyfrifir y nifer gorau posibl o glwstwr gan y broses fel 7.

Clystyru Pentyrrol (Clystyru Hierarchaidd)

Mae clystyru pentyrrol, sef math o broses glystyru hierarchaidd, yn golygu uno enghreifftiau nes cyflawni'r nifer dymunol o glystyrau.

Mae pob dull clystyru hierarchaidd yn cynhyrchu "coeden" o hierarchaeth pwyntiau a elwir yn ddendrogram. Fel clystyru ymrannol, mewn clystyru hierarchaidd mae nifer y clystyrau (k) yn aml yn cael ei bennu ymlaen llaw. Neilltuir clystyrau trwy dorri'r dendrogram ar ddyfnder penodol sy'n arwain at grwpiau k o ddendrogramau llai. Yn wahanol i lawer o dechnegau clystyru ymrannol, mae clystyru hierarchaidd yn broses benderfyniaethol, sy'n golygu na fydd aseiniadau clwstwr yn newid pan fydd y broses yn cael ei rhedeg ddwywaith ar yr un data mewnbwn.

Mae clystyru hierarchaidd yn gofyn am benderfynu ar swyddogaethau pellter a chyswllt. Unwaith eto, gellir defnyddio pellteroedd Ewclidaidd ynghyd â'r dull cysylltu Ward, sy'n pennu'r pellter rhwng dau glwstwr ac sy'n cael ei gyfrifo fel y cynnydd yn y Swm Gwall o Sgwariau (ESS) ar ôl asio dau glwstwr yn un clwstwr (Ward, 1963).

Mae Ward (1963) yn ailysgrifennu'r SSE fel ESS, a roddir isod, i gyfrif am golli gwybodaeth o drin arsylwadau fel un grŵp gydag un cymedr:²⁴

$$ESS = \sum_{i=1}^n x_i^2 - \frac{1}{n} \left(\sum_{i=1}^n x_i \right)^2$$

Mae clystyru pentyrrol yn ddull o'r gwaelod i fyny sy'n adeiladu clystyrau trwy fesur yr annhebygrwydd rhwng data. Mae'n dechrau trwy drin pob arsylw fel ei glwstwr ei hun. Yna mae'n uno dau bwynt sydd â'r pellter byrraf rhyngddynt i greu clwstwr mwy. Mae'r broses hon yn parhau nes bod yr holl arsylwadau wedi'u huno yn un clwstwr.

Cymhwyswyd y fethodoleg clystyru pentyrrol i'r data cenedlaethol yn unig. Cynhyrchir rhestr derfynol o wledydd, yr argymhellir eu cynnwys yn y dadansoddiad cymharol o systemau treth economïau ymwelwyr, drwy gymharu canlyniadau'r modd k a'r methodolegau clystyru pentyrrol. Bydd cadernid ystadegol y gwledydd a argymhellir yn cael ei gyflawni os bydd allbwn cyson o bob un o'r tri dull.

²⁴ $\sum_{i=1}^n (x_i - \bar{x})^2 = \sum_{i=1}^n x_i^2 + \sum_{i=1}^n \bar{x}^2 - 2\bar{x} \sum_{i=1}^n x_i = \sum_{i=1}^n x_i^2 - n\bar{x}^2 = \sum_{i=1}^n x_i^2 - \frac{1}{n} (\sum_{i=1}^n x_i)^2$

Ni ddefnyddiwyd y dull clystyru pentyrrol ar gyfer ardaloedd NUTS-3 oherwydd nad oedd y fethodoleg yn addas ar gyfer setiau data mawr. Allbwn y clystyru pentyrrol yw'r dendrogram, sy'n dangos y clystyrau hierarchaidd a nodwyd. Casglwyd data ar gyfer 1,343 o ardaloedd NUTS-3, na ellir eu gosod yn hawdd mewn dendrogram.

Atodiad B - Ffynonellau data ac adeiladu newidynnau ar gyfer dadansoddiadau clwstwr (Adran 2)

Mae'r atodiad hwn yn manylu ar y ffynonellau data a'r dulliau a ddefnyddir i adeiladu pob un o'r newidynnau a ddefnyddir yn y dadansoddiadau clwstwr.

Dwysedd Poblogaeth

Casglwyd y wybodaeth ynglŷn â dwysedd poblogaeth NUTS-3 yn uniongyrchol o Eurostat (series demo_r_d3dens). Er mwyn lleihau gwerthoedd coll, dewiswyd data 2017.

Adeiladwyd dwysedd poblogaeth cenedlaethol trwy rannu amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ardal ddaearyddol. Cafwyd amcangyfrifon poblogaeth NUTS-0 o Eurostat series demo_pjan 2019, tra bod y rhai ar gyfer cenhedloedd y DG ac Iwerddon wedi'u crynhoi o ddata NUTS-3 (series demo_r_pjanaggr3 2019). Cydgrynhowyd yr ardal ddaearyddol o ddata NUTS-3 (series reg_area3 2021).

Data Meteorolegol

Cafwyd mwyafrif helaeth y data meteorolegol o'r Copernicus Climate Data Store. Daeth data Malta o [Malta Weather](#), a data Lichtenstein o Fanc y Byd.

Mae Copernicus yn darparu data tymheredd aer cyfartalog tymhorol a data dyddodiad blynyddol cronedig ar y lefelau NUTS-2 a NUTS-0, rhwng 1979 a heddiw. Defnyddiwyd hwn i gyfrifo gwerthoedd cyfartalog ar gyfer tymheredd y gaeaf, tymheredd yr haf a dyddodiad blynyddol er 1979. Ar gyfer y dadansoddiad NUTS-3, neilltuwyd gwerthoedd NUTS-2 h.y. gan dybio tywydd cyson ar draws ardaloedd NUTS-2. Ar gyfer y dadansoddiad cenedlaethol, defnyddiwyd gwerthoedd NUTS-0 lle bo hynny'n berthnasol. Ar gyfer cenhedloedd y DG ac Iwerddon, adeiladwyd data trwy gymryd cyfartaleddau heb eu pwysoli o'r rhanbarthau NUTS-2 ym mhob cenedl.

Cyfraniad uniongyrchol twristiaeth at CDG

Casglwyd y data ar gyfer y newidyn hwn yn bennaf o'r [World Bank / World Travel & Tourism Council](#) ac mae'n cyfateb i 2019, y flwyddyn ddiweddaraf cyn y pandemig .

Er mwyn llunio'r newidyn ar gyfer cenhedloedd y DG ac Iwerddon, daethpwyd o hyd i ddata o'r [ONS](#) yn ymwneud â gwerth rhanbarthol twristiaeth yn y DG. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r data hwn yn ymwneud â 2013, ac fe'i hadroddir ar y lefel NUTS-1. Adeiladwyd y mesur ar gyfer Lloegr gan CDG yn pwysoli rhanbarthau NUTS-1 Lloegr. Adeiladwyd y mesur ar

gyfer Iwerddon gan CDG yn pwysoli mesur y gogledd (o'r ONS) a mesur y Weriniaeth (o Fanc y Byd).

Cyfraniad uniongyrchol twristiaeth at gyflogaeth

Unwaith eto, casglwyd y data ar gyfer y newidyn hwn yn bennaf o'r [World Bank / World Travel & Tourism Council](#) ac mae'n cyfateb i 2019.

Dosbarthwyd mesur y DG o'r ffynhonnell hon ar draws cenhedloedd y DG gan ddefnyddio pwysau yn seiliedig ar ddadansoddiad yr [ONS](#) o gyflogaeth twristiaeth yn ôl rhanbarth yn 2018.

Natur dymhorol a thymor mwyaf poblogaidd

Casglwyd data ar gyfer natur dymhorol a'r tymor mwyaf poblogaidd ar y lefel NUTS-3 yn uniongyrchol gan awduron [Batista e Silva et al \(2018\)](#). Defnyddiwyd "trawsnewidydd NUTS" y Comisiwn Ewropeaidd i drawsnewid y data o fersiwn 2010 NUTS i fersiwn 2021.

Cafwyd data natur dymhorol ar y lefel genedlaethol o Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig (UNWTO). Cyfrifir y data hwn trwy ychwanegu cyraeddiadau 3 mis prysuraf y flwyddyn, a fynegir fel canran o'r cyfanswm blyneddol. Adeiladwyd mesurau cyfatebol ar gyfer Cymru, yr Alban, Lloegr ac Iwerddon trwy ddefnyddio data cyraeddiadau chwarterol o Visit Britain i bwysoli data Gweriniaeth Iwerddon a'r DG o UNWTO.

Tarddiad Ymwelwyr

Mae UNWTO yn darparu dadansoddiad o gyraeddiadau yn ôl rhanbarth tarddiad (Affrica, America, Dwyrain Asia a'r Môr Tawel, Ewrop, y Dwyrain Canol, De Asia ac eraill). Fodd bynnag, mae yna lawer o werthoedd ar goll yn y data hwn. Arweiniodd hyn at y penderfyniad i lunio dau newidyn yn unig yn seiliedig ar darddiad ymwelwyr: cyfran y cyraeddiadau rhyngwladol â'u tarddiad yn Ewrop a chyfran y cyraeddiadau rhyngwladol â'u tarddiad yn yr America.

Adeiladwyd mesurau cyfatebol ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr o ddata Visit Britain sy'n dadelfennu data cyraeddiadau rhyngwladol yn ôl gwlad wreiddiol. Adeiladwyd mesur ar gyfer Iwerddon trwy gyfuno data Visit Britain ar gyfer y Gogledd gyda data UNWTO ar gyfer y Weriniaeth.

Gwelyau

Casglwyd data lleoedd gwely o gronfa Ddata Twristiaeth Eurostat ar y lefel NUTS-3 ar gyfer 2011, y flwyddyn ddiweddaraf a adroddir arni. Mae Eurostat yn dadelfennu lleoedd gwely yn

dri chategori: gwestai a llety tebyg; tiroedd gwersylla, parciau cerbydau hamdden a pharciau trelars; a lletyau gwyliau ac arhosiad byr arall.

Adeiladwyd newidynnau o'r data hwn i adlewyrchu'r gyfran o gyfanswm y lleoedd gwely sy'n atebol i westai a lletyau tebyg, a thiroedd gwersylla, parciau cerbydau hamdden a pharciau trelars, yn y drefn honno. Gwnaethpwyd hyn ar y lefel NUTS-3, ond hefyd ar y lefel genedlaethol trwy gydgrynhoi data NUTS-3.

Adeiladwyd cyfanswm y lleoedd gwely y pen fel cyfanswm nifer y lleoedd gwely wedi'u rhannu â phoblogaeth breswyl. Casglwyd data poblogaeth ar lefel NUTS-3 hefyd o Eurostat ar gyfer 2011, ac fe'i crynhowyd i lunio'r data cenedlaethol.

Defnyddiwyd "trawsnewidydd NUTS" y Comisiwn Ewropeaidd i drawsnewid y data o gyfundrefn NUTS 2010 i fersiwn 2021.

Cyfran o lety twristiaeth gan deipoleg ddaearyddol:

Casglwyd cyfrannau llety twristiaeth mewn ardaloedd arfordirol, dinesig, mynyddig a natur, ac ardaloedd gwledig ar gyfer pob rhanbarth NUTS-3 yn uniongyrchol gan awduron [Batista e Silva et al \(2021\)](#).

Atyniadau twristiaeth OpenStreetMap:

Lawrlwythwyd yr haen atyniadau twristiaid o OpenStreetMap a chroesdorwyd hwn â ffiniau NUTS-3 i bennu cyfanswm nifer y nodweddion 'atyniad twristiaeth' ym mhob rhanbarth NUTS-3.

Ar gyfer y dadansoddiad cenedlaethol, cafodd y data eu crynhoi ar draws ardaloedd NUTS-3 a'u rhannu yn ôl arwynebedd tir i gyfrif am yr heterogenedd ym maint y cenhedloedd.

Atodiad C - Ffynonellau data ar gyfer dadansoddi treth (Adrannau 3, 4 a 5)

Business.Gov.NL, TAW rates and exemptions, ar gael yn [Dutch TAW rates and exemptions | Business.gov.nl](https://business.gov.nl), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte, ar gael yn: [Deloitte.com](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 16.08.2022

Deloitte International Tax Denmark Highlights 2022, ar gael yn [Denmark Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Estonia Highlights 2022, ar gael yn [Estonia Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax France Highlights 2022, ar gael yn [France Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Ireland Highlights 2022, ar gael yn [Ireland Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Netherlands Highlights 2022, ar gael yn [Netherland Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Latvia Highlights 2022, ar gael yn [Latvia Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Luxembourg Highlights 2022, ar gael yn [Luxembourg Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Deloitte International Tax Norway Highlights 2022, ar gael yn [Norway Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 05.09.2022

Deloitte International Tax Sweden Highlights 2022, ar gael yn [Sweden Highlights 2022 \(deloitte.com\)](https://deloitte.com), wedi'i gyrchu 03.09.2022

Eurofound, 2019, 'Industrial relations: Minimum wages in 2019: Annual review', ar gael yn: [Eurofound](https://eurofound.eu), wedi'i gyrchu 31.08.2022

European Commission, Taxes in Europe Database, ar gael yn [Taxes in Europe Database v3 \(europa.eu\)](https://europa.eu), wedi'i gyrchu 03.09.2022

European Commission, 'Tourism-related taxes across the EU', ar gael yn [Europa & tourism taxes](https://europa.eu), wedi'i gyrchu 20.07.2022

European commission, VAT rates applied in the Member States, ar gael yn [vat rates](https://europa.eu), wedi'i gyrchu 01.09.2022

Expatica.com, ar gael yn [Expatica Freelance Tax](https://expatica.com), wedi'i gyrchu 01.09.2022 a [Expatic & netherlands](https://expatica.com)

EY, 2022, 'Worldwide VAT, GST and Sales Tax Guide 2022', ar gael yn [Sales tax guide 2022](#), wedi'i gyrchu 23.08.2022

EY, 2019, 'Worldwide TAW, GST and Sales Tax Guide 2019', ar gael yn [Sales tax guide 2019](#), wedi'i gyrchu 23.08.2022

Frenchbusinessadvice.com ar gael yn [Fench business](#) wedi'i gyrchu 23.08.2022

Frenchproperty.com, ar gael yn [French property & social-security](#), wedi'i gyrchu 01.09.2022 a [French property & rates](#).

KPMG, EU Country Profiles, ar gael yn [KPMG regional tax](#), wedi'i gyrchu 03.08.2022

LBSinFrance.com ar gael yn [LBS](#) wedi'i gyrchu 03.09.2021

Nordicom, Media VAT in the Nordic countries, ar gael yn [Media VAT in the Nordic countries](#), wedi'i gyrchu 05.09.2022

Norwegian Tax Office, VAT, ar gael yn [Norwegian Tax Administration](#), wedi'i gyrchu 01.09.2022

OECD, 2022, 'Taxing Wages 2022' ar gael yn: [OECD & taxing wages](#), wedi'i gyrchu 20.08.2022

OECD, 2020, 'Taxing Wages 2020' ar gael yn [OECD & taxing wages 2020](#), wedi'i gyrchu 10.08.2022

OECD Revenue Statistics ar gael yn [OECD Revenue](#) wedi'i gyrchu 07.09.2022

OECD statistics, ar gael yn [OECD Stats](#), wedi'i gyrchu 31.07.2022 a 04.08.2022

OECD average wage statistics, ar gael yn: [OECD Average Wage](#), wedi'i gyrchu 31.08.2022

PWC, Worldwide Tax Summaries, ar gael yn [Tax summaries](#), wedi'i gyrchu 01.08.2022 a 16.08.2022

RSM Overview of Norwegian Real Estate, ar gael yn [Overview of Norwegian real estate](#), wedi'i gyrchu 03.09.2022

VAT Digital, Luxembourg VAT Guide, ar gael yn [Luxembourg VAT Guide](#), wedi'i gyrchu 01.09.202

Atodiad D - Tybiaethau a wnaed mewn perthynas â threth incwm personol a chyfraniadau nawdd cymdeithasol.

Er mwyn archwilio ac adolygu i ba raddau y mae gwledydd yn cymharu, mae'r tybiaethau canlynol wedi'u gwneud, a dylid eu hystyried wrth ddarllen yr adroddiad hwn:

1. Lle mae dosbarthiadau lefel incwm wedi'u cyflwyno ar gyfer cyfraddau treth incwm neu gyfraddau cyfraniadau nawdd cymdeithasol, mae'r ffigur lefel incwm is wedi'i dalgrynnu i'r £1 nesaf. Nid yw hyn wedi'i wneud ar gyfer y dosbarth lefel incwm cyntaf ond caiff ei gymhwyso i bob dosbarth wedi hynny.
2. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf ag un unigolyn heb blant. Mae hyn oherwydd bod rhai gwledydd: (1) yn darparu credyd treth neu lwfansau personol ychwanegol os yw'r unigolyn yn briod/mewn undeb sifil; (2) gellir ei drethu ar incwm cartref neu incwm ar y cyd yn hytrach nag ar sail unigol (e.e., Ffrainc ac Iwerddon) oni bai bod opsiwn i eithrio; (3) yn galluogi'r unigolyn i fwynhau credydau treth a lwfansau ychwanegol os oes ganddynt blentyn/plant (e.e., Estonia a Denmarc). Yn ogystal, gall swm y mathau hyn o lwfansau/credydau treth newid yn dibynnu ar lefel yr incwm a nifer y plant mewn gwledydd penodol.
3. Tybir hefyd fod unigolion o oedran gweithio. Mae hyn oherwydd bod rhai gwledydd yn darparu lwfansau ac eithriadau ychwanegol a/neu'n gosod cyfraddau cyfraniadau nawdd cymdeithasol gostyngol (e.e., Iwerddon, yr Iseldiroedd).
4. Tybir bod yr unigolyn yn unigolyn sy'n preswyllo'n llawn ar gyfer treth yn y wlad dan sylw.
5. Nid yw rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn wedi'i gynnwys pan fo hyn yn berthnasol i wlad, oherwydd bod y rhain naill ai'n orfodol neu'n wirfoddol mewn rhai gwledydd, ac mae ganddynt derfynau uchaf gwahanol ar gyfer rhyddhad treth (e.e., Estonia).
6. Mae rhyddhad treth ar gyfer rhai treuliau (e.e. mae Iwerddon yn darparu rhyddhad treth incwm ar gyfer costau meddygol yr eir iddynt, Lwcsembwrg yn darparu rhyddhad treth ar arian cadw cymdeithasau adeiladu ar gyfer unigolion penodol ac ar gyfer costau domestig) wedi'u heithrio o'r adroddiad hwn. Mae hyn oherwydd ein bod yn teimlo nad ydynt yn berthnasol at ddibenion yr adroddiad hwn.
7. Nid yw incwm cyfalaf a buddsoddiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Y rheswm am hyn yw bod cyfraddau treth cymwys a gostyngiadau treth a symiau lwfans yn amrywio os yw unigolyn hefyd yn cael y mathau hyn o incwm yn ychwanegol at ei incwm a enillir mewn gwledydd penodol.
8. Mae rhai gwledydd yn caniatáu gostyngiad treth ar gyfer teithio rhwng y cartref a'r gwaith (cymudo) (e.e., Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd). At ddibenion yr adroddiad hwn, mae hyn wedi'i eithrio oherwydd gall y pellter cymudo amrywio rhwng gweithwyr unigol, a dim ond ychydig o'r gwledydd dethol sy'n caniatáu hyn fel rhyddhad treth.

Atodiad E – Lefelau isafswm cyflog a chyflog cyfartalog ar gyfer pob un o'r deg gwlad a ddewiswyd

	Isafswm cyflog		Cyflog cyfartalog	
	Cyferwerth Ewro	Arian cyfred cenedlaethol	Cyferwerth Ewro	Arian cyfred cenedlaethol
Denmarc	38,596	287,962	59,387	443,084
Estonia	6,480	6,480	18,329	18,329
Iwerddon	19,874	19,874	48,999	48,999
Ffrainc	18,255	18,255	39,152	39,152
Latfia	5,160	5,160	15,705	15,705
Lwcsembwrg	24,853	24,853	66,116	66,116
Yr Iseldiroedd	20,940	20,940	48,108	48,108
Sweden	23,464	248,661	54,834	581,112
Norwy	31,468	310,129	44,293	436,522
DU	20,960	18,362	42,043	36,833

Ffynonellau: OECD ac Eurofound

Atodiad F - Cyfrifiadau ar gyfer enghraifft 1

Cymru:

			GBP
(1)	Gwariant twristiaid		60,596
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	Wedi'i eithrio o dan y trothwy £85k	-
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	30,000
(5)	Treth eiddo	Dim ardrethi annomestig o dan Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, gan dybio bod y gwerth ardrethol yn llai na £6,000*	-
(6)	Incwm busnes trethadwy	$(6) = (1) - (2) - (3) - (4) - (5)$	30,596
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	Codir ar (6): 20% yn fwy na £12,500 o lwfans personol	3,619
(9)	SSC	Codir ar (6): 9% yn uwch na'r trothwy £8,633	1,977
(10)	Incwm clir	$(10) = (6) - (7) - (8) - (9)$ Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	25,000
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	$(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)$	5,596
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / [(1) - (4)] \times 100\%$	18.3%

* Amcangyfrifir bod 78% o dai llety yng Nghymru yn disgyn o dan y terfyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gyfer peidio talu ardrethi annomestig, a bod 96% yn cael rhywfaint o ryddhad o dan y cynllun.

Denmarc:

			DKK
(1)	Gwariant twristiaid		776,024
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 25% o [(1) minws (2)] LLA! TAW wrth brynu ar (4) @ $(1/3 \times 0 + 2/3 \times 25\%)$	112,092
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	296,119

(5)	Treth eiddo	2% Treth Gwerth Tir ynghyd â threth adeiladau 1% ar £50k cyfwerth ag arian lleol	14,806
(6)	Incwm busnes trethadwy	$(6) = (1) - (2) - (3) - (4) - (5)$	352,197
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	(a) Cyfraniad marchnad lafur @ 8% o (6) = DKK 24,385 (b) PIT Cenedlaethol @ 12.16% ynghyd â chyfradd gyfartalog PIT lleol o 24.93% llai credyd treth @ 10.1%, yn rhoi cyfanswm cyfradd effeithiol o 26.99% a godwyd ar incwm ar ôl cyf. marchnad lafur a 'lwfans personol' o DKK46,200 = DKK 63,218	103,160
(9)	SSC	Cyfandaliad o DKK 2,272	2,272
(10)	Incwm clir	$(10) = (6) - (7) - (8) - (9)$ Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	246,765
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	$(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)$	233,140
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / [(1) - (4)] \times 100\%$	48.6%

Ffrainc:

			EUR
(1)	Gwariant twristiaid		77,082
(2)	Ardoll ymwelwyr	Cyfradd nodweddiadol €1 y person y noson	1,825
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 10% o [(1) minws (2)] LLAI TAW wrth brynu ar (4) @ $(1/3 \times 0 + 1/3 \times 5.5\% + 1/3 \times 20\%)$	4,318
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	32,206
(5)	Treth eiddo	Prif breswylfa wedi'i eithrio rhag treth eiddo lleol	-
(6)	Incwm busnes trethadwy	$(6) = (1) - (2) - (3) - (4) - (5)$	38,732
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	Codir ar (6)-(9): 14% ar incwm rhwng €10,065 a €27,795; 30% uwchlaw'r trothwy hwnnw	3,136

(9)	SSC	12.8%* o drosiant heb gynnwys TAW a godwyd, hynny yw [(1)-(2)]/1.1	8,757
(10)	Incwm clir	(10) = (6) – (7) – (8) – (9) Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	26,839
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)	18,037
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / [(1) – (4)] x 100%	40.2%

* Codir cyfraddau gwahanol ar SSCau ar gyfer yr hunan-gyflogedig yn Ffrainc yn ôl natur benodol busnes. Codir 22%, 12.8% neu 6% ar ddarparwyr llety gwyliau. Defnyddir y gyfradd o 12.8% a godir ar Chambres d'Hôte, yn seiliedig ar y dyfarniad mai'r rhain sydd agosaf o ran cymeriad at westai/Gwely a Brecwast Cymreig.

Yr Iseldiroedd:

			EUR
(1)	Gwariant twristiaid		76,872
(2)	Ardoll ymwelwyr	Cyfradd nodweddiadol €1 y person y noson	1,825
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 9% o [(1) minws (2)] LLAI TAW wrth brynu ar (4) @ (1/3 x 0 + 2/3 x 21%)	1,943
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	34,639
(5)	Treth eiddo	0.2% o werth tir ar gyfartaledd	115
(6)	Incwm busnes trethadwy	(6) = (1) – (2) – (3) – (4) – (5)	38,350
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	Codir ar (6): 9% hyd at 20,384 €; 10.45% i 34,300 €; 38.1% i 68,507 €; Credyd gwaith hyd at 3,399 €; Credyd cyffredinol hyd at 2,888 €	-
(9)	SSC	Codir ar (6): 27.65% hyd at 34,300 €	9,484
(10)	Incwm clir	(10) = (6) – (7) – (8) – (9) Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	28,866
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)	13,367
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / [(1) – (4)] x 100%	31.7%

Norwy:

			NOK
(1)	Gwariant twristiaid		981,907
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 12% o [(1) minws (2)] LLAI TAW wrth brynu ar (4) @ (1/3 x 0 + 2/3 x 25%)	43,072
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	434,928
(5)	Treth eiddo	Yn nodweddiadol 0.2% o eiddo	2,900
(6)	Incwm busnes trethadwy	(6) = (1) – (2) – (3) – (4) – (5)	501,008
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	Codir ar (6): 22% dros NOK 157,350; 23.9% dros NOK 174,500; 26.2% dros NOK 245,650; 35.7% dros NOK 617,500	87,682
(9)	SSC	Codir ar (6):	50,887
(10)	Incwm clir	(10) = (6) – (7) – (8) – (9) Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	362,440
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)	184,540
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / [(1) – (4)] x 100%	33.7%

Sweden:

			SEK
(1)	Gwariant twristiaid		922,342
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 12% o [(1) minws (2)] LLAI TAW wrth brynu ar (4) @ (1/3 x 0 + 2/3 x 25%)	42,779
(4)	Treuliau i'w didynnu	Tybir £30k cyfwerth ag arian lleol	392,307
(5)	Treth eiddo	Treth eiddo tirol 1%	13,077
(6)	Incwm busnes trethadwy	(6) = (1) – (2) – (3) – (4) – (5)	474,180
(7)	CIT	Busnes anghorfforedig, felly dim	-
(8)	PIT	Codir ar (6): 32.19% rhwng SEK 13,700 a SEK 490,700 Llai credyd treth incwm a enillwyd (EITC) SEK 30,400	117,829
(9)	SSC	Codir ar (6): 7% (llai gostyngiad o 7.5%) uwchlaw SEK 19,670	29,430
(10)	Incwm clir	(10) = (6) – (7) – (8) – (9) Hafal i £25k cyfwerth ag arian lleol o ran adeiladwaith	326,922
(11)	Cyfanswm y lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (5) + (7) + (8) + (9)	203,113
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / [(1) – (4)] x 100%	38.3%

Atodiad G - Cyfrifiadau ar gyfer enghraifft 2

Cymru:

			'000 GBP
(1)	Gwariant twristiaid	(1) = (2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(8)	1,223.9
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 20% o [(4) i (8)] LLAI TAW wrth brynu ar (7) @ (1/3 x 0 + 1/3 x 5% + 1/3 x 20%)	173.2
(4)	Treth eiddo	Ardrethi annomestig: 53.5% o werth ardrethol £40k	21.4
(5)	SSC y cyflogwr	13.8% yn uwch na'r £8,632 cyntaf ar gyfer ~22 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn	29.3
(6)	Costau staff	Tybir £400k	400.0
(7)	Costau eraill	Tybir £400k gan gynnwys TAW wrth brynu	400.0
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k	200.0
(9)	CIT	19% o (8)	38.0
(10)	Elw ar ôl CIT		162.0
(11)	Lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (4) + (5) + (9)	261.9
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / (1) x 100%	21.4%

Denmarc:

			'000 DKK
(1)	Gwariant twristiaid	(1) = (2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(8)	11,724
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 25% o [(4) i (8)] LLAI TAW wrth brynu ar (7) @ 25%	1,555
(4)	Treth eiddo	2% treth gwerth tir ar £500k cyfwerth ag arian lleol ynghyd ag 1% ar werth adeiladau o £500k	148
(5)	SSC y cyflogwr	11,000 DKK fesul cyflogai ar gyfer tua 14 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn	151
(6)	Costau staff	Tybir £400k mewn arian lleol	3,948
(7)	Costau eraill	Tybir £400k mewn arian lleol, gan gynnwys TAW	3,948
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k mewn arian lleol	1,974
(9)	CIT	22% o (8)	434
(10)	Elw ar ôl CIT		1,540
(11)	Lletem dreth	(11) = (2) + (3) + (4) + (5) + (9)	2,289
(12)	Lletem dreth (%)	(12) = (11) / (1) x 100%	19.5%

Ffrainc:

			'000 EUR
(1)	Gwariant twristiaid	$(1) = (2) + (3) + (4) + (5) + (6) + (7) + (8)$	1,369.8
(2)	Ardoll ymwelwyr	Cyfradd nodweddiadol €1 y person y noson	18.3
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 10% o [(4) i (8)] LLA TAW wrth brynu ar (7) @ $(2/3 \times 5.5\% + 1/3 \times 20\%)$	82.7
(4)	Treth eiddo	2% o werth ychwanegol [(5)+(6)+(8)]	16.5
(5)	SSC y cyflogwr	41.66% o (6)	178.9
(6)	Costau staff	Tybir £400k mewn arian lleol	429.4
(7)	Costau eraill	Tybir £400k mewn arian lleol, gan gynnwys TAW	429.4
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k mewn arian lleol	214.7
(9)	CIT	28% o (8)	60.1
(10)	Elw ar ôl CIT		154.6
(11)	Lletem dreth	$(11) = (2) + (3) + (4) + (5) + (9)$	356.4
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / (1) \times 100\%$	26.0%

Yr Iseldiroedd:

			'000 EUR
(1)	Gwariant twristiaid	$(1) = (2) + (3) + (4) + (5) + (6) + (7) + (8)$	1,303.2
(2)	Ardoll ymwelwyr	Cyfradd nodweddiadol €1 y person y noson	18.3
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 9% o [(4) i (8)] LLA TAW wrth brynu ar (7) @ $(1/3 \times 9\% + 2/3 \times 21\%)$	39.0
(4)	Treth eiddo	0.2% o werth tir ar gyfartaledd	1.2
(5)	SSC y cyflogwr	19.52% o (6)	90.2
(6)	Costau staff	Tybir £400k mewn arian lleol	461.8
(7)	Costau eraill	Tybir £400k mewn arian lleol, gan gynnwys TAW	461.8
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k mewn arian lleol	230.9
(9)	CIT	15% o (8)	34.6
(10)	Elw ar ôl CIT		196.3
(11)	Lletem dreth	$(10) = (2) + (3) + (4) + (8)$	183.2
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / (1) \times 100\%$	14.1%

Norwy:

			'000 NOK
(1)	Gwariant twristiaid	$(1) = (2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(8)$	15,957
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 12% o [(4) i (8)] LLAI TAW wrth brynu ar (7) @ $(1/3 \times 15\% + 2/3 \times 25\%)$	677
(4)	Treth eiddo	0.2% o werth eiddo ar gyfartaledd	29
(5)	SSC y cyflogwr	13% o (6)	754
(6)	Costau staff	Tybir £400k mewn arian lleol	5,799
(7)	Costau eraill	Tybir £400k mewn arian lleol, gan gynnwys TAW	5,799
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k mewn arian lleol	2,900
(9)	CIT	22% o (8)	638
(10)	Elw ar ôl CIT		2,262
(11)	Lletem dreth	$(10) = (2) + (3) + (4) + (8)$	2,098
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / (1) \times 100\%$	13.1%

Sweden:

			'000 SEK
(1)	Gwariant twristiaid	$(1) = (2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(8)$	15,462
(2)	Ardoll ymwelwyr	Dim	-
(3)	TAW	TAW wrth werthu = 12% o [(4) i (8)] LLAI TAW wrth brynu ar (7) @ $(1/3 \times 12\% + 2/3 \times 25\%)$	610
(4)	Treth eiddo	Treth eiddo tirol 1%	131
(5)	SSC y cyflogwr	31.42% o (6)	1,644
(6)	Costau staff	Tybir £400k mewn arian lleol	5,231
(7)	Costau eraill	Tybir £400k mewn arian lleol, gan gynnwys TAW	5,231
(8)	Elw cyfrifo	Tybir £200k mewn arian lleol	2,615
(9)	CIT	21.4% o (8)	560
(10)	Elw ar ôl CIT		2,056
(11)	Lletem dreth	$(10) = (2) + (3) + (4) + (8)$	2,944
(12)	Lletem dreth (%)	$(12) = (11) / (1) \times 100\%$	19.0%

Atodiad H – Cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Mae'r cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir yn adran 5 o'r adroddiad hwn yn gyfraddau cydraddoldeb pŵer prynu (PPP) ar gyfer 2019, o ffynhonnell yr [OECD](#), ac maent fel a ganlyn :

Denmarc (DKK)	6.791558
Ffrainc (EUR)	0.738663
Yr Iseldiroedd (EUR)	0.794447
Norwy (NKK)	9.975182
Sweden (SEK)	8.99766
DG (GBP)	0.688058